

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo Gynadledda drwy Zoom	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Medi 2020	Kayleigh Imperato – Dipwrwy Glerc
Amser: 09.00	0300 200 6565373
	<a href="mailto:Deisebau@senedd.cymru">Deisebau@senedd.cymru</a>

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant 09:00 (Tudalennau 1 – 45)
- 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:
- Item 2
- 3 Dadl ar ddeisebau – Trafodaeth breifat (Tudalennau 46 – 49)
- 4 Deisebau COVID-19 09.15
  - 4.1 P-05-987 Dylid diweddar u'r canllawiau fel bod Canolfannau Hapchwarae i Oedolion, sy'n fusnesau teuluol, yn gymwys ar gyfer Grantiau (Tudalennau 50 – 57)
  - 4.2 P-05-991 Sicrhewch fod sticer ar gael i ddangos eich bod yn byw yng Nghymru (Tudalennau 58 – 60)



4.3 P-05-993 Gnewch y sector manwerthu'n gwbl hygrych i bobl anabl  
(Tudalennau 61 – 70)

#### **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd (4.4 a 4.5)**

4.4 P-05-998 Dylid gorfodi gwisgo mygydau a gorchuddion wyneb mewn siopau  
(Tudalennau 71 – 75)

4.5 P-05-1005 Sicrhau nad yw gwisgo mygydau mewn siopau yn dod yn orfodol  
(Tudalennau 76 – 78)

4.6 P-05-999 Sicrhau bod pob ysgol gynradd yn cadw pellter cymdeithasol o 1 metr fan lleiaf ym mis Medi 2020  
(Tudalennau 79 – 86)

### **5 Deisebau Covid-19 newydd sydd eisoes wedi'u datrys**

5.1 P-05-994 Caniatáu i adeiladau eglwysi ailagor – er enghraifft, ar gyfer addoli ar y cyd  
(Tudalennau 87 – 90)

5.2 P-05-1004 Caniatáu i Ysgolion Dawns yng Nghymru ailagor ar unwaith ar gyfer gwersi dan do  
(Tudalennau 91 – 94)

5.3 P-05-1019 Dyfarnwch raddau a ragwelwyd gan athrawon i holl fyfyrwyr Cymru ar gyfer arholiadau 2020  
(Tudalennau 95 – 98)

### **6 Deisebau newydd**

6.1 P-05-974 Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU  
(Tudalennau 99 – 109)

6.2 P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgyl yn ei ddysgu  
(Tudalennau 110 – 122)

- 6.3 P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru  
(Tudalennau 123 – 133)
- 6.4 P-05-996 Galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â symud, difrodi na dinistrio unrhyw symbolau hanesyddol yng Nghymru  
(Tudalennau 134 – 140)

**Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd (3.5 a 3.6):**

- 6.5 P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Velindre newydd arfaethedig  
(Tudalennau 141 – 160)
- 6.6 P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol  
(Tudalennau 161 – 165)
- 6.7 P-05-1002 Dylid rhoi sebiant treth stamp o ran pob ty sy'n cael ei brynu yng Nghymru  
(Tudalennau 166 – 175)
- 6.8 P-05-1003 Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru  
(Tudalennau 176 – 205)

**7 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

- 7.1 P-05-962 Diwygiad brys i ymestyn yr oedran y ceir hawl i gymorth addysgol ychwanegol o 25 i 26 ac i ddiffinio pandemig Covid-19 yng nghanllawiau'r Llywodraeth fel amgylchiad eithriadol  
(Tudalennau 206 – 210)
- 7.2 P-05-967 Annog LIC i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ardrethi annomestig i helpu gadw siopau Debenhams ar agor  
(Tudalennau 211 – 215)

7.3 P-05-970 Gofynnwch i'r Senedd ailystyried ei phenderfyniad i beidio â rhoi cyllid brys i swau ac acwaria

(Tudalennau 216 – 218)

**Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd (7.4 a 7.5):**

7.4 P-05-981 Caniatáu i gampfeydd a chanolfannau hamdden ailagor

(Tudalennau 219 – 222)

7.5 P-05-986 Caniatáu i gampfeydd bach a safleoedd hyfforddi personol agor yn gynt yn ystod cyfyngiadau COVID

(Tudalennau 223 – 226)

7.6 P-05-979 Mabwysiadu polisiau llywodraeth y DU o ran llacio'r cyfyngiadau symud

(Tudalennau 227 – 231)

7.7 P-05-983 Rhowch gymorth grant i fusnesau Gwely a Brecwast yng Nghymru sy'n talu'r dreth gyngor ac nid ardrethi busnes

(Tudalennau 232 – 233)

7.8 P-05-984 Dylid rhoi'r gorau i ymgyngoriadau o bell sy'n gwahaniaethu o ran ceisiadau llosgyddion yn ystod y pandemig Covid-19

(Tudalennau 234 – 238)

7.9 P-05-985 Darparu gofal plant i weithiwr allweddol sy'n cyfateb i'r hyn a oedd ar gael cyn pandemig Covid-19

(Tudalennau 239 – 247)

7.10 P-05-988 Rhowch fynediad cyfartal at eu hysgolion a'u hathrawon i blant gweithwyr allweddol

(Tudalennau 248 – 254)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4.1

P-05-987 Dylid diweddarwr canllawiau fel bod Canolfannau Hapchwarae i Oedolion, sy'n fusnesau teuluol, yn gymwys ar gyfer Grantiau Busnes yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Delucia Sidoli, ar ôl casglu cyfanswm o 706 lofnodion.

## Geiriad y ddeiseb:

Mae gan lawer o drefi yng Nghymru Ganolfan Hapchwarae i Oedolion. O'r holl ganolfannau felly yng Nghymru, dim ond dyrnaid sy'n rhan o gadwyn cenedlaethol; mae'r gweddill yn fusnesau teuluol.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn bendant na fydd yn diweddaru canllawiau Grant Busnes COVID i gefnogi'r canolfannau hapchwarae sy'n fusnesau teuluol. Mae canolfannau hapchwarae i oedolion hefyd wedi'u hepgor o'r Gronfa Gwydnwch Economaidd.

Mae rhai canolfannau hapchwarae yng Nghymru wedi gweithredu ers y 1980au ac mae pob un yn cyflogi pobl leol. Mae'r diffyg cefnogaeth gyfredol yn rhoi cannoedd o swyddi mewn perygl yng Nghymru.

## Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae canolfannau hapchwarae i oedolion wedi cael eu cynnwys yng nghynlluniau grant Lloegr a'r Alban, ac mae busnesau yn y gwledydd hynny wedi cadarnhau eu bod wedi cael y grantiau.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

# P-05-987 Dylid diweddar u'r canllawiau fel bod Canolfannau Hapchwarae i Oedolion, sy'n fusnesau teuluol, yn gymwys ar gyfer Grantiau Busnes yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13465

Rhif y ddeiseb: P-05-987

**Teitl y ddeiseb:** Dylid diweddar u'r canllawiau fel bod Canolfannau Hapchwarae i Oedolion, sy'n fusnesau teuluol, yn gymwys ar gyfer Grantiau Busnes yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Mae gan lawer o drefi yng Nghymru Ganolfan Hapchwarae i Oedolion. O'r holl ganolfannau felly yng Nghymru, dim ond dyrnaid sy'n rhan o gadwyn cenedlaethol; mae'r gweddill yn fusnesau teuluol.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn bendant na fydd yn diweddar canllawiau Grant Busnes COVID i gefnogi'r canolfannau hapchwarae sy'n fusnesau teuluol. Mae canolfannau hapchwarae i oedolion hefyd wedi'u hepgor o'r Gronfa Gwydnwch Economaidd.

Mae rhai canolfannau hapchwarae yng Nghymru wedi gweithredu ers y 1980au ac mae pob un yn cyflogi pobl leol. Mae'r diffyg cefnogaeth gyfredol yn rhoi cannoedd o swyddi mewn perygl yng Nghymru.

Mae canolfannau hapchwarae i oedolion wedi cael eu cynnwys yng nghynlluniau grant Lloegr a'r Alban, ac mae busnesau yn y gwledydd hynny wedi cadarnhau eu bod wedi cael y grantiau.



## 1. Cefndir

Fel rhan o'i hymateb i bandemig y coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu nifer o gynlluniau i gefnogi busnesau, gan gynnwys drwy grantiau sy'n gysylltiedig â gwerth ardrethol eiddo a rhyddhad ar gyfer ardrethi annomestig.

Mae ardrethi busnes (a elwir hefyd yn ardrethi annomestig) wedi'u datganoli'n llwyr i Gymru ers mis Ebrill 2015.

Mae Canolfannau Hapchwarae i Oedolion, a elwir yn aml yn arcedau, yn dod o dan drefniadau trwyddedu penodol, fel y nodir gan y Comisiwn Hapchwarae

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 19 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd becyn cymorth i fusnesau sy'n delio â COVID-19. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad ar 17 Mawrth ynghylch cymorth i fusnesau.

Mae'r cymorth yn cynnwys rhyddhad ardrethi busnes 100 y cant i bob eiddo a ddefnyddir ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch. Diwygiwyd hyn wedyn ar 24 Mawrth i bedio â chynnwys eiddo sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu fwy. Nid yw'r canllawiau sy'n ymwneud â'r rhyddhad hwn yn cyfeirio'n benodol at Ganolfannau Hapchwarae i Oedolion nac arcedau. Fodd bynnag, mae'n eithrio 'casinos a chlybiau gamblol'.

Cyflwynodd y pecyn cymorth hefyd ddau grant i fusnesau sy'n bodloni meinu prawf penodol, sy'n cael eu darparu drwy awdurdodau lleol (nid yw'r canllawiau ar gyfer y cynlluniau hyn bellach ar gael ar wefan BusnesCymru). Y rhain yw:

- Grant 1: Mae grant o £25,000 ar gael i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch mewn adeiladau sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, busnesau sy'n meddiannu eiddo fel siopau, bwytau, caffis, lleoedd yfed, sinemâu, lleoliadau cerddoriaeth fyw, gwestai, tai llety, lletyau a llety hunanarlwyo.
- Grant 2: Grant o £10,000 i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai.

Estynnwyd y cynllun grant ar 6 Mai i bob trethdalwr sy'n gymwys i gael rhyddhad elusennol a rhyddhad i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol, sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch mewn eiddo sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai. Gallent gael mynediad at grant o £10,000 drwy'r cynllun.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor Deisebau ynghylch y ddeiseb hon, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu nad oes dim cynlluniau i ddiwygio'r mein prawf cymhwysedd ar gyfer y cynlluniau rhyddhad ardrethi a chymorth grantiau. Mae'n nodi tri amod penodol sy'n cael eu hystyried gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag arcedau difyrion a busnesau tebyg:

1. Mae gan bob busnes sy'n cael rhyddhad ardrethi busnesau bach (SBRR) hawl i grant o £10k.  
Mae hyn yn golygu y gallai sefydliadau hapchwarae / gambllo llai sy'n elwa o SBRR hefyd fod yn gymwys i gael grant.
2. Mae arcedau o'r math y gellid eu cyfrif fel difyrion yn hytrach nag adeiladau gambllo yn cael eu hystyried yn sefydliadau hamdden ac yn gymwys i gael y grantiau naill ai trwy'r llwybr SBRR neu, lle mae gwerth ardrethol yr adeiladau yn eu gwneud yn gymwys, am y grant mwy o £25k fel cyfleusterau hamdden.
3. Nid yw sefydliadau hapchwarae (fel sydd i'w cael yn gyffredinol yng nghanol dinasoedd ond a allai fod wedi'u lleoli yn unrhyw le hefyd) sydd fel arfer â mynediad cyfyngedig i bobl 18 oed a hŷn ac sydd a) heb hawl i SBRR a b) lle mai gambllo yn hytrach na difyrrwch yw'r prif weithgaredd, yn gymwys ar gyfer y grant manwerthu, hamdden a lletygarwch. Mae canllawiau'r cynllun ardrethi annomestig ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru - 2020-21 yn eithrio hereditamentau gambllo yn benodol.

#### Caeodd y cynllun grantiau i geisiadau newydd ar 30 Mehefin 2020.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig grantiau tebyg i fusnesau yn Lloegr:

- Grant o **£10,000** i fusnesau bach sy'n gymwys i gael **Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach** neu **Ryddhad Ardrethi Gwledig** (mae'r trothwy ar gyfer busnesau bach yn Lloegr yn golygu eiddo sydd â gwerth ardrethol o dan £15,000).
- **Grant o £25,000 i fusnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden** sydd â gwerth ardrethol dros £15,000 ac o dan £51,000.

Mae hefyd wedi ehangu **Cynllun Gostyngiad Manwerthu 2020-21** i ryddhad ardrethi busnes 100 y cant ac i gynnwys sectorau hamdden a lletygarwch. Mae'r canllawiau cysylltiedig yn nodi bod casinos, clybiau gambllo a neuaddau bingo yn gymwys i gael y rhyddhad.

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cynnig dau grant:

- **Grant o hyd at £10,000** i fusnesau bach cymwys (h.y. trethdalwr sy'n cael y Cynllun Bonws Busnesau Bach neu'r Rhyddhad Gwledig)
- **Grant o hyd at £25,000** i fusnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden cymwys sydd â gwerth ardrethol rhwng £18,001 a hyd at £51,000 ac yn cynnwys hynny. Mae'r mathau o eiddo sy'n gymwys yn cynnwys, er enghraifft, neuaddau bingo a difyrion.

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi gweithredu **rhyddhad ar dreithi busnes 100 y cant ar gyfer y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden**. Mae rhestr o eiddo cymwys wedi'i chynnwys yn y rheoliadau perthnasol ac mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, neuaddau bingo.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mewn ymateb i **gwestiwn ysgrifenedig** (29 Ebrill 2020) yn gofyn i'r Gweinidog gadarnhau:

... bod canolfannau hapchwarae i oedolion yn siopau sy'n manwerthu gweithgareddau hamdden ac felly â hawl i fanteisio ar y grant ar gyfer busnesau manwerthu hamdden a lletygarwch sy'n talu ar dreithi, fel lleoliadau tebyg, megis neuaddau bingo, ac fel y gwnânt yn Lloegr o dan y cynllun cyfatebol yno. ...

Atebodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru (13 Mai 2020):

The guidance recognises that some of the categories listed may include a range of different business activities. Where the guidance is not explicit, it is for local authorities to determine whether the activities of an individual business align with the purpose of the scheme.

Mewn ymateb i **gwestiwn ysgrifenedig** yn gofyn a fyddai diwygiad yn cael ei wneud i ganllawiau'r grant er mwyn "sicrhau bod canolfannau hapchwarae ac arcedau difyrion yn cael eu cynnwys ar y rhestr o fusnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden sy'n gymwys i gael rhyddhad" (19 Mai 2020). Atebodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar (5 Mehefin 2020) nad oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r meinu prawf cymhwysedd.

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi cyhoeddi **galwad agored am dystiolaeth a phrofiadau o effaith COVID-19**. Trwy hyn mae wedi cael **tystiolaeth gan Bacta** - y gymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiant difyrion a pheiriannau hapchwarae yn y DU. Dywedir:

The situation in Wales has been more problematic than in other parts of the UK, as Welsh Government and local authority decision-making has meant that many high street and seaside arcades have not been able to access the rate-related Retail, Leisure and Hospitality Grant.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried dwy ddeiseb yn ymwneud â COVID-19 ac Ardreithi Busnes:

- **P-05-967: Annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi ar ryddhad ar dreithi annomestig i helpu i gadw siopau Debenhams ar agor yng Nghymru** (23 Mehefin 2020)
- **P-05-968: Talu grantiau Coronafeirws i bob busnes sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardreithi i Fusnesau Bach, yr un fath â gweddill y DU** (23 Mehefin 2020)

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-987  
Ein cyf/Our ref RE/00453/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

14 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch i chi am eich llythyr, yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynglŷn ag ardrethi annomestig a'r cymorth i fusnesau a ddarperir gan Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd pob busnes yn elwa ar y cynllun rhyddhad ardrethi, a'r cymorth grant sy'n gysylltiedig ag ardrethi, a ddarperir fel rhan o'r ymateb i bandemig y coronafeirws. Mae'r pecyn cymorth wedi cael ei gynllunio i fod yn fforddiadwy o fewn y cyllid sydd ar gael, ac er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb wrth weinyddu'r cynlluniau, nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd.

Mae'r awdurdodau lleol wedi bod yn gweinyddu cynlluniau grantiau ardrethi annomestig mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac ar ei rhan. Drwy gydweithio ar hynny, maent wedi cyflawni gwaith gwych, gan ddosbarthu dros 60,000 o ddyraniadau a thros £729 miliwn o gyllid cymorth ers i'r argywng ddechrau ym mis Mawrth.

Byddwch yn gwybod am y canllawiau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cyhoeddi mewn perthynas â'r cynlluniau grantiau ardrethi annomestig. Mae ein partneriaid awdurdodau lleol, er bod ganddynt y disgrifiwn i ddweud a ddylai grant gael ei ddyfarnu ai peidio, yn cadw at y canllawiau hyn wrth iddynt weithredu'r cynlluniau. O ran arcedau difyrion yn benodol, a busnesau tebyg, mae awdurdodau lleol yn ystyried yn fanwl yr amodau canlynol cyn dyfarnu cyllid grant:

1. Mae gan bob busnes sy'n derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bach yr hawl i gael grant o £10,000. Mae hynny'n golygu y gallai busnesau gamblu bach sy'n elwa ar y rhyddhad ardrethi a roddir i fusnesau bach hefyd fod yn gymwys i gael grant.
2. Mae arcedau, y gellir eu categoriiddio'n fusnesau sy'n cynnig difyrion yn hytrach na busnesau gamblu, yn cael eu hystyried yn fusnesau hamdden. Gallant felly fod yn gymwys i gael grant, naill ai drwy'r llwybr rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, neu, os bydd gwerth ardrethol y safle yn eu gwneud yn gymwys, gallant fod yn gymwys i gael y grant mwy o £25,000.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 56

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Nid yw busnesau gamblo (sydd wedi eu lleoli fel arfer yng nghanol dinasoedd, er y gallent fod mewn mannau eraill hefyd), y mae mynediad iddynt wedi ei gyfyngu i bobl 18 oed ac yn hŷn, ac a) nad ydynt â'r hawl i gael rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a b) gamblo yn hytrach na difyrrwch yw eu prif weithgarwch, yn gymwys i gael y grant manwerthu, hamdden a lletygarwch. Mae canllawiau'r cynllun ardrethi annomestig ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch – 2020-21, yn dweud yn benodol nad yw'r cynllun yn cynnwys hereditamentau gamblo.

Mae wedi cael ei wneud yn glir i awdurdodau lleol fod Gweinidogion yn cefnogi'n llawn y defnydd o'u pwerau yn ôl disgrifiwn i ddyfarnu grantiau ardrethi annomestig ai peidio, yn seiliedig ar y canllawiau perthnasol.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

## Eitem 4.2

P-05-991 Sicrhewch fod sticer ar gael i ddangos eich bod yn byw yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rosalind Rhodes, ar ôl casglu 39 llofnod ar-lein a 42 ar bapur, sef cyfanswm o 81 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**

Mae llawer o Gymry yn ofni am bobl yn dod i mewn a allai ddod â Coronafeirws. Mae'n rhaid i'r DVLA neu gynghorau lleol ddarparu'r sticer neu'r cerdyn dwyieithog hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Sticer fel hyn:

RWY'N BYW YNG NGHYMRU

LL10 XXX

Mae'n amlwg i'r heddlu ei weld ond gellid cael gwared arno'n hawdd pe bai angen.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Ein cyf/Our ref KS/04217/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

22 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-05-991 Darpru Sticer yn datgan eich bod yn byw yng Nghymru.

Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gyflwyno sticer sy'n datgan eich bod yn byw yng Nghymru. Mae ein gwefan fanwl am y Coronafeirws yn cynnig ystod eang o wybodaeth a chyngor manwl, ar <https://llyw.cymru/coronafeirws>. Mae canllawiau penodol am drafnidiaeth i'w gweld ar <https://llyw.cymru/teithio-coronafeirws>.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Ken".

**Ken Skates AS/MS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Minister for Economy, Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 59

**P-05-991 Make available a sticker stating you live in Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 28.08.20**

I started this petition because friends were being stopped 2 or 3 times a day, on their way in & out of Bala. Eventually the police remembered them & waved them on. The police behaved admirably. They were friendly & chatty but I thought this was a waste of their valuable time & safety. Rarely are police seen with any protection. They were there, at that time, to stop people holidaying in Wales & coming in to Wales because of Covid 19.

I thought a card or sticker( depending if people wanted to keep it up all the time or not), stating 'Rwy'n byw yng Nghymru' / 'I live in Wales ' & their post code would be a useful & proud effort that people could make. On the back in small print, the person could write their name, the car registration & their locality, in case of theft. The police could then just wave them on( unless they were behaving inappropriately).

The card would be voluntary, for a small cost, with some identification noting that it was official &/or a number. The latter could be used as a reference for the police, if it became necessary. The card could be bought from the DVLA or local councils. A councillor has signed the petition because he thought it may be useful if there is a 2nd wave.

If this second wave comes, Wales does not want hoards of day trippers. These are the people who leave the rubbish, do not social distance & defecate in the countryside. We do want people who have bothered to book in B&B's, self catering,hotels etc. Even 2nd home owners would be welcome because we need the economy, in safety, cleanliness & respect for Wales.

The people who have booked could perhaps be provided with their own pass, from their B&B, or hotel etc.

The day trippers could then be stopped by the police because they would not have a card or sticker.

Perhaps if it became popular to have a sticker or card it may be a deterrent to these day visitors. We seriously need to keep Wales safe.

Cofion cynnes,

## P-05-993 Gnewch y sector manwerthu'n gwbl hygyrch i bobl anabl

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Paget-Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 173 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Yn ystod pandemig Covid-19, mae llawer o siopau hanfodol wedi defnyddio dulliau diogelwch sydd wedi eithrio llawer o bobl anabl. Ni chafodd pobl â nam ar y golwg eu cynnwys yn y slotiau siopa blaenoriaeth cyn diwedd mis Mai. Mae'r holl arwyddion a marciau llawr yn bur weledol, sy'n dda i ddim os oes gennych olwg gwan neu ddim golwg. Nid yw systemau un ffordd mewn siopau'n ddigon llydan i ddefnyddwyr cadair olwyn ac mae cilfachau i'r anabl yn cael eu defnyddio fel lle i bobl giwio.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, mae pobl anabl yn wynebu mwy o heriau. Mae bysiau a threnau wedi selio cilfachau i'r anabl, ni all pobl fyddar ddarllen gwefusau gyda phobl yn gwisgo mygydau wyneb ac, wrth agor bariau, caffis a bwytai, bydd mwy o seddi awyr agored yn bosibl. Mae hyn yn peri mwy o risg i bobl anabl gan fod seddi awyr agored, y rhan fwyaf o'r amser, yn cymryd dros le cyhoeddus ac yn achosi perygl a rhwystr.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru

# P-05-993 Gnewch y sector manwerthu'n gwbl hygrych i bobl anabl

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13466

Rhif y ddeiseb: P-05-993

Teitl y ddeiseb: Gnewch y sector manwerthu'n gwbl hygrych i bobl anabl

## Testun y ddeiseb:

Yn ystod pandemig Covid-19, mae llawer o siopau hanfodol wedi defnyddio dulliau diogelwch sydd wedi eithrio llawer o bobl anabl. Ni chafodd pobl â nam ar y golwg eu cynnwys yn y slotiau siopa blaenoriaeth cyn diwedd mis Mai. Mae'r holl arwyddion a marciau llawr yn bur weledol, sy'n dda i ddim os oes gennych olwg gwan neu ddim golwg. Nid yw systemau un ffordd mewn siopau'n ddigon llydan i ddefnyddwyr cadair olwyn ac mae cilfachau i'r anabl yn cael eu defnyddio fel lle i bobl giwio.

## Gwybodaeth ychwanegol

Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, mae pobl anabl yn wynebu mwy o heriau. Mae bysiau a threnau wedi selio cilfachau i'r anabl, ni all pobl fyddar ddarllen gwefusau gyda phobl yn gwisgo mygydau wyneb ac, wrth agor bariau, caffis a bwyta, bydd mwy o seddi awyr agored yn bosibl. Mae hyn yn peri mwy o risg i bobl anabl gan fod seddi awyr agored, y rhan fwyaf o'r amser, yn cymryd dros le cyhoeddus ac yn achosi perygl a rhwystr.



# 1. Cefndir

Mae'r newidiadau a wnaed i'n hamgylchedd adeiledig yn sgil y pandemig, a'r modd y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar hygyrchedd, wedi bod yn bryder mawr wrth i fusnesau ailagor yn raddol.

## 1.1. Gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae tair rhan o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn berthnasol i'r mater hwn.

### Dyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol'

Mae Adran 20 yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau i wneud **addasiadau rhesymol er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle bydd person anabl o dan 'anfantais sylweddol'** o'i gymharu â pherson nad yw'n anabl wrth geisio cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.

Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys tri gofyniad:

- newid **y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud**;
- gwneud newidiadau i oresgyn rhwystrau a grëwyd gan **nodweddiwn ffisegol** adeilad y darparwr gwasanaeth;
- darparu **cymhorthion a gwasanaethau ychwanegol**, fel darparu offer ychwanegol neu ddarparu gwasanaeth gwahanol neu ychwanegol.

**Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi beth allai gynrychioli addasiad rhesymol**, gan fod hyn i'w benderfynu yn unol ag amgylchiadau penodol pob achos unigol.

Mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **yn nodi bod yr hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar faint a natur y busnes, ymhilith ystyriaethau eraill**. Felly, gall yr hyn sy'n cael ei ystyried yn addasiad rhesymol i sefydliad mawr fel banc fod yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei ystyried yn addasiad rhesymol ar gyfer siop fach annibynnol.

### Dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn creu un ddyletswydd cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, ac unrhyw gorff sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, ystyried anghenion grwpiau gwarchodedig (er enghraift, pan fyddant yn darparu gwasanaethau ac yn eu harferion cyflogaeth.)

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i gymryd y camau a ganlyn:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherdir gan y Ddeddf;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

### Dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru

Mae Adran 153 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban osod **dyletswyddau penodol** drwy gyfrwng rheoliadau. Mae'r dyletswyddau penodol yn ofynion cyfreithiol a ddyfeisiwyd i helpu awdurdodau cyhoeddus gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae **dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus** yng Nghymru yn gosod rhwymedigaethau amrywiol ar fwyafrif yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru (fel awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd) gan gynnwys (ymhlith eraill):

- cynhyrchu **amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol**;
- **ymgysylltu** gyda phobl o grwpiau gwarchodedig wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- asesu **effaith** eu penderfyniadau ar **gydraddoldeb**;
- casglu **gwybodaeth am gydraddoldeb**.

## 1.2. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yw rheoleiddiwr Deddf Cydraddoldeb 2013. Ar ôl cyfnewid gohebiaeth gychwynnol ar y mater dan sylw, ysgrifennodd Rebecca Hilsenrath, ei Brif Weithredwr **llythyr agored** at Gonsortiwm Manwerthu Prydain ym mis Mai, yn nodi bod y consortiwm wedi **methu â chydnabod y rhwymedigaethau cyfreithiol ar fanwerthwyr i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl**. Mae'r llythyr yn pwysleisio'r ffaith nad yw cefnogaeth wirfoddol yn negyddu'r gofynion cyfreithiol ar fanwerthwyr.

Nododd y llythyr hefyd fod y **diffiniad cyfreithiol o 'anabledd' yn llawer mwy eang na'r grŵp o bobl y bu gofyn iddynt 'warchod' eu hunain**, sy'n golygu bod risg y gallai gweithredoedd y manwerthwyr adael pobl anabl yn ynysig ac yn methu â siopa am hanfodion.

Nododd y llythyr hefyd fod yr EHRC wrthi'n **adolygu dros 300 o hawliadau yn erbyn archfarchnadoedd mawr** am fethu ag ystyried anghenion pobl anabl a gwneud addasiadau at ddibenion caniatáu i bobl siopa am hanfodion.

Oherwydd pryderon parhaus bod rhai manwerthwyr yn methu â gwneud addasiadau rhesymol i gwsmeriaid anabl, ar 3 Medi cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **ganllawiau** newydd sy'n esbonio'r camau syml y gall manwerthwyr eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'n argymhell y dylai manwerthwyr:

- 1.** Darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion eu cwsmeriaid i gyd;
- 2.** Cynllunio ymlaen llaw i feddwl am anghenion eu cwsmeriaid anabl;
- 3.** Cyfathrebu â'u cwsmeriaid, a
- 4.** Hyfforddi eu staff.

Mae'r canllawiau'n cynnwys amrywiaeth o ffyrdd ymarferol o wella hygyrchedd mewn siopau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ymateb Llywodraeth Cymru i uchafbwyntiau'r ddeiseb:

- "Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal **Asesiadau Effaith Integredig ac ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl anabl** lle y gallai effeithiau anfwriadol ddigwydd. Mae angen i Awdurdodau Lleol allu darparu tystiolaeth, ar gais, fod hyn wedi digwydd cyn y gallwn ryddhau cyllid";
- "Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â **manwerthwyr a Chonsortiwm Manwerthu Cymru** er mwyn sicrhau bod camau digonol yn cael eu cymryd i ddiwallu anghenion defnyddwyr anabl o fewn cyfyngiadau'r protocolau yngylch cadw pellter cymdeithasol";
- "Mae cyfarfodydd rhwng aelodau o Gonsortiwm Manwerthu Cymru a sefydliadau anableddau wedi profi'n ddefnyddiol o safbwyt rhannu gwybodaeth ac adborth yngylch y cyfathrebu a'r addasiadau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a gweithwyr anabl. O'r herwydd mae llawer o fanwerthwyr wedi cynnig **oriau penodedig ar gyfer defnyddwyr hŷn a defnyddwyr agored i niwed**, a hefyd wedi caniatáu i **gynorthwywyr personol** siopa gyda phrynwyr pan fo angen. Mae archfarchnadoedd hefyd wedi cyflwyno talebau neu gardiau rhodd electronig, sy'n galluogi i aelodau o deuluoedd, ffrindiau a gwirfoddolwyr siopa ar ran pobl eraill. Maent hefyd yn cynnig **hyfforddiant i** staff yngylch y ffordd orau o ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid anabl", ac

- “Wrth i'r economi ailagor mae Llywodraeth Cymru **yn disgwyl i anghenion y cyhoedd o ran hygyrchedd gael eu diwallu'n llwyr lle y bo'n bosibl.** Os yw'r cyfreithiau ynghylch cadw pellter o 2 fetr yn gwneud hynny'n anodd mae'n ofynnol cyflwyno trefniadau eraill digonol ar gyfer sicrhau mynediad”.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn Senedd Cymru adroddiad yn ddiweddar ar **anghydraddoldeb a'r pandemig**. Un o'r prif negeseuon yn yr adroddiad oedd bod angen gwella hygyrchedd.

Dyweddodd y Pwyllgor:

“Mae'r pandemig wedi gosod heriau cymhleth i bobl anabl. Ni ddylai'r newidiadau a wneir i'n hamgylchedd a'n bywydau arwain at lai o annibyniaeth i bobl, ac mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod barn pobl anabl yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am y 'normal newydd'.”

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch hygyrchedd, gan gynnwys argymhellion y dylai:

- gynnal **ymgrych ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch cadw pellter cymdeithasol i bwyslesio'r gwahanol heriau y mae'r 'normal newydd' yn eu gosod i wahanol bobl;**
- darparu **canllawiau cyflym i fusnesau sy'n ailagor ynghylch hygyrchedd ffisegol a chyfathrebu;**
- sefydlu **cynllun dosbarthu nwyddau â blaenoriaeth ar gyfer pobl anabl** nad ydynt yn gwarchod (tebyg i gynllun DEFRA/RNIB yn Lloegr);
- penodi **arweinydd hygyrchedd** o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwyllo'r gwaith o lunio'r holl wybodaeth allweddol am iechyd y cyhoedd a gwybodaeth arall mewn fformatau hygyrch; a
- sicrhau bod **asesiad effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb**, a dadansoddiad o'r effaith ar hawliau dynol, yn cyd-fynd â phob penderfyniad polisi neu ddeddfwriaethol mawr. Dylid cyhoeddi'r ddau ar-lein a dylid anfon copïau at y Pwyllgor hwn i'w hadolygu.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion hyn ym mis Medi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref KS/04233/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

21 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf ynghylch sicrhau bod busnesau manwerthu yn gwbl hygyrch.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn deall y gall unrhyw newidiadau i'r amgylchedd ffisegol greu anawsterau i bobl ddall a phobl sydd â nam ar eu golwg gan y gall llwybrau fod yn anghyfarwydd ac yn anodd eu rhagweld. Mae Llywodraeth Cymru wedi atgoffa Awdurdodau Lleol ynghylch eu dyletswydd i sicrhau bod unrhyw newidiadau i amgylcheddau ffisegol yn cael eu gweithredu mewn modd nad yw'n creu anawsterau anfwriadol ar gyfer pobl anabl.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiadau Effaith Integredig ac ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl anabl lle y gallai effeithiau anfwriadol ddigwydd. Mae angen i Awdurdodau Lleol allu darparu tystiolaeth, ar gais, fod hyn wedi digwydd cyn y gallwn ryddhau cyllid.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â manwerthwyr a Chonsortiwu Manwerthu Cymru er mwyn sicrhau bod camau digonol yn cael eu cymryd i ddiwallu anghenion defnyddwyr anabl o fewn cyfyngiadau'r protocolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn barhaus a bydd angen mynd i'r afael â bylchau o safbwyt cymorth, ac yn arbennig o ran grwpiau agored i niwed ar lefel ehangach, gan gynnwys y rhai nad yw eu llais bron byth yn cael ei glywed, y rhai agored i niwed a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Mae cyfarfodydd rhwng aelodau o Gonsortiu Manwerthu Cymru a sefydliadau anableddau wedi profi'n ddefnyddiol o safbwyt rhannu gwybodaeth ac adborth ynghylch y cyfathrebu a'r addasiadau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a gweithwyr anabl. O'r herwydd mae llawer o fanwerthwyr wedi cynnig oriau penodedig ar gyfer defnyddwyr hŷn a defnyddwyr agored i niwed, a hefyd wedi caniatáu i gynorthwywyr personol siopa gyda phrynwyr pan fo angen. Mae archfarchnadoedd hefyd wedi cyflwyno talebau neu gardiau rhodd electronig, sy'n galluogi i aelodau o deuluoedd, ffrindiau a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 68**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwirfoddolwyr siopa ar ran pobl eraill. Maent hefyd yn cynnig hyfforddiant i staff ynghylch y ffordd orau o ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid anabl.

Wrth i'r cyfyngiadau ar rannau o'r economi gael eu llacio'n ofalus gan gynnwys lletygarwch a manwerthu mae'n bwysicach nag erioed i sicrhau bod y cyhoedd a gweithluoedd yn ddiogel. Wrth i'r economi ailagor mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i anghenion y cyhoedd o ran hygyrchedd gael eu diwallu'n llwyr lle y bo'n bosibl. Os yw'r cyfreithiau ynghylch cadw pellter o 2 fetr yn gwneud hynny'n anodd mae'n ofynnol cyflwyno trefniadau eraill digonol ar gyfer sicrhau mynediad.

Rydym yn deall, fod bynnag, fod llawer iawn mwy o waith i'w wneud ac mae swyddogion yn parhau i gydweithio â manwerthwyr er mwyn sicrhau bod modd i bobl ddall a phobl sydd â nam ar eu golwg barhau'n annibynnol wrth i fesurau'r cyfnod clo gael eu llacio. Caiff y materion yr ydych yn tynnu sylw atynt yn eich llythyr, a hefyd y ddeiseb a gyflwynwyd, yn cael eu hystyried.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Minister for Economy, Transport and North Wales

**P-05-993 Make retail in Wales fully accessible to disabled people,  
Correspondence – Petitioner to Committee 09.09.20**

The restrictions disabled people face are still happening 6 months on from Covid. Disabled bays being used for queues, assistance not being made available for those who need it in store and One way systems which blind people can not navigate, service dog owners are being refused entry into establishments and outdoor seating clutters pavements (even if the road is pedestrianised that's not use to service dogs and wheelchair users)

The equalities commission published materials last week on the equality act and how stores need to adhere to it. Although it only need a week no changes have happened, and it's 6 months on this should have come out sooner and business still have no clue.

Kind regards,

Angharad

## P-05-998 Dylid gorfodi gwisgo mygydau/gorchuddion wyneb mewn siopau

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Matthew Engstrom, ar ôl casglu cyfanswm o 5,516 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio ym maes manwerthu ac, er gwaethaf ymdrech gynhwysfawr iawn gan fy nghyflogwr, nid yw'r camau diogelwch sydd ar waith yn ddigon os yw cwsmer yn penderfynu anwybyddu'r rheolau. Byddai gorfodi gwisgo gorchuddion wyneb y tu mewn i siopau'n ffordd deg ac effeithiol o ddiogelu staff a chwsmeriaid ymhellach.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd gwisgo gorchuddion wyneb mewn siopau'n helpu i atal trosglwyddo Covid 19 ac, yn ogystal ag ymdrechion cadw pellter cymdeithasol a hylendid, bydd yn diogelu staff a chwsmeriaid ymhellach.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru



Your ref: P-05-998  
Our ref: KS/04826/20

Janet Finch-Saunders MS  
[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

14 August 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch ei gwneud yn orfodol gwisgo mygydau/gorchuddion wyneb mewn siopau.

Rydym yn cadw golwg ar y sefyllfa o hyd ynghylch a ddylid gwneud gwisgo mygydau'n orfodol. Gwnaeth y Prif Weinidog ymdrin â'r mater yn ei sesiwn byw ar Facebook yr wythnos hon – y gwnaeth y BBC gyfeirio ato: <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53735867>

Mae'r dystiolaeth yn glir o hyd mai'r ffordd orau o amddiffyn eich hun ac eraill rhag yr haint yw cadw at y rheolau cadw pellter, osgoi cyffwrdd ag arwynebau ac â'ch wyneb a golchi'ch dwylo'n rheolaidd. Ceir dystiolaeth sy'n awgrymu bod gwisgo gorchudd wyneb yn rhoi ymdeimlad ffug o ddiogelwch ac yn gwneud pobl yn llai gofalus o ran cadw pellter a golchi dwylo.

Dylid nodi serch hynny ei bod yn orfodol gwisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru os ydych chi'n 11 oed neu fwy, heblaw am rai eithriadau. Mae'r gofyn hwn yn rhan o amrywiaeth eang o gyfyngiadau a gofynion sy'n ceisio rhwystro'r feirws rhag lledaenu, ond fe fyddwn yn ei wneud yn orfodol mewn mannau eraill os bydd y coronafeirws yn dechrau lledaenu yng Nghymru unwaith eto.

Y prif reswm dros wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yw bod llai o le ar fysiau, trenau, awyrennau a thacsis i gymryd camau eraill i leihau'r risg o ddal y coronafeirws.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae teithwyr fel arfer wedi'u cyfyngu i un sedd gydol y daith ac nid yw'n bosibl yn aml symud i osgoi teithwyr eraill. Darllenwch y canllawiau amgaeedig:  
<https://llyw.cymru/y-gofyniad-i-wisgo-gorchudd-wyneb-ar-drafnidiaeth-gyhoeddus-yng-nghymru>

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Minister for Economy, Transport and North Wales

**P-05-998 Wearing of face masks/coverings to be mandatory in shops,  
Correspondence – Petitioner to Committee, 06.09.20**

Dear Members of the committee

Thank you for the opportunity to comment further on why I believe the mandatory use of facemasks/ face coverings in shops is a vital step forward in response to the continued threat of Covid 19.

I have outlined my concerns and some research points below for your consideration. I am available for further comment at any time.

- Masks are proving to be effective in reducing the viral load. If you catch Covid whilst wearing a mask you could get a lighter dose or version of Covid due to the reduced exposure a mask provides. Monica Gandhi, an infectious disease doctor at the University of California, San Francisco, says people wearing masks will take in fewer coronavirus particles, making it easier for their immune systems to cope. Link to research <https://www.ucsf.edu/news/2020/07/418181/one-more-reason-wear-mask-youll-get-less-sick-covid-19>
- People who are continuing to shield because of a concern over people not wearing masks in shops may gain the confidence required to return to the retail environment which would then boost the economic outlook for retailers. This would also be a mental health benefit to those at risk individuals who may not have been out of the house for months.
- The benefit of a mandatory government led approach is that businesses would have a clear rule. The onus would not be on the retailer to decide policy and potentially create any customer issue about entry restrictions. Policing the mask rule in shops has been not been an issue in many other countries with the majority of people adopting this temporary measure as the new norm and a way to protect each other until a viable treatment/vaccine is available.
- The priority given to the NHS for mask supplies was obviously the right call during the peak. With the availability of face masks both single use and reusable now plentiful, cost effective and varied there is no reason to dissuade people from this further form of protection.
- An enclosed space is an enclosed space. The virus doesn't know if it is on a train or in a small shop. Many retail environments have narrow aisles which definitely provide less than social distance space for people to shop and despite the trust placed in shoppers to follow guidelines people do not always follow the rules. I have seen the discipline of many shoppers practically evaporate in the past month as people become board or fed up with the situation we find ourselves in. If risk of transmission is reduced by wearing a mask in these circumstances then surely it is worth doing.
- The advice of catching a cough or sneeze in a tissue is still put forward as an effective worthwhile thing to do to reduce transmission, surely a face covering does the same essential thing on a continuous basis if worn correctly?

- Face coverings are a way of further enhancing the protection of retail staff and by connection their families during the pandemic. Retail staff have either continued to work or returned to work sooner than many other professions during this pandemic. Often putting themselves at risk for minimum wage to ensure the supply of essential and non essential items to the public. It is unfair for staff to keep doing this in Wales without the best possible protection and vital to keep this infrastructure secure and safe. Many retail workers have families and the risk of bringing the virus home because of a non mandatory mask policy is both unfair and a cause for anxiety and mental health problems.
- As we move into the further loosening of restrictions we are also simultaneously approaching important milestones in the reopening of all parts of our society. Children will be returning to school, more people will be returning to workplaces after furlough and in turn using public transport, we are approaching flu season and all that entails. Face coverings in shops could provide a much needed level of further protection during these reopening test phases.
- Masks could help prevent the spread of other viruses that could be mistaken for Covid 19. Currently if you have any of the symptoms of Covid 19 you are advised to self isolate and get tested asap. This could also apply to the others in the household. Other viruses including flu could be mistaken for Covid 19 until tested potentially causing more disruption and harm. If face coverings reduce the transmission of other viruses with similar symptoms this could help keep more people safe and productive. This enhanced protection could also relieve pressure on the NHS during the winter months.
- Time delay factor. It is worse to wait until Covid cases rise before putting a mandatory mask order in place because of the potential of A symptomatic spread. Analysing data of an increase in cases means you are already potentially 10 - 14 days behind the virus. We need to be proactive instead of reactive.

## Eitem 4.5

P-05-1005 Sicrhau nad yw gwisgo mygydau mewn siopau yn dod yn orfodol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Wayne Smith, ar ôl casglu cyfanswm o 412 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Nid yw gorfodi pobl i wisgo mygydau wedi'i brofi 100 y cant i atal lledaeniad y coronaferiws (COVID-19). Mae'n RHAID i bobl gael y dewis, o ran diogelwch personol ac i sicrhau nad ydym yn destun mesurau Draconaidd.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref: P-05-1005  
Ein cyf/Our ref KS/05110/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders AS  
Aelod o'r Senedd

Government.Committee.Business@gov.wales

17 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Awst ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch ei gwneud yn orfodol gwisgo mygydau/gorchuddion wyneb mewn siopau. Yr un yw ein cyngor ag ar gyfer deiseb P-05-998 er ein bod yn cadw golwg ar y sefyllfa o hyd ynghylch a ddylid gwneud gwisgo mygydau'n orfodol. Gwnaeth y Prif Weinidog ymdrin â'r mater yn ei sesiwn byw ar Facebook yr wythnos hon – y gwnaeth y BBC gyfeirio ato:

<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53735867>

Mae'r dystiolaeth yn glir o hyd mai'r ffordd orau o amddiffyn eich hun ac eraill rhag yr haint yw cadw at y rheolau cadw pellter, osgoi cyffwrdd ag arwynebau ac â'ch wyneb a golchi'ch dwylo'n rheolaidd. Ceir dystiolaeth sy'n awgrymu bod gwisgo gorchudd wyneb yn rhoi ymdeimlad ffug o ddiogelwch ac yn gwneud pobl yn llai gofalus o ran cadw pellter a golchi dwylo.

Dylid nodi serch hynny ei bod yn orfodol gwisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru os ydych chi'n 11 oed neu fwy, heblaw am rai eithriadau. Mae'r gofyn hwn yn rhan o amrywiaeth eang o gyfyngiadau a gofynion sy'n ceisio rhwystro'r feirws rhag lledaenu, ond fe fyddwn yn ei wneud yn orfodol mewn mannau eraill os bydd y coronafeirws yn dechrau lledaenu yng Nghymru unwaith eto.

Y prif reswm dros wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yw bod llai o le ar fysiau, trenau, awyrennau a thacsis i gymryd camau eraill i leihau'r risg o ddal y coronafeirws.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae teithwyr fel arfer wedi'u cyfyngu i un sedd gydol y daith ac nid yw'n bosibl yn aml symud i osgoi teithwyr eraill. Darllenwch y canllawiau amgaeedig: <https://llyw.cymru/y-gofyniad-i-wisgo-gorchudd-wyneb-ar-drafnidiaeth-gyhoeddus-yng-nghymru>

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru  
Minister for Economy, Transport and North Wales

P-05-999 Sicrhau bod pob ysgol gynradd yn cadw pellter cymdeithasol o 1 metr fan lleiaf ym mis Medi 2020

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Laura Denise Keighan, ar ôl casglu cyfanswm o 124 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Rhaid amddiffyn ein plant, ac amddiffyn ein GIG.

Nid yw'n gyfrinach bod ein GIG yn ei chael hi'n anodd ymdopi â phwysau'r gaeaf bob blwyddyn, gan gynnwys y ffliw tymhorol, a bod ysbytai'r DU yn llawn o ganlyniad i'r pwysau hyn. Bob blwyddyn, mae ein sianeli newyddion a'n ffrydiau newyddion yn llawn straeon am y pwysau hyn. Byddai cynnydd sydyn mewn achosion o'r coronafeirws yn rhoi pwysau ychwanegol ar y GIG, gan arwain, o bosibl, at chwalu'r system. Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu anfon ein plant yn ôl i'r ysgol, a hynny heb fesurau cadw pellter cymdeithasol i'w hamddiffyn.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae dystiolaeth yn dangos bod angen lefel o normalrwydd ar blant er mwyn atal problemau iechyd meddwl a sicrhau ffyrdd iach o fyw iddynt. Gan gydnabod hyn, a chadw mewn cof y peryglon sy'n wynebu ein plant a'r GIG, rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei chynnig, ac i ystyried cynnig cyfuniad o addysg gartref ffurfiol, drwy ddysgu o bell, a pharhau â'r fodel "swigen", sy'n hwyluso mesurau cadw pellter cymdeithasol. Byddai hyn yn caniatáu i blant ddychwelyd i'r ysgol yn rhan amser, ond byddai hefyd yn caniatáu iddynt ymgymryd ag astudiaethau ffurfiol amser llawn. Rwy'n cynnig y dylai'r dull hwn gael ei weithredu hyd at dymor y gwanwyn, pan fydd y cyfnod blynnyddol o bwysau'r gaeaf wedi pasio.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

# Cadw pellter cymdeithasol mewn ysgolion cynradd

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13467-1

## Rhif y ddeiseb: P-05-999

**Teitl y ddeiseb:** Sicrhau bod pob ysgol gynradd yn cadw pellter cymdeithasol o 1 metr fan lleiaf ym mis Medi 2020

**Testun y ddeiseb:** Rhaid amddiffyn ein plant, ac amddiffyn ein GIG. Nid yw'n gyfrinach bod ein GIG yn ei chael hi'n anodd ymdopi â phwysau'r gaeaf bob blwyddyn, gan gynnwys y ffliw tymhorol, a bod ysbytai'r DU yn llawn o ganlyniad i'r pwysau hyn. Bob blwyddyn, mae ein sianeli newyddion a'n ffrydiau newyddion yn llawn straeon am y pwysau hyn. Byddai cynnydd sydyn mewn achosion o'r coronafeirws yn rhoi pwysau ychwanegol ar y GIG, gan arwain, o bosibl, at chwalu'r system. Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu anfon ein plant yn ôl i'r ysgol, a hynny heb fesurau cadw pellter cymdeithasol i'w hamddiffyn.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Mae dystiolaeth yn dangos bod angen lefel o normalrwydd ar blant er mwyn atal problemau iechyd meddwl a sicrhau ffyrdd iach o fyw iddynt. Gan gydnabod hyn, a chadw mewn cof y peryglon sy'n wynebu ein plant a'r GIG, rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei chynnig, ac i ystyried cynnig cyfuniad o addysg gartref ffurfiol, drwy ddysgu o bell, a pharhau â'r fodel "swigen", sy'n hwyluso mesurau cadw pellter cymdeithasol. Byddai hyn yn caniatáu i blant ddychwelyd i'r ysgol yn rhan amser, ond byddai hefyd yn caniatáu iddynt ymgymryd ag astudiaethau ffurfiol amser llawn. Rwy'n cynnig y dylai'r dull hwn gael ei weithredu hyd at dymor y gwanwyn, pan fydd y cyfnod blynnyddol o bwysau'r gaeaf wedi pasio.



## 1. Crynodeb

Ailagorodd ysgolion ledled Cymru i bob disgybl yn llawn amser ar ddechrau Medi 2020. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn ar **9 Gorffennaf 2020** yn dilyn cyngor gan ei Chell Cyngor Technegol.

Ar ddechrau mis Awst, gwnaeth Llywodraeth Cymru **Iacio'r gofyniad ar blant** o dan 11 oed (mewn ysgolion cynradd) i gadw pellter cymdeithasol.

Mae'r briff hwn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndirol berthnasol a dolenni at ffynonellau a chyhoeddiadau allweddol.

## 2. Cyfnodau blaenorol pan gaewyd ysgolion a lleihawyd gweithrediadau.

### 2.1. Dysgu o bell gartref

**Caewyd ysgolion ar gyfer darparu addysg statudol** ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 ar sail iechyd cyhoeddus oherwydd COVID-19. Arhosodd ysgolion ar agor i **blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol** nad oedd gofal plant diogel arall ar gael ar eu cyfer, fel rhan o 'ddiben newydd' i ysgolion, gan alluogi'r ymateb i COVID-19. Ar ôl iddynt gau i'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion, roedd disgwyl i ysgolion gefnogi addysg disgyblion gartref, trwy ddefnyddio adnoddau ar-lein fel **Hwb**.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **erthygl blog ar 8 Ebrill** sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y cam hwn.

### 2.2. 'Dysgu cyfunol'

Ddydd Llun 29 Mehefin, dechreuwyd proses raddol, fesul cam, o ddychwelyd i'r ysgol. Diben hyn oedd i ddisgyblion '**Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi'** ar gyfer yr hyn y mae'r **Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, wedi rhybuddio** y bydd 'yn debygol o fod yn dymor hydref hir a heriol iawn'.

Oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol, wrth ddychwelyd yn raddol i'r ysgol roedd tua thraean o'r disgyblion yn bresennol yn yr ysgol ar unrhyw adeg benodol, ac roedd disgyblion yn cael cyfle i fynd i'r ysgol ar o leiaf dri achlysur cyn gwyliau'r haf. Roedd y rhan fwyaf o'r addysgu a'r dysgu'n parhau i fod ar-lein fel rhan o fodel 'dysgu cyfunol'.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **erthygl blog ar 16 Mehefin** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y cam hwn.

### 3. Dychwelyd i'r ysgol

**Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf** y byddai'r holl ddisgyblion yn dychwelyd i ysgolion ar amserlen amser llawn o ddechrau'r tymor newydd ar 1 Medi 2020, yn ddibynnol ar yr amodau o ran trosglwyddiad y coronafeirws. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn yn dilyn cyngor gan ei **Chell Cyngor Technegol**, a argymhellodd:

y dylai ysgolion yng Nghymru gynllunio i agor ym mis Medi, gyda 100% o ddisgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau i ostwng yn gyson yn y gymuned, a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu staff a phlant.

Nododd y cyngor gwyddonol bwysigrwydd y cynllun Profi, Olrhain, Diogelu ac argymhellodd y dylai'r rhaglen olrhain cysylltiadau anelu at olrhain tuag 80% o gysylltiadau, ac y dylid olrhain o leiaf 35% ohonynt o fewn 24 awr.

Argymhellodd hefyd y dylai 'paratoadau ar gyfer gallu addysgu hyd at 100% o'r plant o bell fod yn eu lle bob amser, rhag ofn bydd angen gwneud hynny'. Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ynghylch y ddeiseb hon yn cyfeirio at y posibilrwydd o gyfyngiadau symud lleol pe bai'r amodau'n dirywio. Mae dysgu cyfunol, felly, yn cael ei gadw i raddau helaeth fel cynllun wrth gefn possibl os oes angen. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn y **Cyfarfod Llawn ar 26 Awst** (paragraffau 13-20), mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ailagor ysgolion yn ôl y capasiti sydd ar gael i lacio'r cyfyngiadau:

...penderfynodd y Cabinet yr wythnos diwethaf i gadw'r rhan fwyaf o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni i helpu i ailagor ysgolion yng Nghymru yn ddiogel ac yn llwyddiannus o 1 Medi ymlaen....

#### 3.1. Materion ymarferol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau gweithredol** i ysgolion ynglŷn â rheoli'r broses o ddisgyblion yn dychwelyd, ynghyd â **chanllawiau ar ddysgu**. Mae **adran Cwestiynau Cyffredin** ar ei gwefan hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu cyfnod o hyblygrwydd, gan gydnabod y bydd ysgolion o bosib am ganolbwytio ar grwpiau mewn blynnyddoedd â blaenoriaeth, fel y rhai sy'n dechrau mewn ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai sydd yn y dosbarth derbyn. Mae hyn yn caniatáu amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu, gyda disgyblion yn dychwelyd ar wahanol ddyddiadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi **addasu gofynion y cwricwlwm statudol** ac erbyn hyn mae gofyn i ysgolion wneud ymdrech rhesymol yn

unig i addysgu'r cwricwlwm llawn. Mae'r addasiad hwn, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn para hyd at 30 Medi 2020, a bydd y Gweinidog yn ei adolygu'n barhaus.

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf** ei bod yn llacio'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol ymhli plant o dan 11 oed. **Dyweddodd** fod hyn 'yn cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol sy'n dangos bod y risg o drosglwyddo'r haint yn is yn y grŵp oedran hwn'. Fodd bynnag, ychwanegodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig iawn bod plant hŷn ac oedolion ifanc yn parhau i gadw pellter cymdeithasol gan fod lefel y risg yn wahanol yn y grwpiau oedran hyn.

Ar 26 Awst, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ddiweddaru ei safbwyt ynglŷn â gorchuddion wyneb mewn ysgolion**. Argymhellir y dylid defnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd ond nid mewn ysgolion cynradd. Er bod **cyngor gwyddonol** yn nodi nad yw gorchuddion wyneb yn debygol o wneud fawr o wahaniaeth mewn plant o dan 11 oed, fe'u hargymhellir ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd dros 11 oed mewn lleoliadau dan do lle na ellir cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion uwchradd.

## 4. Pwysa a mesur y risg o drosglwyddo'r firws mewn ysgolion yn erbyn y niwed i blant a phobl ifanc o ganlyniad i beidio â mynd i'r ysgol

Fel y mae llythyr y Gweinidog yn ei amlinellu, mae'n rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng y risg o drosglwyddo COVID-19 mewn ysgolion a'r effeithiau negyddol ar iechyd wrth beidio â mynd i'r ysgol. Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru yn nodi:

Gan fod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn, mae'r cydbwysedd risg bellach yn gadarn o blaid bod plant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae peidio â mynd i'r ysgol yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd plant, ac i'w hiechyd a'u lles, yn enwedig ymyst plant difreintiedig; a, gall hyn gael effaith yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gwyddom fod cyflawniad academaidd is hefyd yn troi'n gostau economaidd tymor hir. Gwyddom hefyd fod cau ysgolion wedi effeithio ar allu rhai teuluoedd i weithio. Bydd anfon dysgwyr yn ôl i'r ysgol mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl yn arwain at fanteision cadarnhaol ar sawl agwedd, yn enwedig eu lles meddyliol ac emosiynol.

Ar 23 Awst, **cyhoeddodd y pedwar Prif Swyddog Meddygol ledled y DU ddatganiad ar y cyd ynglŷn â'r dystiolaeth o risgiau a buddion i iechyd o ganlyniad i ailagor ysgolion a lleoliadau gofal plant**. Dehonglwyd hyn fel rhywbeth sy'n ategu'r penderfyniad i ailagor ysgolion.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref Deiseb P-05-999  
Ein cyf/Our ref KW/04316/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

3 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 27 Gorffennaf, ynghylch y ddeiseb a gyflwynwyd gan Laura Denise Keighan.

Ddydd Gwener, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai'r sefyllfa o ran plant dan 11 oed yn gorfol cynnal pellter o 2m oddi wrth ei gilydd neu oddi wrth oedolion yn cael ei llacio o ddydd Llun 3 Awst. Mae'r dystiolaeth wyddonol yn dangos bod y risg o drosglwyddo'r feirws yn is o fewn y grŵp oedran hwn. Gwyddom fod y risg i blant eu hunain o fod yn ddifrifol wael yn sgil COVID-19 yn isel iawn. Mae'r **dystiolaeth** gyfredol yn nodi bod haint SARS-CoV-2 yn effeithio'n ysgafnach ar blant nag ar oedolion: bod symptomau'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu heintio yn ysgafn iawn, os oes ganddynt symptomau o gwbl, ac mai ychydig iawn sy'n datblygu afiechyd difrifol neu sy'n peryglu eu bywyd. Mae yna ychydig ansicrwydd o hyd i baraddau y mae plant yn trosglwyddo'r feirws, ond o arsylwi'r hyn sydd wedi digwydd wrth agor ysgolion yn Lloegr ac mewn gwledydd eraill, ni welwyd arwyddion ei fod yn cael ei drosglwyddo ryw lawer gan blant.

Mae'n rhaid cydbwys o'r risgiau hyn yn ofalus ag effeithiau iechyd negyddol peidio â mynd i'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn bwynt cyswllt pwysig o ran gwasanaethau iechyd cyhoeddus a diogelu sy'n hanfodol i les plant a theuluoedd. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn golygu y gall plant ifainc gwrdd â'u ffrindiau i chwarae yn yr awyr agored neu roi coflaid i'w mam-gu a'u tad-cu.

Fodd bynnag, mae plant yn dal i orfol dilyn y cyfyngiadau eraill o ran cyswllt grwpiau teuluol ac ati. Rhaid cydbwys o'r risg i'r rheini sy'n byw gyda'r plant hyn ac yn gofalu amdanyst, sy'n debygol o fod angen dod i gysylltiad corfforol â nhw fel rhan o'u gofal bob dydd. Mae'n dal i fod angen i blant gadw at y cyfyngiadau cymdeithasol o ran cwrdd â grwpiau teuluol eraill

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 85

neu gynulliadau ehangach, a chyfrifoldeb y rhieni o hyd yw asesu a gwerthuso'r risgiau o ran cyswllt teuluol a chymdeithasol eu plant. Yn yr un modd, bydd plant yn parhau i weithio mewn grwpiau yn yr ysgol i warchod ac ystyried iechyd oedolion, gan gynnwys athrawon a'r gymuned ehangach.

O fis Medi, bydd ysgolion ar agor i bob disgyl, a chyhoeddwyd [canllawiau gweithredu](#) i'w helpu i baratoi ar gyfer tymor yr hydref. Rydym hefyd yn cydnabod, wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, ac ar gyfer y posibilrwydd o ail gyfnod clo, fod angen rhyw fath o ddull dysgu cyfunol. Mae'r [canllawiau dysgu](#) yn darparu arweiniad ar ddatblygu cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol wrth edrych i'r dyfodol. Wrth Iunio'r ddwy ddogfen ganllaw hon, ystyriwyd cyngor diweddaraf [adroddiad y Grŵp Cyngori Technegol](#) a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus, a bydd angen i bob ysgol hefyd gynllunio ar gyfer cyfnod clo lleol posibl a sut y byddant yn sicrhau dilyniant yn yr addysg o fewn fframwaith o gyfyngiadau lleol.

Yn y cyfamser, rwy'n gobeithio bod y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud, ac yn fwy diweddar mewn perthynas â phlant cynradd yn benodol, yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi ein holl ddysgwyr yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn gywir

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

# Eitem 5.1

P-05-994 Caniatáu i adeiladau eglwysi ailagor – er enghraifft, ar gyfer addoli ar y cyd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Philip Cushen, ar ôl casglu cyfanswm o 416 lofnodion.

## Geiriad y ddeiseb:

I Gristnogion a phobl o gymunedau ffydd eraill, mae addoli ar y cyd yn rhan hanfodol o fywyd crefyddol, nid dim ond rhywbeth ychwanegol.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r pandemig COVID-19 presennol yn amlwg yn galw am gyfyngiadau eithriadol i ddiogelu iechyd unigolion ac iechyd cymdeithas yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae iechyd ysbrydol ac iechyd meddwl pobl grefyddol hefyd yn hynod bwysig, gan arwain at sgil-effeithiau eang ar gymdeithas. Wrth drafod ailagor lleoliadau ymarfer corff, lleoliadau adloniant ac ati, mae hefyd angen rhoi sylw brys i ailagor adeiladau ar gyfer addoli ar y cyd, er mwyn galluogi'r agwedd hanfodol hon ar fywyd i ailddechrau ar gyfer pobl o ffydd grefyddol.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru



Ein cyf/Our ref: FM -/01275/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru

[deisebau@senedd.cymru](mailto:deisebau@senedd.cymru)

23 July 2020

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf ynghylch deiseb P-05-994  
*Caniatáu i adeiladau eglwysi ailagor – er enghraift, ar gyfer addoli ar y cyd.*

Ers dechrau'r pandemig, mae Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, wedi cadeirio cyfarfodydd Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru, sydd wedi trafod agor mannau addoliad yn ddiogel. Roeddwn yn falch o fod yn bresennol yng nghyfarfod y fforwm ar 3 Mehefin.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen, gydag aelodau o'r Fforwm Ffydd, i ystyried yr adborth a gafwyd gan gymunedau ffydd i ddatblygu protocol ar gyfer ail-agor addoldai yn ddiogel. Roeddym wedi ymrwymo i ddatblygu dull Cymru o ddatgloï gweithgareddau ffydd mewn partneriaeth â Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru. Rydym yn ddiolchgar i gymunedau ffydd ledled Cymru am eu mewnbwn.

Mae swyddogion mewn cyswllt rheolaidd ag aelodau'r Fforwm yn ogystal â chydag aelodau'r grŵp Angladdau, Claddedigaethau ac Amlosgiadau, sydd hefyd wedi bod yn rhan o drafodaethau ynghylch ailagor mannau addoli.

Ar 19 Mehefin, cyhoeddais ailagor mannau addoliad ar gyfer gweddio preifat a phriodasau.

Ar 10 Gorffennaf, cyhoeddais fesur llacio pellach i alluogi i wasanaethau a seremoniâu dan do ailddechrau, yn amodol ar weithredu mesurau pellhau cymdeithasol. Cyhoeddais hefyd y gallai hyd at 30 o bobl gwrdd yn yr awyr agored i addoli pan drefnwyd hynny gan gorff crefyddol neu gred.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Tudalen y pecyn 88  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae mannau addoli yn chwarae rhan bwysig o ran darparu arweinyddiaeth ysbrydol i lawer o unigolion, ac o ran dod â chymunedau at ei gilydd. Fodd bynnag, mae eu natur gymunedol hefyd yn eu gwneud yn lleoedd sy'n arbennig o agored i'r perygl o wasgaru coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r cymunedau ffydd yng Nghymru i adolygu'r sefyllfa a chynllunio ar gyfer ailagor mannau addoli ymhellach fel y mae'r Cyngor ynghylch risgiau trosglwyddo yn ei ganiatáu.

Mae'r canllawiau sy'n ymwneud ag addoldai ar gael yma: <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ailagor-mannau-addoli-coronafeirws>

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

**P-05-994 Permit the reopening of church buildings, etc. for communal worship, Correspondence – Petitioner to Committee, 21.08.20**

Thank you for responding to me, and also enclosing the documents. As it turned out, my petition was rendered unnecessary by announcements made subsequent to its publication, and I am satisfied by the decisions already made by the Welsh Government. In the light of this, it would seem to be unnecessary for the Petitions Committee to spend time considering my petition.

Thank you again

Philip Cushen

## P-05-1004 Caniatáu i Ysgolion Dawns yng Nghymru ailagor ar unwaith ar gyfer gwersi dan do

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Michelle Meano, ar ôl casglu cyfanswm o 1,307 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Ers i'r cyfnod cloi yn y Deyrnas Unedig ddechrau ym mis Mawrth 2020, mae Ysgolion Dawns dan do wedi bod ar gau. Mae gwersi dawns yn cynnig rhyddhad i blant ac oedolion sy'n wynebu llawer o anawsterau, fel diffyg hyder, nerfusrwydd, awtistiaeth, problemau ag aelodau o'r corff ac ati. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae ysgolion dawns yn ffitio yn y cynlluniau adfer mewn ymateb i COVID-19, creu pecyn o gymorth ariannol sydd wedi'i deilwra i'r sector dawns ac egluro sut y bydd cymorth yn cael ei roi. Mae angen i Mr Drakeford gyflwyno ei gynlluniau o ran ailddechrau'r sector dawns dan do.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae llawer o athrawon yn gweithio drwy gyrff llywodraethu fel Bbo Dance, RAD, ISTD ac ati. Caiff llawer o'r rhain eu cydnabod gan Ofqual a Chymwysterau Cymru. Mae'n rhwydd cadw pellter cymdeithasol mewn dosbarth dawns ac mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ym mhob genre wedi hen arfer â chael eu gosod mewn safleoedd penodol gan eu hathrawon. Nid yw pob genre yn galw am waith gyda phartner, ac mae nifer o ffyrdd creadigol o ymateb i'r gofyniad hwn ta beth. Mae dawns yn dod â buddion gwych o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl, heb sôn am fod yn weithgaredd sy'n destun angerdd i'r athrawon a'r myfyrwyr. Hefyd, mae dawns yn rhan bwysig o ddiwydiant y celfyddydau, ac mae ei rhinweddau o ran busnes, iechyd a hamdden yn cael eu hanwybyddu ar hyn o bryd.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Casnewydd
- Dwyrain De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1004  
Ein cyf/Our ref DET/01914/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders MS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

13 Awst 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch yn fawr am eich gohebiaeth yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau yng Nghymru. Mae'r ddeiseb hon yn casglu llofnodion ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn deall rhwystredigaeth y gymuned o ysgolion dawns yn sgil y ffaith nad oedd yn bosibl iddynt ailagor ar gyfer ymarferion dan do hyd yn ddiweddar iawn.

Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar 31 Gorffennaf y gallai campfeydd dan do, canolfannau hamdden, pyllau nofio a chyfleusterau hamdden a gweithgarwch corfforol dan do eraill gan gynnwys ysgolion dawns yng Nghymru ailagor o 10 Awst, **ar yr amod** eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol yng Nghymru diogelwch. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys: sicrhau y gall holl ddefnyddwyr cyfleuster gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd gydol yr amser, ni all grwpiau o dros 30 ymgynnull ar yr un pryd a bydd gofyn i'r holl staff fod wedi'u hyfforddi'n drylwyr ac yn llwyr ymwybodol o'r gofynion o ran COVID-19. Bydd gofyn i'r cyfleusterau hyn hefyd gael eu glanhau yn rheolaidd ac yn drwyadl. Bydd **canllawiau** ar gael ar gyfer y busnesau a'r cyfleusterau hyn, ac mae'r awdurdodau perthnasol wedi bod yn rhan o drafodaethau gydol y broses hon.

Mae UKActive wedi datblygu fframwaith ar gyfer ailagor y sector ffitrwydd a hamdden yn ddiogel a gallwch ei weld yma <https://www.ukactive.com/news/ukactive-unveils-recommended-framework-for-reopening-the-fitness-and-leisure-sector-safely/> Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn darparu canllawiau yma <https://www.sport.wales/media-centre/latest-news/implementing-covid-19-safety-measures-in-indoor-facilities/> mae ffilm fer yn ogystal sy'n esbonio sut y gall mesurau diogelwch gael eu gweithredu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd y penderfyniad i gadw cyfleusterau hamdden dan do ar gau hyd 10 Awst yn seiliedig ar gyngor gwyddonol er mwyn diogelu Cymru. Mae gwyddoniaeth wedi profi y gall y feirws oroesi ar arwynebau dan do am lawer yn hirach nag ar arwynebau yn yr awyr agored. Mae'r dystiolaeth hyd yma wedi dangos bod y perygl o ran haint yn uwch dan do, mewn amgylcheddau oerach, swnllyd a chlos, a lle y mae ymarfer corff a synau uchel yn arwain at anadlu dyfnach a sgwrsio uwch.

O safbwyt cyllid, roedd Llywodraeth Cymru yn falch o glywed cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 5 Gorffennaf yngylch cymorth ychwanegol i sector diwylliant y DU. Efallai eich bod yn ymwybodol o [gyhoeddiad](#) Llywodraeth Cymru yngylch cronfa gwerth £53 miliwn sy'n anelu at helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ymdopi ag effeithiau pandemig y coronafeirws. Mae cyfanswm y pecyn cyllid yn 2020-21 werth £53 miliwn ac mae'n cynnwys £50 miliwn o gyllid refeniw a £3 miliwn o gyllid cyfalaf.

Nod y gronfa yw cynnig cymorth hanfodol i theatrau, orielau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, gwasanaethau archifau, digwyddiadau a gwyliau, a hefyd sinemâu annibynnol sydd oll wedi colli llawer iawn o refeniw yn sgil y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi sefydliadau a hefyd unigolion o fewn y sector.

Mae'r cyllid hwn sydd wedi'i gyhoeddi yn ychwanegol at y pecyn gwerth £18 miliwn ar gyfer y portffolio a ddarparwyd ym mis Ebrill gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru.

Rydym wedi gwrando ar ein partneriaid ar draws y sectorau diwylliannol a chreadigol ac wedi cydweithio â nhw wrth greu'r ail becyn hwn o gymorth.

Caiff y gronfa ei darparu ar y cyd â Cyngor Celfyddydau Cymru ac mae lle canolog i "contract diwylliannol" a fydd yn helpu'r sector i atgyfnherthu yn dilyn y pandemig. Bydd y pecyn hwn yn cynorthwyo llawer o fewn y sectorau i ymateb i'r pwysau a'r heriau y mae'r coronafeirws wedi'u creu. Mae hefyd yn creu cyfle unigryw i gyflawni newid sylweddol - byddwn yn datblygu contract diwylliannol fel y gall y sector ddatblygu'n gryfach. Byddai hyn yn sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwymo i ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus at ddiben cymdeithasol cadarnhaol a phenodedig.

Caiff rhagor o fanylion, gan gynnwys canllawiau ar gyfer ymgeiswyr, eu cyhoeddi yn ddiweddarach ym mis Awst. Bydd gofyn i sefydliadau unigol ystyried a fyddant yn gymwys i gyflwyno cais am gymorth.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

**P-05-1004 Allow Dance Schools in Wales to re-open their indoor classes with immediate effect, Correspondence – Petitioner to Committee, 09.09.20**

Please note this issue has now been resolved due to the reopening of dance schools however we have still not heard if we are able to sing in the school which has a whole theatre as its base and social distancing is not an issue.

Kind regards Michelle Meano.

## P-05-1019 Dyfarnwch raddau a ragwelwyd gan athrawon i holl fyfyrwyr Cymru ar gyfer arholiadau 2020

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Christine Wineyard, ar ôl casglu cyfanswm o 28,505 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae nifer sylweddol o fyfyrwyr Cymru wedi bod dan anfantais annheg oherwydd yr algoritm mathemategol a gymhwyswyd iddynt ar gyfer canlyniadau arholiadau 2020. Bydd hyn yn rhoi pobl ifanc Cymru dan anfantais ar gyfer eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol, sy'n annheg. Mae myfyrwyr yn yr Alban yn cael graddau a ragwelwyd gan athrawon, felly byddant yn fwy tebygol o sicrhau lle yn eu dewis cyntaf o brifysgol yn 2020. Ni fydd hyn yn wir i fyfyrwyr Cymru. Nid yw'r broses yn trin myfyrwyr Cymru fel unigolion.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Alun a Glannau Dyfrdwy
- Gogledd Cymru

**P-05-1019 Dyfarnwch raddau a ragwelwyd gan athrawon i holl fyfyrwyr Cymru ar gyfer arholiadau 2020, Datganiad i'r wasg gan Llywodrath Cymru, Datganiad gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, 17.08.20**

Heddiw (dydd Llun 17 Awst) cadarnhaodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y bydd graddau Safon Uwch, Safon UG, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau.

Dyweddodd y Gweinidog:

Drwy weithio ar y cyd â Chymwysterau Cymru a CBAC, rydyn ni wedi ceisio sicrhau dull gweithredu sy'n deg ac sy'n cydbwysedd o ran mewn perthynas â barn athrawon mewn ysgolion.

O ystyried y penderfyniadau mewn mannau eraill, bellach mae'r cydbwysedd o ran tegwch yn seiliedig ar ddyfarnu graddau asesu canolfannau i fyfyrwyr, er gwaethaf cryfderau'r system yng Nghymru.

Rwy'n gwneud y penderfyniad hwn nawr cyn i'r canlyniadau gael eu rhyddhau'r wythnos yma, fel bod amser i'r gwaith angenrheidiol gael ei wneud.

O ran y graddau a gafodd eu cyhoeddi'r wythnos diwethaf, rwy wedi penderfynu y bydd yr holl ddyfarniadau yng Nghymru, ar gyfer blwyddyn eithriadol 2020, hefyd yn cael eu gwneud ar sail asesiad athrawon.

I'r bobl ifanc hynny y mae ein system wedi cynhyrchu graddau uwch na'r rhai a ragwelwyd iddynt gan athrawon, bydd y graddau uwch yn sefyll.

Nid yw cynnal safonau'n rhywbeth newydd ar gyfer 2020, mae'n rhan o'r ffordd yr yd yn ni'n dyfarnu cymwysterau bob blwyddyn yng Nghymru, a ledled y DU.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen inni wneud y penderfyniad anodd hwn er mwyn inni gael ffydd yn ein cymwysterau a bod yn deg i fyfyrwyr.

Mae'r rhain yn amgylchiadau eithriadol, a maes o law byddaf yn gwneud datganiad pellach ar adolygiad annibynnol o'r digwyddiadau yn dilyn canslo'r arholiadau eleni.

Mae Sefydliadau Dyfarnu eraill ledled y DU yn ymwneud â phenderfynu ar y dull gweithredu ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol. A dyna'r sefyllfa o hyd, ond mae'n bwysig fy mod i'n rhoi sicrwydd i fyfyrwyr TGAU, Safon Uwch, Safon UG cyn gynted ag y bo modd.

**P-05-1019 Award teacher predicted grades to all Welsh students for examination 2020, Correspondence – Petitioner to Committee, 17.08.20**

My response to the committee is that I am grateful that there was a process for a petition to be raised. As you can see from the number of signatures over a short period of time, it was an urgent matter that required immediate action and the petition process allowed this. I had reached out directly to my MP and to the Minister for Education but got no response or at least, no support and the petition allowed the people of Wales to have their voice heard. I feel Welsh Government, although too slow to act, have now thrown their support behind the young people of Wales, who have already had a dreadful year of missed experiences and opportunities due to COVID. My only wish is that they'd made this decision before A Level grades were released as many, including my daughter, have missed out on their University place and other options, whilst the situation went unresolved.

Please pass on my thanks to the Chair of the Petitions Committee and other members, who sought to highlight the issue within the petition and looked to expedite the process.

I am now going to sit with my daughter and work out what she will do over the next 12 months and hope Welsh Government realise there is NOTHING more important in Wales than our young people and their future.

Many thanks

Christine Wineyard

P-05-974 Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan David Bradley, ar ôl casglu cyfanswm o 557 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar y Senedd i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gael i alluogi pobl o Gymru sydd wedi colli rhan o'u corff i gael technoleg brosthetig sydd o leiaf cystal â'r hyn sydd ar gael yng ngwasanaethau iechyd gwladol Lloegr a'r Alban. Gofynnwn am i'r un lefel o gefnogaeth fod ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae GIG yr Alban wedi darparu aelodau prosthetig a reolir gan fibrobrosesydd ers sawl blwyddyn, ac mae GIG Lloegr wedi eu darparu er 2016. Mae polisi Cymru i fod i gael ei adolygu er 2017.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Hanes y Deisebydd

Fel person ffit yn tynnu am fy 60 oed, un prynhawn Gwener ym mis Mawrth 2018, pan oeddwn yn y gwaith, fe gefais i anewrysm yn fy nghoes dde. Dros yr wyth diwrnod nesaf, cefais dair llawdriniaeth fawr wrth i dîm proffesiynol iawn geisio achub fy nghoes, ei hachub o dan y pen-glin, ac yna ei hachub uwchben y pen-glin. Llwyddodd y llawdriniaeth ddiwethaf a thorrwyd fy nghoes i ffwrdd ychydig uwchben y pen-glin.

Cefais fy nghyflwyno i'r Ganolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn Ysbyty Rookwood, ac yno y cychwynnodd fy nhaith yn ôl i'r gwaith. Fe wnaethant ddylunio a gosod aelod prosthetig, a thrwy ffisiotherapi rheolaidd, roeddwn yn cerdded, ac yn ôl yn y gwaith erbyn diwedd yr haf. Diolch yn fawr, gwasanaeth gwych.

Am sawl blwyddyn mae anghysondeb sylweddol wedi bod o ran y math o brostheteg sydd ar gael i bobl anabl Cymru.

Can y bydd yn rhaid i mi dreulio gweddill fy oes yn defnyddio coes brosthetig, hoffwn gael yr un cyfle â thrigolion gweddill y DU, a hoffwn i bob person arall yng Nghymru sydd wedi colli aelod o'u corff gael y cyfle hwnnw hefyd.

Peidiwch â gwahaniaethu. Rhowch yr un safon i drigolion anabl Cymru.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru

# Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/12961-3

Rhif y ddeiseb: P-05-974

**Teitl y ddeiseb:** Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU

**Testun y ddeiseb:** Rydym yn galw ar y Senedd i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gael i alluogi pobl o Gymru sydd wedi colli rhan o'u corff i gael technoleg brosthetig sydd o leiaf cystal â'r hyn sydd ar gael yng ngwasanaethau iechyd gwladol Lloegr a'r Alban.

Gofynnwn am i'r un lefel o gefnogaeth fod ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae GIG yr Alban wedi darparu aelodau prosthetig a reolir gan ficrobrosesydd ers sawl blwyddyn, ac mae GIG Lloegr wedi eu darparu er 2016. Mae polisi Cymru i fod i gael ei adolygu er 2017.

Hanes y deisebydd:

Fel person ffit yn tynnu am fy 60 oed, un prynhawn Gwener ym mis Mawrth 2018, pan oeddwn yn y gwaith, fe gefais i anewrysm yn fy nghoes dde. Dros yr wyth diwrnod nesaf, cefais dair llawdriniaeth fawr wrth i dîm proffesiynol iawn geisio achub fy nghoes, ei hachub o dan y pen-glin, ac yna ei hachub uwchben y pen-glin. Llwyddodd y llawdriniaeth ddiwethaf a thorrwyd fy nghoes i ffwrdd ychydig uwchben y pen-glin. Cefais fy nghyflwyno i'r Ganolfan Aelodau Artifisial a Chyfarpar yn Ysbyty Rookwood, ac yno y cychwynnodd fy nhaith yn ôl i'r gwaith. Fe wnaethant ddylunio a gosod aelod prosthetig, a thrwy ffisiotherapi rheolaidd, roeddwn yn cerdded, ac yn ôl yn y gwaith erbyn diwedd yr haf. Diolch yn fawr, gwasanaeth gwych.

Am sawl blwyddyn mae anghysondeb sylweddol wedi bod o ran y math o brostheteg sydd ar gael i bobl anabl Cymru.

Gan y bydd yn rhaid i mi dreulio gweddill fy oes yn defnyddio coes brosthetig, hoffwn gael yr



un cyfle â thrigolion gweddill y DU, a hoffwn i bob person arall yng Nghymru sydd wedi colli aelod o'u corff gael y cyfle hwnnw hefyd.

Peidiwch â gwahaniaethu. Rhowch yr un safon i drigolion anabl Cymru.

## 1. Cymru

Yng Nghymru, mae tair canolfan aelodau artiffisial a chyfarpar arbenigol sy'n **darparu gwasanaethau adsefydlu mewnol gan y GIG i'r rhai sydd wedi colli aelod**, neu sydd wedi cael aelod prosthetic, ac mae'r canolfannau hyn yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu'n ganolog gan Bwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru ar ran y saith Bwrdd lechyd Lleol yng Nghymru.

Cyhoeddodd Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru y polisi **manyleb gwasanaeth gwasanaethau arbenigol: CP89 Prosthetic and Amputee Rehabilitation Services**, ym mis Rhagfyr 2014.

Mae'r ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor ar 13 Gorffennaf 2020 yn nodi bod prostheteg uwch, gan gynnwys prostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd, yn cael eu hariannu ar gyfer **cyn-filwyr** sy'n preswylio yng Nghymru ac sydd ag anafiadau y gellir eu priodoli i'w gwasanaeth fel milwyr, yn unol â'r **polisi gwasanaethau arbenigol: CP49 War Veterans – Enhanced Prosthetic Provision**.

Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi bod y Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol yn cynnal proses flynyddol i bennu darpariaeth gwasanaethau prostheteg arbenigol yn seiliedig ar dystiolaeth o fudd, wedi'i hasesu'n unol â mein i prawf penodol. Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol a ddylid darparu prostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd ar gyfer sifiliaid fel rhan o'i adolygiad blynnyddol unwaith eto eleni [2020]. Ar hyn o bryd, ni ddarperir prostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd fel mater o drefn ar gyfer sifiliaid. Fodd bynnag, dywed y Gweinidog fod swyddogion yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd â'r Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol i sicrhau bod dystiolaeth ar gael i lywio eu penderfyniadau comisiynu.

Os na ellir rheoli anghenion cleifion gan ddefnyddio'r ystod o gyfarpar y cytunwyd arni, a bod y tîm clinigol prosthetic a phobl sydd wedi colli aelod yn credu bod rhesymau eithriadol dros ddarparu cyfarpar y tu allan i'r ystod hon, yna mae modd gwneud Cais Cyllido Cleifion Unigol i'r Pwyllgor

Gwasanaethau lechyd Arbenigol o dan y Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Gwneud Penderfyniadau ar Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol. Mae canllawiau ar y broses Cais Cyllido Cleifion Unigol ar gael ar **wefan Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru.**

## 2. Lloegr

Yn Lloegr, mae **gwasanaethau arbenigol** yn cael eu cynllunio'n genedlaethol ac yn rhanbarthol gan GIG Lloegr sydd wedi cyhoeddi **manyleb gwasanaeth ar gyfarpar anableddau cymhleth – Prosthetic Specialised Services For People Of All Ages With Limb Loss.**

**Polisiau comisiynu** sy'n diffinio pwy a gaiff fynediad i wasanaethau ar gyfer grwpiau penodol o gleifion. Cyhoeddodd GIG Lloegr y **polisi comisiynu clinigol ar gyfer pengliniau prosthetig a reolir gan fibrobrosesydd**. ym mis Rhagfyr 2016. Yn ôl y polisi:

NHS Provision of MPKs was previously available through Individual Funding Requests (IFRs) resulting in significant variations in prescription and use at the national level in the absence of an agreed prescribing policy. This policy aims to create an equitable, evidence-based approach to the prescribing of MPKs and improve the quality of limb loss rehabilitation and outcomes at a national level.

Mae'r polisi hefyd yn nodi bod GIG Lloegr wedi adolygu'r dystiolaeth a dod i'r casgliad bod digon o dystiolaeth i ystyried cefnogi **comisiynu** aelodau a reolir gan fibrobrosesydd **fel mater o drefn**. Mae'r meini prawf ar gyfer comisiynu i'w gweld ar dudalennau 18 i 21 o'r polisi.

**Nid** yw'r polisiau a ganlyn yn cael eu comisiynu fel mater o drefn gan GIG Lloegr:

- **Clinical Commissioning Policy: High definition silicone covers for prosthetic limbs, high definition feet and partial hand prosthesis**
- **Clinical Commissioning Policy: Multi-grip Upper Limb Prosthetics**

## 3. Yr Alban

Yn GIG yr Alban, mae'r **Gwasanaeth Prostheteg Arbenigol** yn gyfrifol am asesu, rhagnodi a darparu prostheses o'r radd flaenaf.

Mae prostheteg arbenigol yn cwmpasu ystod eang o brostheses o'r radd flaenaf, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhai a ganlyn:

- pengliniau a reolir gan ficrobrosesydd
- aelodau cymalog ar gyfer rhan uchaf y corff a reolir gan ficrobrosesydd
- cymalau traed a phigyrnau arbenigol
- aelodau chwaraeon

Mae'r gwasanaeth ar gael i ddefnyddwyr aelodau prosthetig cymwys sy'n preswylio yn yr Alban.

Mae'n cwmpasu'r rhai yn y categoriâu a ganlyn:

- cyn-filwyr y lluoedd arfog (sydd wedi gadael yn ddiweddar) sydd wedi cael prosthesis o'r radd flaenaf wedi'i osod gan Ganolfan Adsefydlu Meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- aelodau o'r lluoedd arfog sydd wedi colli aelodau o ganlyniad i anafaiadau y gellir eu priodoli i'w gwasanaeth a atgyfeiriwyd ar gyfer asesiad. Ar hyn o bryd, byddant hefyd yn mynchu canolfan prostheteg yn yr Alban (Cyfamod y Lluoedd Arfog);
- unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth prostheteg arall sy'n byw yn yr Alban ar hyn o bryd ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/03889/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

13 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 8 Mehefin ynghylch y Ddeiseb P-05-974 - Sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetic a ddarperir yn y GIG yng Nghymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU.

Yng Nghymru, darperir gwasanaethau'r GIG ym maes adsefydlu pobl ag aelod prosthetic a'r rhai sydd wedi colli aelod yn fewnol gan dair Canolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALACs) arbenigol yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu'n ganolog gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ar ran y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Mae gan WHSSC bolisi manyleb gwasanaeth ar gyfer adsefydlu pobl ag aelod prosthetic a'r rhai sydd wedi colli aelod CP 89 (gweler y ddolen isod).

<http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/CP89%20Prosthetic%20and%20Amputee%20Rehab%20Services%20Service%20Spec.pdf>

Mae prostheteg uwch, gan gynnwys prostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd, yn cael eu hariannu ar gyfer cyn-filwyr sy'n preswylio yng Nghymru ac sydd ag anafiadau y gellir eu priodoli i'w gwasanaeth fel milwyr yn unol â'r Polisi Gwasanaethau Arbenigol War Veterans – Enhanced Prosthetic Provision (gweler y ddolen isod).

<http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/CP49%20War%20Veteran%20Policy%20v1.0.pdf>

Mae WHSSC yn cynnal proses flynyddol i bennu'r ddarpariaeth o wasanaethau prostheteg arbenigol yn seiliedig ar dystiolaeth o fudd, wedi'i hasesu yn erbyn mein prawf penodol. Ystyriodd WHSSC unwaith eto'r ddarpariaeth o brostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd ar gyfer sifiliaid fel rhan o'u hadolygiad blynnyddol eleni. Ar hyn o bryd, ni ddarperir prostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd fel mater o drefn ar gyfer sifiliaid.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 105

Er hynny, mae swyddogion yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd â WHSSC i sicrhau bod tystiolaeth ar gael i lywio eu penderfyniadau comisiynu.

Os na ellir rheoli anghenion unigolyn o fewn yr ystod gytunedig o gyfarpar, a bod y tîm clinigol prosthetig a phobl sydd wedi colli aelod yn credu bod rhesymau eithriadol dros ddarparu cyfarpar y tu allan i'r ystod hon, hoffwn atgoffa'r pwylgor bod modd cyflwyno Cais Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) i WHSSC. Mae'r cais hwn yn cael ei wneud gan glinigwyr ar ran eu claf o dan 'Bolisi Cymru gyfan ar gyfer Gwneud Penderfyniadau ar Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)'.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**P-05-974 Ensure the technology of prosthetic limbs provided within the Welsh NHS is equal to the rest of the UK, Correspondence – Petitioner to Committee, 06.09.20**

Additional comments for consideration: -

- The English Clinical Commissioning Policy: Microprocessor Controlled Prosthetic Knees ref NHS England:16061/P – December 2016 indicates that: -  
'There are unfortunately no published studies that analyse long term cost effectiveness within the health economy specifics of the UK. However, studies from other European countries such as Italy and the Netherlands reported a **long-term reduction** in medical and care costs.'

One concludes, therefore, that a policy change may in addition to providing improved mobility and wellbeing for Welsh disabled residents will even be cost saving on the Welsh NHS in the medium to long term.

- In Scotland the Specialist Prosthetics Service has, for several years, covered the provision of a wide range of devices including, but not limited to:
  - microprocessor controlled knees
  - microprocessor controlled multi-articulating upper limbs
  - specialist foot and ankle joints
  - sporting limbs
- Northern Ireland also has provision in place

The conclusion is that the provision in Wales has now lagged behind the rest of the UK for nearly a decade. Outside of Wales, disabled residents are enjoying the life-enhancing benefits and their health services the potential cost benefits from changing the policies.

- In a second response dated – 4 June 2020 - received from Vaughan Gething – Minister for Health and Social Services – reference was again made to the Welsh Policy 'Specialised Services Service Specification: CP89 Prosthetic and Amputee Rehabilitation Service.' This is the current reference and guidance document for ALAC - Artificial Limb and Appliance Centres - services in Wales. It was due for formal committee review by 1 December 2017, it is outstanding.

It is not unreasonable for Welsh residents to expect their elected members to formally review policy documents within a reasonable timescale. Formal review should therefore have already taken place. At

minimum, as a result of this petition, a thorough and formal review should be requested.

Also in the response - 4 June 2020 - reference is made to the ability for clinicians to use the IPFR - 'Individual Patient Funding Requests Process in Wales':- 'If an individual's needs cannot be managed within the agreed range of equipment, and the prosthetic and amputee clinical team believe there are exceptional grounds for providing equipment outside of range, then an Individual Patient Funding Request (IPFR) can be submitted to WHSSC. This request is done by clinicians on behalf of their patient under the 'All Wales Policy for Making Decisions on Individual Patient Funding Requests (IPFR)'.

IPFR should not be used as a reason why a policy review should not be undertaken.

- Published IPFR data does not itemise the number of applications for microprocessor prosthetics, however this number will be available. It will provide an indication/guide to the level of additional funding required for ALAC – Artificial Limb and Appliance Centres – in the event of policy is changed.

This data should be available for the last 5 Years – since March 2015 – and therefore a trend will be available and budget planning possible.

- Modern state of the art sports prosthetics for young people under the age of 25 has recently been approved providing needed equipment and equality with the rest of the UK. These are required and important, I challenge anyone to justify why modern state of the art prosthetics for adults for daily living differ in justification. A policy change has been made even though these would also have been potentially available via IPFR.
- The petition is only requesting equalisation with the other nations of the UK and to bring the provision in Wales to an equal standard, a discrepancy that has been in existence for nearly a decade. Wales elected its own assembly to have control and be better than the other nations let us at least be equal and end discrimination.

- If anyone moves to Wales already fitted with a microprocessor prosthesis Wales NHS will support, repair and replace if required. Sad, but I have considered moving across the border to be eligible.

Thank you for taking the time to consider this petition which is targeted to making the lives of some disabled residents in Wales more productive for the benefit of themselves and for the benefit of Wales. The response to my petition in less than two months has surpassed my expectations and I believe demonstrates the validity of the cause.

Being disabled enables one to fully understand what the inequality means. It is difficult to express.

A personal plea on behalf of Welsh amputees to correct an inequality, equal provision and potentially save Wales some money.

David Bradley

#### **Comments following receipt of the reply from Vaughan Gething AS/MS**

It is noted that there is no direction or comment as to why the formal policy review for both military provision – outstanding since October 2016 – public provision – outstanding since Dec 2017 – has not been undertaken. Is it not reasonable to expect formal policy reviews to be conducted within the timescales documented? Situations change, costs and benefits change.

The letter does state that annual reviews are conducted although I have not had access to the review documents from the last several years. It indicates that 'WHSSC again considered the provision of microprocessor knee prostheses for civilians as part of their annual review this year' but there is no further comment other than stating they 'are not routinely provided for civilians'. There is no reasoning given. If they are beneficial to veterans would they not be beneficial to the civilian population of Wales?

My comment remains the same: -

'A personal plea on behalf of Welsh amputees to correct an inequality, equal provision and potentially save Wales some money.'

David Bradley

06/09/2020

## Eitem 6.2

P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elfed Wyn Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 7,927 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae Hanes Cymru'n bwysig i bob un disgybl, gan ei fod o'n rhoi cefndir am hanes ein Cenedl a'n treftadaeth i bawb sy'n mynd drwy'r system addysg.

Mae yna agweddu o Hanes Cymru, megis Cyfreithiau Hywel Dda, Gwrthryfel Glyndŵr a Boddi Capel Celyn yn perthyn i bob cymuned yng Nghymru. Mae'n bryderus felly fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymwrthod ag argymhelliad y pwylgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu i greu corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes – Mae'n bwysig creu cwricwlwm Hanes Cymru lle mae disgyblion yn dysgu am ddigwyddiadau a materion sy'n genedlaethol, yn ogystal â dysgu am Hanes eu cymunedau a'u hardaloedd nhw.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Addysgu hanes Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13468

Rhif y ddeiseb: P-05-992

**Teitl y ddeiseb:** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu

**Geiriad y ddeiseb:** Mae hanes Cymru'n bwysig i bob un disgybl, gan ei fod o'n rhoi cefndir am hanes ein cenedl a'n treftadaeth i bawb sy'n mynd drwy'r system addysg. Mae yna agweddu o hanes Cymru, megis Cyfreithiau Hywel Dda, Gwrthryfel Glyndŵr a Boddi Capel Celyn yn perthyn i bob cymuned yng Nghymru. Mae'n bryderus felly fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymwrthod ag argymhelliaid y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i greu corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes. Mae'n bwysig creu cwricwlwm hanes Cymru lle mae ddisgyblion yn dysgu am ddigwyddiadau a materion sy'n genedlaethol, yn ogystal â dysgu am hanes eu cymunedau a'u hardaloedd nhw.



## 1. Cefndir

Mae Cwricwlwm Cenedlaethol presennol Cymru yn cynnwys y pynciau craidd a sylfaen a nodir yn Nedd Addysg 2002. Y pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yw mathemateg, Saesneg, gwyddoniaeth a Chymraeg mewn ysgolion Cymraeg. Mae hanes yn **bwnsylfaen yn y cwricwlwm cenedlaethol**. Mae **Rhaglen Astudio Hanes** (PDF 155KB) (Ionawr 2008) Llywodraeth Cymru yn nodi'r gofynion presennol ar gyfer hanes yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3, mae CBAC wedi cyhoeddi manylebau ar gyfer hanes ar lefel **TGAU a Safon UG/Safon Uwch**. Cyflwynwyd y rhain i'w haddysgu gyntaf yn 2017 a 2015 yn y drefn honno.

Bydd y Cwricwlwm 3-16 oed newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a ariennir yn gyhoeddus o fis Medi 2022 yn raddol. Cyflwynwyd y **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil yn nodi pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i **seilio ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfolol ynddynt. Yr MDPh yw:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol yn yr MDPH fydd Saesneg; Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg.

Caiff hanes ei addysgu ym **MDPh y Dyniaethau**. Mae MDPH y Dyniaethau hefyd yn cynnwys daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Nid yw'r cwricwlwm newydd yn rhagnadol ac nid yw'n cynnwys rhestr o bynciau y mae'n rhaid i bob ysgol eu haddysgu.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer 'Cod yr Hyn sy n Bwysig' i nodi cysyniadau dysgu a phrofiad allweddol ym mhob MDPH (gan gynnwys y Dyniaethau) a bod yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn **nogfennaeth Cwricwlwm i Gymru**. Bwriad hyn yw darparu'r 'dull cenedlaethol' a fydd, **yn ôl y Gweinidog Addysg**, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Cyhoeddwyd y **canllawiau statudol dros dro ar MDPH y Dyniaethau**, ym mis Ionawr 2020.

Ar 22 Ionawr 2020, cyhoeddodd y Deisebydd flog, **Why I've set up a petition calling for the teaching of a common Welsh history in our schools**.

## 2. Camau gweithredu Senedd Cymru

### 2.1. Y Pwyllgor Deisebau

Dyma'r ail ddeiseb y mae Elfed Wyn Jones wedi'i chychwyn ar addysgu hanes. Trafododd y Pwyllgor ei ddeiseb gyntaf, **Newid y Cwricwlwm Cenedlaethol a dysgu hanes Cymru, a hynny o bersbectif Cymreig, yn ein Hysgolion Cynradd, Uwchradd a'r Chweched Dosbarth** yn ystod 2018. Clywodd y Pwyllgor Deisebau dystiolaeth gan Dr Elin Jones, Cadeirydd grŵp gorchwyl a gorffen hanes a hanes Cymru y Cwricwlwm Cymreig, a Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

### 2.2. Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Cynhaliodd y **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu** arolwg cyhoeddus yn ystod haf 2018, gan wahodd aelodau o'r cyhoedd i ddewis o restr o bynciau posibl ar gyfer ymchwiliad. Pleidleisiodd 44 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o blaidd 'Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion'. Yn sgil y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, caeodd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb ym mis Tachwedd 2018.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, **Ymchwiliad i addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru** [PDF 1.2KB] ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2019 a'i drafod yn y

**Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr 2020.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [hymateb](#) [PDF 235KB] ar 8 Ionawr 2020.

Soniodd llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth, gan gynnwys cymdeithasau hanes Cymru, am yr angen i gael digwyddiadau neu themâu penodol y dylai pob dysgwr wybod amdanynt.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r cwricwlwm newydd

gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes. Bydd y digwyddiadau a'r pynciau allweddol hyn yn galluogi pob disgyl i ddeall sut mae ei wlad wedi cael ei dylanwadu gan ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun hanesion Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol.

Gwrthododd y Gweinidog Addysg yr argymhelliad, gan ddweud y canlynol:

Mae canllawiau MDPH y Dynaethau yn amlinellu methodoleg ar gyfer dewis cynnwys, ac mae'n cyfeirio at yr angen parhaus i sôn am ardal leol y dysgwr a stori Cymru, yn ogystal â pherthynas stori Cymru â'r byd yn ehangach, er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth ac amrywiol cymdeithasau'r gorffennol a chymdeithasau'r dyfodol.

Dywedodd y canlynol hefyd:

byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr i gomisiynu adnoddau newydd a fydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau a phynciau allweddol yn hanes Cymru a'r byd. Bydd hyblygrwydd y Cwricwlwm newydd yn ychwanegu at hyn drwy ganiatáu i athrawon ddarparu gwersi mewn ffyrdd mwy creadigol, sy'n fwy priodol i'r dysgwyr sy'n cael eu haddysgu.

## 2.3. Y Cyfarfod Llawn

Yn ystod gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar hanes, bu dadl yn y Cyfarfod Llawn hefyd, [Dysgu Hanes Cymru ar 19 Mehefin 2019](#).

## 3. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

### 3.1. Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Ym mis Hydref 2012, sefydlodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, grŵp gorchwyl a gorffen, dan gadeiryddiaeth Dr Elin Jones, i archwilio a thrafod datblygiad y Cwricwlwm Cymreig yn y dyfodol ac addysgu hanes Cymru. Gwnaeth adroddiad terfynol y grŵp, [Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru: Adroddiad terfynol](#) (PDF 154KB) (Medi 2013) ddeuddeg

argymhelliaid mewn perthynas â'r dimensiwn Cymreig wrth ddatblygu'r cwricwlwm nesaf ac mewn perthynas â'r cwricwlwm hanes yn benodol. Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Huw Lewis y byddai'r Athro Graham Donaldson yn cynnal adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Fel rhan o'i adolygiad, ystyriodd yr Athro Donaldson argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

### 3.2. Adolygiad Estyn

Un o argymhellion adroddiad 2019 y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu hanes, oedd y dylai Estyn gynnal adolygiad thematig o drefniadau addysgu hanes Cymru mewn ysgolion. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod cylch gwaith yr adolygiad hwn ag Estyn.

### 3.3 'Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd

Ar **21 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog** y byddai'r Athro Charlotte Williams OBE, yn cadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd. Yn rhan gyntaf y prosiect, bydd y gweithgor yn adolygu'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau a chynefinoedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws y cwricwlwm cyfan. Bydd yn tynnu sylw at enghreifftiau o arferion da, yn ogystal â nodi meysydd lle y mae angen rhagor o waith. Yn ail ran y prosiect, bydd y gweithgor yn adolygu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, eu cyfraniadau, eu profiadau a'u cynefinoedd ar draws y cwricwlwm. Bydd gwaith y gweithgor yn gysylltiedig iawn ag adolygiad Estyn o hanes Cymru.

Yng nghyd-destun y cwricwlwm, diffinnir Cynefin fel:

Y man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw, serch hynny. Dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfi'r gymuned sy'n trigo yno.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref KW/03726/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Aelod o'r Senedd  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

14 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf am ddeiseb ynglŷn ag addysgu hanes Cymru yn y Cwricwlwm newydd i Gymru a'r pryderon bod Llywodraeth Cymru wedi gwrrthod argymhelliaid y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y dylai'r cwricwlwm newydd gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes.

Fel y nodwyd gennyf yn ystod trafodaeth y Senedd ym mis Ionawr am addysgu Hanes Cymru, 'mae astudio hanes a hanesion Cymru yn bwysig er mwyn cyflawni dibenion y cwricwlwm newydd. I fod yn ddinesydd ymgysylltiedig, gwybodus a moesegol, bydd dysgwyr yn gwneud synnwyr o'u hunaniaeth a'r hanes, y diwylliannau a'r ddaearyddiaeth a helpodd i'w ffurfio'.

Dyna pam, er i'r argymhelliaid gael ei wrthod, y derbynais yr argymhelliaid i Estyn gynnal adolygiad o drefniadau addysgu hanes Cymru, ac mae fy swyddogion wrthi'n trafod cylch gwaith yr adolygiad hwn ag Estyn.

Mae'n hanfodol bod dysgu yn gynhwysol ac yn tynnu ar brofiadau, safbwytiau a threftadaeth ddiwylliannol y Gymru gyfoes. Yn y cwricwlwm newydd, bydd dysgwyr yn archwilio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang pob agwedd ar ddysgu, yn gwneud cysylltiadau ac yn datblygu dealltwriaeth mewn cymdeithas amrywiol.

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfreith i bob ysgol yng Nghymru ddylunio ei chwricwlwm ei hun o fewn dull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb. Bydd pob agwedd ar ddysgu yn y dyfodol yn cynnwys dimensiwn Cymreig, a bydd dysgwyr yn cael cyfreith i ddeall eu hardal leol, eu gwlad a'i chyfraniad i'r byd ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

## Tudalen y pecyn 116

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er nad yw canllawiau'r cwricwlwm newydd yn cynnwys rhestr hir o bynciau unigol i'w hastudio, mae'n amlinellu methodoleg er mwyn helpu athrawon i ddewis cynnwys a sicrhau amlygiad cyson i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar gamau datblygu gwahanol. Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru (Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau) yn nodi:

*'yr angen am ymwybyddiaeth gyson o stori leol y dysgwyr, stori Cymru yn ogystal â stori y byd ehangach, a galluogi dysgwyr ddod i ddeall natur gymhleth, lluosog ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol. Dylai dysgwyr fod wedi eu gwreiddio mewn dealltwriaeth o'r hunaniaethau, tirweddau a'r hanesion sy'n dod at ei gilydd i ffurio eu cynefin. Bydd hyn nid yn unig yn eu galluogi i ddatblygu ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles, ond bydd hefyd yn datblygu dealltwriaeth o hunaniaeth pobl eraill a gwneud cysylltiadau gyda phobl, lleoedd a hanes mewn lleoedd eraill yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn rhan greiddiol o'r Maes, ac yn ffurio rhan o'r egwyddorion allweddol a ddisgrifir isod sy'n ymwneud â dewis y cynnwys.'*

Rhan allweddol o'r cwricwlwm newydd yw'r cysyniad o gydweithio a dysgu traws-ddisgyblaethol, o fewn ac ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, gyda dysgwyr yn meithrin cysylltiadau ar draws eu gwaith dysgu ac yn cyfuno profiadau, gwybodaeth a sgiliau gwahanol. Er y bydd Hanes yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, bydd hanesion Cymru yn ymddangos ym mhob rhan o'r cwricwlwm, er enghraifft yn y Celfyddydau Mynegiannol ac leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn effeithiol a gwireddu ein gweledigaeth a rennir, mae'n hanfodol bod gan ein hysgolion y cymorth, y ddealltwriaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt. Felly, byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr i gomisiynu adnoddau newydd a fydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau a phynciau allweddol yn hanesion Cymru a'r byd. Caiff y gwaith hwn ei lywio hefyd gan ganlyniad adolygiad Estyn o drefniadau addysgu hanes Cymru sydd ar ddod, a fydd yn ystyried hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru ac yn ehangach yn llawn.

Wrth wraidd gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru mae rhoi'r hyblygrwydd i athrawon benderfynu pa destunau, pynciau ac adnoddau sydd fwyaf addas i'w dysgwyr. Felly, byddai rhestr o bynciau i'w hastudio yn anghyson â gweledigaeth y cwricwlwm newydd. Gwrthodais argymhelliaid y Pwyllgor am ganllaw yn nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes am nad yw'r Cwricwlwm i Gymru yn rhagnadol.

Er y gwrthodwyd argymhelliaid y Pwyllgor, cytunaf â'r egwyddor a'r bwriad y tu ôl i'r argymhelliaid. Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn sicrhau y caiff hanes a diwylliant Cymru eu hymgorffori ym mhob maes dysgu a phrofiad. Yn fy marn i, mae hyn yn ddull cadarn a hirdymor o weithredu.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

**P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor, 05.09.20**

Darn dros Hanes Cymru yn y Senedd

Mae Hanes yn bwnc llawer pwysicach na dysgu i bwys o a mesur. Mae'n adrodd hanes ein Cenedl i'n pobl, gan ddangos yr holl bethau sydd wedi digwydd, y da a'r drwg. Mae'n creu darlun o'r hyn ydi Cymdeithas, a sut mae'r tirlun cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd wedi esblygu ers dyddiau'r Celtiaid, trwy gyfnod Llywelyn a Glyndwr, trwy'r Chwyldro Diwydiannol a brwydrau'r 60au, sefydlu'r Senedd yng Nghaerdydd yn 90au'r ganrif diwethaf ac ymlaen at y dydd presennol.

Pa fath o Gymry ydym ni os nad ydym yn gwybod ac adnabod hanes ein gwlaid? Dwi'n credu fod Gerallt Lloyd Owen yn crynhoi hyn mewn un frawddeg berffaith "Estroniaid heb ystyr yw hanes". Sut fedrwn ni ddeall beth yw'r Gymdeithas 'ryda ni'n byw yn ddi, ac i ba gyfeiriad mae hi'n mynd os nad yda ni'n gwybod a deall yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol?

'Rown i yn un oedd ddigon ffodus i baentio murlun Cofiwch Dryweryn ar ol iddo gael ei ddinistrio ..a dyna pryd daeth difrifoldeb y broblem yn amlwg - tra'n cyfarfod a phobl oedd erioed wedi clywed am drychinez Tryweryn. Dinistr y murlun ddaeth a Tryweryn unwaith yn rhagor i sylw'r cyhoedd.

A dyna'r broblem.

Mae diffyg gwybodaeth am Hanes Cymru yn adlais o genedlaethau. Sawl tro yda ni wedi clywed "Yn ysgol 'rown i'n gwybod mwy am Battle of Hastings 1066 nag 'rown i am Llywelyn ein Llyw Olaf, Owain Glyndwr a'r Welsh Not". Mae'r sefyllfa yr un mor ddigalon heddiw. Tydi hynny ddim wedi newid dim. Yr un peth ddigwyddodd i mi, ac a fydd yn digwydd i'm mhlant i ac i'r Genhedlaeth ar ei holau hwythau, - os na fyddwn ni'n gweithredu rwan!

Mae'r Llywodraeth yn cynnig Cwricwlwm newydd ar gyfer ein hysgolion. Ond beth fydd y cwricwlwm newydd yma yn ei olygu yng nghyd-destun dysgu Hanes Cymru os nad oes arweiniad, na chynnwys, na gwerslyfrau cadarn? Mae gen i edmygedd mawr o athrawon yn yr oes hon, ac mae disgwyl y byddent hwy'n gallu llunio gwersi a dysgu am Hanes Cymru heb strategaeth na chynnwys i'w cymorth.

Mi fydd hyn yn creu system loteri amlwg, lle bydd rhai plant yn ddigon ffodus i ddysgu am Hanes Cymru a rhai eraill ...ddim. Mi fydd hyn yn creu gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol ysgolion a hefyd mi fydd y gagendor rhwng disgyblion yr ysgolion Cymraeg a disgyblion yr ysgolion Saesneg yn mynd yn fwy fyth. Mae tystiolaeth yn dangos fod disgyblion sy'n mynchy ysgol Gymraeg gyda mwy o gyfleoedd i gael gwybodaeth am Hanes Cymru na'r rhai sy'n mynchy'r ysgolion Saesneg.

Credaf... fod y fath sefyllfa yn gwbl annerbyniol. Mae pobl hefo'r hawl i wybod a deall hanes eu gwlad eu hunain. Toes dim synnwyr cuddio Hanes Cymru oddiwrth ei phobl. Mae angen i ni fod yn agored fel gwlad a dod i delerau gyda'n gorffennol. Ond..fedrwn ni ddim gwneud hynny heb wybod y ffeithiau yn gyntaf.

Dwi'n gofyn i chi rwan i ystyried yr hyn dwi wedi ei ddweud. Mi fyddai'n fwy na pharod i protestio, ac rwy'n barod i ymprydio i'r eithaf ar risiau'r Senedd ei hun i sicrhau fod pobl y Genedl Gymraeg yn derbyn y gwybodaeth a'r addysg priodol am eu Hanes. Trwy hynny, byddwn wedyn yn datblygu dealltwriaeth o sut mae Cymru wedi cyrraedd y sefyllfa mae hi ynnddi rwan. Trwy ddeall Hanes ein hunain, y down i ddeall sut i symud ymlaen fel unigolion ac fel Cenedl.

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

## Eitem 6.3

P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Owen, ar ôl casglu cyfanswm o XX lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae Prydain – gan gynnwys Cymru – wedi elwa o wladychiaeth a chaethwsiaeth am ganrifoedd. Mae angen i hyn gael ei gynrychioli yn y cwricwlwm.

Yn aml iawn, mae'r Ymerodraeth Brydeinig yn cael ei mawrygu, ac effaith fydd-eang gwladychiaeth Prydain yn cael ei thanbrisio. Adlewyrchwyd hyn yn y cynnwys a addysgir.

Mae angen newid gwirioneddol a sylweddol. Mae gwaddol caethwsiaeth a gwladychiaeth yn cael effaith wirioneddol ar gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Prydain heddiw, ac mae angen i system addysg Cymru gydnabod hyn.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Clwyd
- Gogledd Cymru

# Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13471

Rhif y ddeiseb: P-05-1000

**Teitl y ddeiseb:** Dylid ei gwneud yn orfodol i hanesion Pobl Ddu a Phobl Groenliw yn y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru

**Testun y ddeiseb:** Mae Prydain - gan gynnwys Cymru - wedi elwa o wladychiaeth a chaethwasiaeth am ganrifoedd. Mae angen i hyn gael ei gynrychioli yn y cwricwlwm. Yn aml iawn, mae'r Ymerodraeth Brydeinig yn cael ei mawrygu, ac effaith fydd-eang gwladychiaeth Prydain yn cael ei thanbrisio. Adlewyrchwyd hyn yn y cynnwys a addysgir. Mae angen newid gwirioneddol a sylweddol. Mae gwaddol caethwasiaeth a gwladychiaeth yn cael effaith wirioneddol ar gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Prydain heddiw, ac mae angen i system addysg Cymru gydnabod hyn..

## 1. Cefndir

Mae lladd George Floyd, gŵr Africanaidd-Americanaid a fu farw wrth gael ei gadw gan yr heddlu ym Minneapolis, wedi ysgogi protestiadau torfol yn UDA a'r DU ac yn galw am addysgu hanes pobl ddu a phobl groenliw yn well.

Bydd y Cwricwlwm 3-16 oed newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol ym mhob ysgol a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a ariennir yn gyhoeddus o fis Medi 2022. Cafodd y Bil



**Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** ei gyflwyno i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil yn nodi pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyyddion egwyddorol a gwylod i Gymru ar byd;
- Galluogi disyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i **seilio ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfodol ynddynt. Dyma'r Meisydd Dysgu a Phrofiad:

- Y celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Y dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol yn yr MDPh fydd Saesneg; Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg.

Caiff hanes ei addysgu ym **MDPh y Dyniaethau**. Mae MDPh y Dyniaethau hefyd yn cynnwys daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Nid yw'r cwricwlwm newydd yn rhagnadol ac nid yw'n cynnwys rhestr o bynciau y mae'n rhaid i bob ysgol eu haddysgu.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer 'Cod yr Hyn sy n Bwysig' i nodi cysyniadau dysgu a phrofiad allweddol ym mhob MDPh (gan gynnwys y Dyniaethau) a bod yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un

o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn **nogfennaeth Cwricwlwm i Gymru**. Bwriad hyn yw darparu'r 'dull cenedlaethol' a fydd, **yn ôl y Gweinidog Addysg**, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Cyhoeddwyd y **canllawiau statudol dros dro ar MDPh y Dyniaethau**, ym mis Ionawr 2020.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn y galwadau am fwy o amrywiaeth wrth ddysgu hanes:

- Ar 21 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'r Athro Charlotte Williams OBE, yn cadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl BAME a'r cwricwlwm newyddBydd y grŵp yn adolygu'r adnoddau presennol sydd ar gael i athrawon ynghyd ag arferion da, a dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â chymunedau BAME. Dylai'r Grŵp ddarparu argymhellion allweddol erbyn diwedd mis Rhagfyr;
- Mae prosiect wedi'i gychwyn i edrych ar dangynrychiolaeth cymunedau BAME yn y gweithlu addysgu.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cynhaliodd y **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu** arolwg cyhoeddus yn ystod haf 2018, gan wahodd aelodau o'r cyhoedd i ddewis o restr o bynciau posibl ar gyfer ymchwiliad.

Pleidleisiodd 44 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o blaidd 'Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion'. Yn sgil y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, caeodd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb ym mis Tachwedd 2018.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, **Ymchwiliad i addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru** ym mis Tachwedd 2019, a chynhalwyd dadl ar yr adroddiad yn y **Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr 2020**. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hymateb** ar 8 Ionawr 2020.

Fel rhan o'r ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Race Council Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenciad Cymru a'r Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion mewn perthynas ag amrywiaeth mewn hanes:

- Dylai amrywiaeth fod yn elfen graidd o'r Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae perygl na fydd yr hyblygrwydd arfaethedig ar gyfer ysgolion ac athrawon yn sicrhau y bydd yr holl ddisgyblion yng Nghymru yn gwybod hanes ein cymunedau ethnig a chrefyddol amrywiol.
- Er mwyn sicrhau bod hanes yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol, dylai'r adolygiad thematig o addysgu hanes gan Estyn, a argymhellir yn adroddiad y Pwyllgor, asesu sut y caiff amrywiaeth ei addysgu ar hyn o bryd mewn ysgolion.

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ehangu gwaith Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid Cymru a Race Council Cymru i holl fyfyrwyr ac athrawon Cymru. Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac leuenctid Cymru a Race Council Cymru i ymchwilio i ganfyddiadau myfyrwyr o hil a hanes a'u hymdrehion i ehangu'r cwricwlwm.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion hyn.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd:

- Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymdrehion i gynyddu nifer yr athrawon BAME yng Nghymru a pha mor llwyddiannus y mae wedi bod.
- Dylid cynnwys hanesion amrywiaeth hilol a chrefyddol Cymru mewn addysg gychwynnol athrawon a dylid eu hadlewyrchu mewn deunyddiau addysgu ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dynaethau.

Derbyniwyd y ddau argymhelliad mewn egwyddor. Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi cynnwys rhagleni Addysg Gychwynnol i Athrawon. Dywedodd hefyd fod swyddogion yn cydweithio â Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu cynllun gweithredu ynghylch i ba raddau y mae'r gweithlu addysg yng Nghymru yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ynghyd ag ystod a dyfnder yr amrywiaeth yn y gweithlu.

## 4. Deisebau Senedd y DU

Cafwyd nifer o ddeisebau i Senedd y DU ar themâu tebyg:

- Add education on diversity and racism to all school curriculums** (Ymateb y Llywodraeth 30 Gorffennaf 2020);
- Add education on diversity and racism to all school curriculums** (Ymateb y Llywodraeth 30 Gorffennaf 2020);
- Add education on diversity and racism to all school curriculums** (Ymateb y Llywodraeth 30 Gorffennaf 2020).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Datganiad Ysgrifenedig: Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd

**DYDDIAD** 21 Gorffennaf 2020

**GAN** Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg

Rwy'n falch o gyhoeddi heddiw bod yr Athro Charlotte Williams OBE wedi cytuno i gadeirio gweithgor 'Cymunedau, cyfraniadau a chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd'.

Mae'r Athro Williams yn Athro Anrhydeddus yn Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Bangor ac yn gyn-Ddeon Cyswllt ac Athro mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol RMIT Melbourne, Awstralia. Mae'n Gymrawd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Glyndŵr a Phrifysgol De Cymru.

Mae'r Athro Williams yn adnabyddus am ei sylwebaeth ar amlddiwylliannaeth yng Nghymru, ac am ei thestun arloesol, "A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales". Enillodd ei hunangofiant o dyfu i fyny yng Nghymru, "Sugar and Slate" wobr Llyfr y Flwyddyn yng Nghymru yn 2003. Mae wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar drydydd rhifyn '*Social Policy for Social Welfare Practice in Wales*' sydd i'w gyhoeddi yn 2021.

Yn 2007, dyfarnwyd OBE i'r Athro Williams fel rhan o Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines am ei gwasanaethau i lleiafrifoedd ethnig a chyfleoedd cyfartal yng Nghymru.

Yn rhan gyntaf y prosiect, bydd y gweithgor yn adolygu'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau a chynefinoedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws y cwricwlwm cyfan. Bydd yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwaith pellach. Rwy'n disgwyl i'r cam hwn ddod i ben yn ystod tymor yr hydref, i gyfrannu i'r flwyddyn academaidd i ddod.

Yn ail ran y prosiect, bydd y gweithgor yn adolygu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, eu cyfraniadau, eu profiadau a'u cynefinoedd ar draws y cwricwlwm. Rwy'n disgwyl i'r grŵp gyflwyno argymhellion allweddol yn y maes hwn erbyn diwedd Rhagfyr.

Bydd gwaith y gweithgor yn gysylltiedig iawn ag adolygiad Estyn o hanes Cymru.

Ar sail y gwaith hwn, byddwn yn comisiynu adnoddau newydd i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau, cynefinoedd, cyfraniadau a phrofiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Bydd y grŵp yn goruchwyllo'r broses o ddatblygu'r adnoddau hyn cyn i gwricwlwm newydd Cymru gael ei gyflwyno'n raddol yn 2022, ac rwy'n bwriadu ystyried y cynnydd yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

Caiff manylion pellach ynghylch aelodau'r grŵp eu cyhoeddi yn ystod yr haf.

*Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.*



Eich cyf/Your ref P-05-1000  
Ein cyf/Our ref KW/04315/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
[deisebau@senedd.cymru](mailto:deisebau@senedd.cymru)

6 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich gohebiaeth, dyddiedig 27 Gorffennaf, ynghylch Deiseb P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru.

Mae'r digwyddiadau diweddar yn America wedi'n hatgoffa bob un o bwysigrwydd deall a gwerthfawrogi pob elfen o'n hanes, a'r ymdrech a wynebwyd gan gymunedau duon yng Nghymru, y DU ac ar draws y byd.

Mae'n bwysig bod y broses ddysgu yn un gynhwysol, sy'n tynnu ar brofiadau, safbwytiau a threftadaeth ddiwylliannol Cymru heddiw. Mae hanes Cymru yn amrywiol, ac yn cynnwys hanesion amrywiol a chyfoethog y cymunedau, yr hiliau, y crefyddau a'r unigolion lawer yn ein gwlad. Mae hanes pobl dduon yn rhan o hanes Cymru.

Fel y gwyddoch, o 2022 bydd yna [cwricwlwm newydd i Gymru](#). Yn y cwricwlwm newydd, bydd dysgwyr yn ymchwilio i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang pob agwedd ar ddysgu, a byddant yn dysgu sut i wneud y cysylltiadau a datblygu dealltwriaeth o fewn cymdeithas amrywiol. Yn ganolog i weledigaeth Cwricwlwm i Gymru mae caniatáu'r hyblygrwydd i athrawon benderfynu pa bynciau ac adnoddau sy'n gweddu orau i'w dysgwyr.

Yn waelodol i fframwaith Cwricwlwm i Gymru mae pedwar diben sydd wedi bod yn ganolog ym mhob penderfyniad a wnaed ynghylch y cwricwlwm newydd. Mae'r pedwar diben hwn, sydd yn benodol yn cefnogi dysgwyr i dyfu'n "ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd", yn rhan o fframwaith statudol Cwricwlwm i Gymru, ac maent yn creu cyfleoedd pwysig i ysgolion ddatblygu cwricwla sy'n cynnwys hanes pobl dduon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 130  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i bob ysgol yng Nghymru i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Mae'n annog ysgolion i ddatblygu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr o fewn cyd-destun y pedwar diben a'r dysgu a ddiffinnir ar lefel genedlaethol. Er nad yw canllawiau'r cwricwlwm newydd yn cynnwys rhestr hir o bynciau unigol, maent yn nodi'r hyn y dylai ysgolion ei ystyried wrth gynllunio eu cwricwlwm a'r disgwyliadau cyffredinol gan ddysgwyr.

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys elfennau gorfolol, gan gynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Un o'r datganiadau yngylch yr hyn sy'n bwysig i faes Dyniaethau yw "Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl." Bydd dysgwyr yn ystyried y credoau, y gwerhoedd, y traddodiadau a'r foeseg sy'n sail i gymdeithas ddynol, ac yn datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth sydd o fewn gwahanol gymdeithasau.

Mae'r Dyniaethau yn cynnwys cysyniadau fel dinasyddiaeth, awdurdod a llywodraethiant, rhyng-gysylltiad, cyflawnder a chydraddoldeb, menter, hawliau, a chyfrifoldeb a gweithredu cymdeithasol.

Mae hawliau dynol, tegwch ac amrywiaeth yn themâu trawsbynciol a ddylai fod yn rhan annatod o feisydd dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r canllawiau ar [themâu trawsbynciol](#) o fewn y cwricwlwm hefyd yn esbonio sut mae'r cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn darparu safbwytiau allweddol ar gyfer dysgwyr a sut y maent o bwys arbennig o ran cefnogi dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben. Mae cysylltu'r lleol, y cenedlaethol a'r rhyngwladol yn cynnwys cyfleoedd fel ystyried rôl Cymru yn y fasnach gaethwasiaeth a'n cyfraniad i adeiladu'r ymerodraeth. Mae'n golygu bod dysgwyr yn rhoi sylw i safbwytiau gwahanol ar brofiad Cymru.

Mae canllawiau '[Cynllunio Eich Cwricwlwm](#)', a gyhoeddwyd i gefnogi ysgolion wrth weithredu fframwaith Cwricwlwm i Gymru, yn esbonio nad endid unffurf yw Cymru, yn fwy nag unrhyw gymdeithas arall, ond ei bod yn cwmpasu ystod o werthoedd, safbwytiau, diwylliannau a hanesion sy'n cynnwys pawb sy'n byw yng Nghymru. Wrth ystyried gwahanol safbwytiau, a gwahanol ffyrdd o feddwl ar lefel ethnig a diwylliannol yng Nghymru, bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi i ba raddau y maent yn rhan o gymuned ryngwladol ehangach, gan feithrin ymwybyddiaeth o berthyn a all eu hannog i gyfrannu at eu cymunedau mewn ffordd gadarnhaol.


Mae canllawiau Cynllunio Eich Cwricwlwm hefyd yn nodi'n glir y dylai dysgu "ganolbwytio ar brofiadau pobl gyffredin, gan gynnwys rhai sydd wedi arfer cael eu tangynrychioli."

Ar 21 Gorffennaf, roeddwn yn falch o gael cyhoeddi bod yr Athro Charlotte Williams OBE, academydd blaenllaw sydd wedi ysgrifennu am amrywiaeth ethnig yng Nghymru, wedi cytuno i gadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd.

Bydd cysylltiad agos rhwng gwaith y Grŵp ac adolygiad Estyn o hanes Cymru, a chaiff ei gyflawni fesul cam. Bydd y cam cyntaf yn canolbwytio ar adolygu'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i athrawon ac arferion da, a bydd yr ail gam yn canolbwytio ar adolygu dysgu proffesiynol sy'n ymwneud â chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Bydd y dull graddol hwn yn caniatáu inni fwydo i mewn i'r broses addysgu dros y flwyddyn academaidd i ddod, cyn y bydd y Grŵp gobeithio mewn sefyllfa i gyflwyno argymhellion allweddol imi erbyn diwedd Rhagfyr.

Rwyf wedi derbyn cryn ohebiaeth ar y mater hwn, sydd hefyd yn codi'r angen i fynd i'r afael â'r ffaith nad oes cynrychiolaeth ddigonol i gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu addysg, ac rydym yn cymryd camau pwrpasol yn ei gylch. Rydym wedi sefydlu prosiect i edrych yn benodol ar y materion ynghyllch reciwtio i raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon ac i'r gweithlu yn fwy cyffredinol. Rydym wedi comisiynu Cyngor y Gweithlu Addysg i gynnal adolygiad o'r data sydd ar gael i'n helpu wrth ddatblygu polisi. Rydym hefyd yn trafod gyda rhanddeiliaid perthnasol megis y Fforwm Hil a Ffydd a'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenciad. Bydd ein hymwneud â rhanddeiliaid eraill yn cynyddu wrth i'r prosiect ddatblygu. Byddwn yn defnyddio'r data a'r wybodaeth gan randdeiliaid i ddatblygu polisiau i fynd i'r afael yn strategol â'r prinder cynrychiolwyr pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu addysg.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

**P-05-1000 Make it compulsory for Black and POC UK histories to be taught in the Welsh education curriculum, Correspondence – Petitioner to Committee, 03.09.20**

In a 2018 collaborative report by Ethnic Minorities & Youth Support Team Wales, Show Racism the Red Card, Race Council Cymru, and Tros Gynnal Plant on '[Experiences of Racism & 'Race' in Schools in Wales](#)' (I have attached a link to the report here) it was asserted that the Welsh curriculum has consistently been a 'White curriculum' (p.22). Difficult histories and complex subjects can be very daunting for teachers to discuss, especially in a classroom where these conversations may not have been brought up before. It is imperative that a holistic humanities curriculum includes a range of BAME histories and cultural studies, however, histories of slavery, Welsh colonialism and imperialism are immensely important as they are integral for understanding modern racism and discrimination.

**With the new Welsh Curriculum being rolled out in the near future, how will the education department ensure that diverse histories are included by schools when writing their own curriculums?**

The report from 2018 also revealed that teachers felt 'unprepared to confront racist incidents in an effective way' (p.18). After discussions with friends completing the PGCE qualification, they expressed a similar lack of confidence in discussing complicated subjects; including the impact of colonialism and imperialism on modern Britain, distressing or harrowing histories, and current political topics, for fear of "getting it wrong." They were also concerned by the thought of having to mediate discussions surrounding the Black Lives Matter movement and felt ill-prepared to de-escalate emotive debates.

**What support and training will the education department be providing to educators and teachers in how to discuss these complicated topics in classrooms?**

Extra support from official sources could instill greater confidence in educators in how to appropriately conduct meaningful discussions surrounding racism, sexism, colonialism, and imperialism.

**Are the Senedd/Welsh Parliament/Welsh Government intending to allocate funding towards the production of resources and materials for educators to use?**

If so, will this be outsourced to third party companies or will this be something that the working group led by Professor Charlotte Williams will address?

All the best,

Angharad Owen

## Eitem 6.4

P-05-996 Galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â symud, difrodi na dinistrio unrhyw symbolau hanesyddol yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Aled Thomas, ar ôl casglu cyfanswm o 415 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Yn sgil protestiadau diweddar Black Lives Matter, mae Llywodraeth Cymru yn ailasesu priodoldeb cerfluniau, adeiladau cyhoeddus ac enwau strydoedd sydd â chysylltiadau â chaethwasiaeth.

Credwn na ddylai unrhyw awdurdod cyhoeddus symud, difrodi na dinistrio unrhyw un o'r pethau hyn.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

# Cadw pellter cymdeithasol mewn ysgolion cynradd

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13467-1

## Rhif y ddeiseb: P-05-999

**Teitl y ddeiseb:** Sicrhau bod pob ysgol gynradd yn cadw pellter cymdeithasol o 1 metr fan lleiaf ym mis Medi 2020

**Testun y ddeiseb:** Rhaid amddiffyn ein plant, ac amddiffyn ein GIG. Nid yw'n gyfrinach bod ein GIG yn ei chael hi'n anodd ymdopi â phwysau'r gaeaf bob blwyddyn, gan gynnwys y ffliw tymhorol, a bod ysbytai'r DU yn llawn o ganlyniad i'r pwysau hyn. Bob blwyddyn, mae ein sianeli newyddion a'n ffrydiau newyddion yn llawn straeon am y pwysau hyn. Byddai cynnydd sydyn mewn achosion o'r coronafeirws yn rhoi pwysau ychwanegol ar y GIG, gan arwain, o bosibl, at chwalu'r system. Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu anfon ein plant yn ôl i'r ysgol, a hynny heb fesurau cadw pellter cymdeithasol i'w hamddiffyn.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Mae dystiolaeth yn dangos bod angen lefel o normalrwydd ar blant er mwyn atal problemau iechyd meddwl a sicrhau ffyrdd iach o fyw iddynt. Gan gydnabod hyn, a chadw mewn cof y peryglon sy'n wynebu ein plant a'r GIG, rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei chynnig, ac i ystyried cynnig cyfuniad o addysg gartref ffurfiol, drwy ddysgu o bell, a pharhau â'r fodel "swigen", sy'n hwyluso mesurau cadw pellter cymdeithasol. Byddai hyn yn caniatáu i blant ddychwelyd i'r ysgol yn rhan amser, ond byddai hefyd yn caniatáu iddynt ymgymryd ag astudiaethau ffurfiol amser llawn. Rwy'n cynnig y dylai'r dull hwn gael ei weithredu hyd at dymor y gwanwyn, pan fydd y cyfnod blynnyddol o bwysau'r gaeaf wedi pasio.



## 1. Crynodeb

Ailagorodd ysgolion ledled Cymru i bob disgybl yn llawn amser ar ddechrau Medi 2020. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn ar **9 Gorffennaf 2020** yn dilyn cyngor gan ei Chell Cyngor Technegol.

Ar ddechrau mis Awst, gwnaeth Llywodraeth Cymru **lacio'r gofyniad ar blant** o dan 11 oed (mewn ysgolion cynradd) i gadw pellter cymdeithasol.

Mae'r briff hwn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndirol berthnasol a dolenni at ffynonellau a chyhoeddiadau allweddol.

## 2. Cyfnodau blaenorol pan gaewyd ysgolion a lleihawyd gweithrediadau.

### 2.1. Dysgu o bell gartref

**Caewyd ysgolion ar gyfer darparu addysg statudol** ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 ar sail iechyd cyhoeddus oherwydd COVID-19. Arhosodd ysgolion ar agor i **blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol** nad oedd gofal plant diogel arall ar gael ar eu cyfer, fel rhan o 'ddiben newydd' i ysgolion, gan alluogi'r ymateb i COVID-19. Ar ôl iddynt gau i'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion, roedd disgwyl i ysgolion gefnogi addysg disgyblion gartref, trwy ddefnyddio adnoddau ar-lein fel **Hwb**.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **erthygl blog ar 8 Ebrill** sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y cam hwn.

### 2.2. 'Dysgu cyfunol'

Ddydd Llun 29 Mehefin, dechreuwyd proses raddol, fesul cam, o ddychwelyd i'r ysgol. Diben hyn oedd i ddisgyblion '**Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi'** ar gyfer yr hyn y mae'r **Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, wedi rhybuddio** y bydd 'yn debygol o fod yn dymor hydref hir a heriol iawn'.

Oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol, wrth ddychwelyd yn raddol i'r ysgol roedd tua thraean o'r disgyblion yn bresennol yn yr ysgol ar unrhyw adeg benodol, ac roedd disgyblion yn cael cyfle i fynd i'r ysgol ar o leiaf dri achlysur cyn gwyliau'r haf. Roedd y rhan fwyaf o'r addysgu a'r dysgu'n parhau i fod ar-lein fel rhan o fodel 'dysgu cyfunol'.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **erthygl blog ar 16 Mehefin** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y cam hwn.

### 3. Dychwelyd i'r ysgol

**Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf** y byddai'r holl ddisgyblion yn dychwelyd i ysgolion ar amserlen amser llawn o ddechrau'r tymor newydd ar 1 Medi 2020, yn ddibynnol ar yr amodau o ran trosglwyddiad y coronafeirws. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn yn dilyn cyngor gan ei **Chell Cyngor Technegol**, a argymhellodd:

y dylai ysgolion yng Nghymru gynllunio i agor ym mis Medi, gyda 100% o ddisgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau i ostwng yn gyson yn y gymuned, a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu staff a phlant.

Nododd y cyngor gwyddonol bwysigrwydd y cynllun Profi, Olrhain, Diogelu ac argymhellodd y dylai'r rhaglen olrhain cysylltiadau anelu at olrhain tuag 80% o gysylltiadau, ac y dylid olrhain o leiaf 35% ohonynt o fewn 24 awr.

Argymhellodd hefyd y dylai 'paratoadau ar gyfer gallu addysgu hyd at 100% o'r plant o bell fod yn eu lle bob amser, rhag ofn bydd angen gwneud hynny'. Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ynghylch y ddeiseb hon yn cyfeirio at y posibilrwydd o gyfyngiadau symud lleol pe bai'r amodau'n dirywio. Mae dysgu cyfunol, felly, yn cael ei gadw i raddau helaeth fel cynllun wrth gefn possibl os oes angen. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn y **Cyfarfod Llawn ar 26 Awst** (paragraffau 13-20), mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ailagor ysgolion yn ôl y capasiti sydd ar gael i lacio'r cyfyngiadau:

...penderfynodd y Cabinet yr wythnos diwethaf i gadw'r rhan fwyaf o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni i helpu i ailagor ysgolion yng Nghymru yn ddiogel ac yn llwyddiannus o 1 Medi ymlaen....

#### 3.1. Materion ymarferol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau gweithredol** i ysgolion ynglŷn â rheoli'r broses o ddisgyblion yn dychwelyd, ynghyd â **chanllawiau ar ddysgu**. Mae **adran Cwestiynau Cyffredin** ar ei gwefan hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu cyfnod o hyblygrwydd, gan gydnabod y bydd ysgolion o bosib am ganolbwytio ar grwpiau mewn blynnyddoedd â blaenoriaeth, fel y rhai sy'n dechrau mewn ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai sydd yn y dosbarth derbyn. Mae hyn yn caniatáu amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu, gyda disgyblion yn dychwelyd ar wahanol ddyddiadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi **addasu gofynion y cwricwlwm statudol** ac erbyn hyn mae gofyn i ysgolion wneud ymdrech rhesymol yn

unig i addysgu'r cwricwlwm llawn. Mae'r addasiad hwn, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn para hyd at 30 Medi 2020, a bydd y Gweinidog yn ei adolygu'n barhaus.

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf** ei bod yn llacio'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol ymhli plant o dan 11 oed. **Dyweddodd** fod hyn 'yn cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol sy'n dangos bod y risg o drosglwyddo'r haint yn is yn y grŵp oedran hwn'. Fodd bynnag, ychwanegodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig iawn bod plant hŷn ac oedolion ifanc yn parhau i gadw pellter cymdeithasol gan fod lefel y risg yn wahanol yn y grwpiau oedran hyn.

Ar 26 Awst, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ddiweddaru ei safbwyt ynglŷn â gorchuddion wyneb mewn ysgolion**. Argymhellir y dylid defnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd ond nid mewn ysgolion cynradd. Er bod **cyngor gwyddonol** yn nodi nad yw gorchuddion wyneb yn debygol o wneud fawr o wahaniaeth mewn plant o dan 11 oed, fe'u hargymhellir ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd dros 11 oed mewn lleoliadau dan do lle na ellir cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion uwchradd.

## 4. Pwysa a mesur y risg o drosglwyddo'r firws mewn ysgolion yn erbyn y niwed i blant a phobl ifanc o ganlyniad i beidio â mynd i'r ysgol

Fel y mae llythyr y Gweinidog yn ei amlinellu, mae'n rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng y risg o drosglwyddo COVID-19 mewn ysgolion a'r effeithiau negyddol ar iechyd wrth beidio â mynd i'r ysgol. Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru yn nodi:

Gan fod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn, mae'r cydbwysedd risg bellach yn gadarn o blaid bod plant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae peidio â mynd i'r ysgol yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd plant, ac i'w hiechyd a'u lles, yn enwedig ymyst plant difreintiedig; a, gall hyn gael effaith yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gwyddom fod cyflawniad academaidd is hefyd yn troi'n gostau economaidd tymor hir. Gwyddom hefyd fod cau ysgolion wedi effeithio ar allu rhai teuluoedd i weithio. Bydd anfon dysgwyr yn ôl i'r ysgol mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl yn arwain at fanteision cadarnhaol ar sawl agwedd, yn enwedig eu lles meddyliol ac emosiynol.

Ar 23 Awst, **cyhoeddodd y pedwar Prif Swyddog Meddygol ledled y DU ddatganiad ar y cyd ynglŷn â'r dystiolaeth o risgiau a buddion i iechyd o ganlyniad i ailagor ysgolion a lleoliadau gofal plant**. Dehonglwyd hyn fel rhywbeth sy'n ategu'r penderfyniad i ailagor ysgolion.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf: P-05-996  
Ein cyf: FM-/01372/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru

[deisebau@senedd.cymru](mailto:deisebau@senedd.cymru)

4 Awst 2020

Annwyl Gadeirydd

Diolch am dynnu fy sylw at Ddeiseb P-05-996 yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â symud, difrodi na dinistrio unrhyw symbolau hanesyddol yng Nghymru.

Mae'r mudiad Black Lives Matter wedi amlygu nifer o faterion sydd angen i ni fynd i'r afael â nhw fel gwlad, ac un o'r rhain yw'r angen i fyfyrio ar natur y pethau gweledol sy'n ein hatgoffa o orfennol ein gwlad sy'n bodoli mewn cymunedau ledled Cymru.

Er mwyn ein helpu yn y broses fyfyrio hon, rwyf wedi cyhoeddi ein bod yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r cyfrifoldeb o gynnal archwiliad o henebion a chofebion hanesyddol, enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus, sy'n gysylltiedig â hanes cymunedau du yng Nghymru, ac yn enwedig y fasnach mewn caethweision.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i weithio tuag at Gymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r archwiliad hwn yn waith pwysig o safbwyt hybu cydraddoldeb pobl a chymunedau ledled Cymru.

Ar ôl cwblhau'r archwiliad, byddwn yn ystyried ymateb priodol. Fodd bynnag, byddai'n amhriodol awgrymu beth allai'r rhain fod ar hyn o bryd.

Amgaeaf ddolen i'm datganiad ysgrifenedig yn nodi mwy o wybodaeth am yr archwiliad:  
<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-archwilio-henebion-cyhoeddus-enwau-strydoedd-ac-adeiladau-syn-gysylltiedig>.

Dymuniadau gorau

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YPrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YPrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 140

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Velindre newydd arfaethedig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Amelia Thomas, ar ôl casglu 5,241 lofnodion ar-lein a 113 ar bapur, sef cyfanswm o 5,354 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Byddai £30M yn cael ei wario ar ffyrdd yn unig i gael mynediad i'r tir y bwriedir adeiladu'r Ganolfan newydd arno. Mae mynediad ar gael eisoes yn hen Ysbyty'r Eglwys Newydd a safle presennol Velindre, ac maent yn ddewisiadau amgen hyfyw.

Nid yw'r cynllun presennol yn unol ag arfer gorau ar gyfer gofal canser cydgysylltiedig modern, sy'n canolbwytio ar yr unigolyn gyda gwasanaethau wedi'u cysylltu'n gorfforol ag ysbytai aciwt mwy. Cynigiodd Ysbyty'r Mynydd Bychan le i Velindre ochr yn ochr â chanolfan ymchwil canser Prifysgol Caerdydd yn ei hadeilad newydd sydd i fod i ddechrau cael ei adeiladu yn 2023.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Velindre yn cyfnewid eu tir presennol (safle ysbyty'r Eglwys Newydd) am dir y ddôl, (sy'n eiddo i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro). Byddai angen gwario £30M o arian trethdalwyr i adeiladu ffyrdd mynediad er mwyn i waith adeiladu allu digwydd ar y ddôl hon sydd wedi'i thir-glo gan ei bod yn gysylltiedig â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI).

Byddai cael gwared â'r Northern Meadows yn hynod niweidiol i les corfforol a meddyliol.

Mae triniaeth canser wedi dod yn fwy cymhleth, ac mae gan gleifion sy'n cael triniaeth faterion cynyddol gymhleth. Byddai lleoli'r adeilad yn y Mynydd Bychan, ochr yn ochr â chanolfan ymchwil canser Prifysgol Caerdydd, yn

darparu mynediad cyflym i ofal dwys ac arbenigeddau meddygol a llawfeddygol allweddol eraill pan fydd eu hangen ar gleifion.

Mae model arfaethedig Canolfan Ganser Velindre wedi dyddio ac mae'n rhaid craffu arno. Ystyrir bod gwasanaethau cymorth meddygol a llawfeddygol ar y safle yn HANFODOL: <https://www.england.nhs.uk/east-of-england/wp-content/uploads/sites/47/2019/08/Independent-Clinical-Panel-Report.pdf>

[https://savethenorthernmeadows.wales/?page\\_id=1129](https://savethenorthernmeadows.wales/?page_id=1129)

#### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

# P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Velindre newydd arfaethedig.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13470

Rhif y ddeiseb: P-05-1001

**Teitl y ddeiseb:** Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Velindre newydd arfaethedig

**Geiriad y ddeiseb:** Byddai £30M yn cael ei wario ar ffyrrd yn unig i gael mynediad i'r tir y bwriedir adeiladu'r Ganolfan newydd arno. Mae mynediad ar gael eisoes yn hen Ysbyty'r Eglwys Newydd a safle presennol Velindre, ac maent yn ddewisiadau amgen hyfw.

Nid yw'r cynllun presennol yn unol ag arfer gorau ar gyfer gofal canser cydgysylltiedig modern, sy'n canolbwytio ar yr unigolyn gyda gwasanaethau wedi'u cysylltu'n gorfforol ag ysbytai aciwt mwy. Cynigiodd Ysbyty'r Mynydd Bychan le i Velindre ochr yn ochr â chanolfan ymchwil canser Prifysgol Caerdydd yn ei hadeilad newydd sydd i fod i ddechrau cael ei adeiladu yn 2023.

Byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Velindre yn cyfnewid eu tir presennol (safle ysbyty'r Eglwys Newydd) am dir y ddôl, (sy'n eiddo i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro). Byddai angen gwario £30M o arian trethdalwyr i adeiladu ffyrrd mynediad er mwyn i waith adeiladu allu digwydd ar y ddôl hon sydd wedi'i thir-glo gan ei bod yn gysylltiedig â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI).

Byddai cael gwared â'r Northern Meadows yn hynod niweidiol i les corfforol a meddyliol.

Mae triniaeth canser wedi dod yn fwy cymhleth, ac mae gan gleifion sy'n cael triniaeth faterion cynyddol gymhleth. Byddai lleoli'r adeilad yn y Mynydd Bychan, ochr yn ochr â



chanolfan ymchwil cancer Prifysgol Caerdydd, yn darparu mynediad cyflym i ofal dwys ac arbenigeddau meddygol a llawfeddygol allweddol eraill pan fydd eu hangen ar gleifion.

Mae model arfaethedig Canolfan Ganser Velindre wedi dyddio ac mae'n rhaid craffu arno. Ystyrir bod gwasanaethau cymorth meddygol a llawfeddygol ar y safle yn HANFODOL:

<https://www.england.nhs.uk/east-of-england/wp-content/uploads/sites/47/2019/08/Independent-Clinical-Panel-Report.pdf>

[https://savethenorthernmeadows.wales/?page\\_id=1129](https://savethenorthernmeadows.wales/?page_id=1129)

## 1. Cefndir

Mae **deiseb** ynghylch cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Deisebau.

Mae **deiseb arall**, sy'n mynd yn groes i'r ddeiseb hon, yn casglu llofnodion ar wefan y Senedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Mae'n nodi; 'Bydd y cynllun presennol yn gwneud yn siŵr bod Canolfan Ganser Felindre yn parhau i ddarparu gwasanaethau cancer arbenigol mewn lleoliad sy'n fwy hygrych i gleifion, gyda gwell mynediad o Gyffordd 32 yr M4. Caiff ei dderbyn yn gyffredinol bod ysbytai mewn lleoliad naturiol yn cynorthwyo adferiad cleifion ac yn gostwng lefelau straen teuluoedd a staff mewn ysbytai'.

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn **tystiolaeth ysgrifenedig** gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r deisebau eto.

Mae darparu'r ganolfan ganser newydd yn ne-ddwyrain Cymru yn ganolog i strategaeth Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Canser, i helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd parhaus a ragwelir yn y galw am driniaeth cancer dros y degawdau nesaf. Mae'r Prosiect yn un o dri phrosiect i **Raglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM)** Llywodraeth Cymru i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith cyfalaf yng Nghymru. Mae'r cynlluniau ar gyfer y ganolfan ganser newydd wedi'u cymeradwyo gan y Byrddau Iechyd lleol yn ne-ddwyrain Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Cymru.

## Y Ganolfan Ganser Felindre Arfaethedig

Mae **gwefan** Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn nodi pam mae angen canolfan ganser newydd yng Nghymru. Mae'n nodi; 'nid oes gan ganolfan ganser presennol Felindre, sy'n 60 oed, y

cyfleusterau na'r lle i ddiwallu anghenion y nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu diagnostio â chanser'. Bydd gan y ganolfan ganser newydd y gallu i drin mwy o gleifion, a bydd hefyd yn cefnogi ymchwil a datblygiadau rhyngwladol.

Mae'r deisebydd yn dadlau bod 'y cynllun presennol ar gyfer Canolfan Ganser Felindre wedi dyddio ac mae'n rhaid craffu arno'. Dywed y deisebydd 'nad yw'r cynllun presennol yn unol ag arfer gorau o ran gofal cancer cydgysylltiedig modern'. Mae'r deisebydd hefyd yn tynnu sylw at oblygiadau amgylcheddol y safle arfaethedig.

## Yr Amgylchedd

Disgwyllir i'r Ganolfan Ganser Felindre newydd agor yn 2024. Rhoddodd Gyngor Caerdydd ganiatâd cynllunio ar gyfer y ganolfan newydd yng ngwanwyn 2018, ond bu gwrthwynebiad i'r cynlluniau ar gyfer y cyfleuster newydd. Disgwyllir iddo gael ei adeiladu tua hanner milltir i'r gogledd-ddwyrain o ganolfan ganser bresennol Felindre, y cyfeirir ati'n lleol fel y 'Northern Meadows'.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn nodi ar eu **gwefan** y bydd '60 y cant o safle' r northern meadows yn parhau i fod heb ei ddatblygu'. Fodd bynnag, dywed y deisebydd, 'byddai cael gwared â'r Northern Meadows yn niweidiol iawn i lesiant corfforol a meddyliol pobl'. Codwyd pryderon ynghylch colli man gwyrdd a ddefnyddir gan lawer i fynd i gerdded, a'r effaith y bydd y datblygiad yn ei chael ar yr amgylchedd. Codwyd pryderon hefyd ynghylch cynnydd mewn traffig yn yr ardal.

Ar eu gwefan, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn esbonio pam y mae'n rhaid adeiladu'r ganolfan ganser newydd ar safle'r Northern Meadows, gan nodi;

Dewiswyd safle'r northern meadows am ei fod yn eiddo i'r GIG, lle mae'r egwyddor o ddatblygu eisoes wedi'i sefydlu'n dda a'i gytuno gan y Cyngor.

(Mae'r cyngor eisoes wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu tai ar y safle).

Mae agosrwydd y safle at yr M4 a'r A470 yn golygu ei fod yn darparu mynediad mwy rhwydd i dri chwarter o'n cleifion sy'n teithio atom ni o De Ddwyrain Cymru. Ni fydd yn rhaid iddynt deithio i'r Eglwys Newydd rhagor.

Yn drydydd, mae'r safle'n darparu'r gofod a'r ansawdd a fydd yn helpu ein cleifion a'u lles ar adegau anodd a phryderus..

Yn ei hymateb ysgrifenedig, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn pwysleisio eto bod Cyngor Caerdydd wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer tai ar y safle yn 2001 ac yn 2018 a rhoddodd hefyd ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer canolfan ganser newydd. Mae'n nodi, 'Fe wnaethom ddewis y safle ar ôl adolygu opsiynau posibl eraill yn ystâd ehangach y GIG'.

Mae safle Northern Meadows, sydd drws nesaf i Ysbyty'r Eglwys Newydd, yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## Safleoedd eraill

Mae'r deisebydd yn galw am ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer Canolfan Ganser Felindre, gan nodi bod 'safleoedd eraill ar gael sy'n hyfyw'. Mae gwefan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnwys manylion y gwefannau eraill a ystyriwyd, gan gynnwys y rhai y cyfeiriwyd atynt gan y deisebydd;

### **Pam na allwch chi adeiladu ar safle presennol Ysbyty'r Eglwys Newydd yn lle northern meadows?**

Nid yw'r safle'n ddigon mawr i ddarparu'r profiad rydym eisiau ei roi i'r claf.

Mae safle northern meadows yn fwy na safleoedd presennol Canolfan Ganser Felindre ac Ysbyty'r Eglwys Newydd gyda'i gilydd.

Bydd yn gwella mynediad hefyd i Ganolfan Ganser newydd Felindre, ar gyfer tri chwarter o'n cleifion sy'n dod o ardaloedd y tu allan i Gaerdydd.

Mae hen Ysbyty'r Eglwys Newydd yn adeilad rhestradig hefyd, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'w ailddatblygu fel canolfan ganser fodern.

Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn egluro ei bod wedi adolygu'r posibilrwydd o adeiladu ar safle presennol Ysbyty'r Eglwys Newydd ond ei bod yn rhy fach i adeiladu'r ganolfan ganser i'r safonau gofynnol (t.11).

Ymhllith y safleoedd eraill a ystyriwyd roedd tir y GIG yng Nghasnewydd a thir sy'n ffinio ag Ysbyty Athrofaol Cymru (UHW) yng Nghaerdydd, ond cafodd y rhain eu diystyr oherwydd penderfynwyd bod y safleoedd yn rhy fach i ddarparu'r hyn oedd ei angen.

Mae'r deisebydd yn nodi, 'Cynigiodd Ysbyty'r Mynydd Bychan le i Velindre ochr yn ochr â chanolfan ymchwil cancer Prifysgol Caerdydd yn ei hadeilad newydd sydd i fod i ddechrau cael ei adeiladu yn 2023'. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn egluro nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (CVUHB) wedi cynnig tir ar bwys Ysbyty Athrofaol Cymru i'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu canolfan ganser newydd ac nad oes unrhyw gynlluniau wedi'u cadarnhau ar gyfer adeiladu "adeilad newydd" ar gyfer 2023 . Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn nodi nad yw'r safle newydd ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru wedi'i gytuno eto (t.11).

## Gwasanaethau Canser

Nod adran ‘gwasanaethau canser’ gwefan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yw mynd i’r afael â rhai o’r materion y mae’r deisebydd yn eu codi, gan gynnwys a ddylid adeiladu’r ganolfan ganser newydd ar safle ysbyty acíwt mwy o faint;

**Oni ddylai’r ganolfan ganser newydd gael ei hadeiladu ar safle ysbyty acíwt mwy o faint?**

Na ddylai. Fe ystyrion ni’r opsiynau hyn gyda’n staff, ein partneriaid a’n cleifion, a daethom i’r casgliad mai’r cynigion rydym ni’n eu cefnogi ar hyn o bryd yw’r rhai sy’n gweithio orau i ni i gyd.

Mae Felindre yn darparu gwasanaeth rhanbarthol, gan gynorthwyo cleifion o bob rhan o dde-ddwyrain Cymru. Mae ein staff eisoes yn gweithio’n agos gyda nifer o ysbytai, ac ar eu safleoedd, a byddant yn gwneud hynny i raddau mwy yn y dyfodol.

Mae’r model ar gyfer y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau yn fodern ac yn cyd-fynd â’r gwersi a ddysgwyd o COVID-19, sy’n dangos y dylai gofal acíwt a gofal dewisol gael eu gwahanu’n briodol.

Mae hefyd yn cyd-fynd â chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae “Cymru lachach”, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, am weld ysbytai cyffredinol mawr yn cefnogi darparu gwasanaethau arbenigol ar draws rhwydweithiau o ysbytai a chanolfannau rhagoriaeth yn y dyfodol. Mae ein cynllun ar gyfer canolfan rhagoriaeth ganser newydd, ar ei safle ei hun, ac sy’n rhan o’r Rhwydwaith Gwasanaethau Canser, yn cyd-fynd â’r polisi hwn.

Mae ein cynllun hefyd yn adlewyrchu’r ffaith nad oes safle ysbyty’n bodoli ar hyn o bryd sydd â digon o le i gadw wyth peiriant radiotherapi arbenigol..

Ceir manylion pellach ar nifer y teithiau ambiwlans a fu o’r ganolfan bresennol, a sut y gellir cael mynediad at wasanaethau acíwt oddi ar y safle yn gyflym ac yn ddiogel.

Mae’r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn amlinellu’r gwaith ymgysylltu y mae wedi’i wneud gyda chlinigwyr a chleifion i gefnogi ei fodel clinigol (gweler tudalen 12). Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn mynnu bod y byrddau iechyd a’u clinigwyr o bob rhan o’r rhanbarth yn cefnogi eu dull gweithredu, gan bwysleisio ei fod eisoes wedi bod yn destun i waith craffu ac adolygiad annibynnol.

Mae erthygl ddiweddar gan BBC Cymru (a gyhoeddwyd ar 8 Medi 2020) yn cyfeirio at lythyr, sydd wedi’i lofnodi gan 57 o arbenigwyr canser, a anfonwyd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu pryderon dros ddiogelwch cleifion yn y ganolfan canser Felindre

newydd. Nid yw'r llythyr wedi'i gyhoeddi eto. Fodd bynnag, mae erthygl y BBC yn nodi bod y 'gweinidog wedi ymateb i'r llythyr hwn yn cadarnhau y bydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ceisio cyngor annibynnol ar y model clinigol ar gyfer yr ysbyty cancer newydd'. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod y 'Prif Swyddog Meddygol hefyd yn trafod rheoli cleifion cancer difrifol sâl gyda chyfarwyddwyr meddygol bwrdd iechyd i sicrhau bod y model cyflenwi cyfredol yn addas at y diben'.

Mae'r deisebydd yn darparu linc i **Adroddiad Mount Vernon**, gan nodi y dylid dysgu o adolygiad ac argymhellion y panel cynghori clinigol wrth ddatblygu canolfan ganser newydd Felindre.

Comisiynodd GIG Lloegr adolygiad brys o Ganolfan Ganser Mount Vernon (MVCC) ym mis Mai 2019, dan arweiniad Tîm Comisiynu Arbenigol Dwyrain Lloegr, oherwydd pryder cynyddol ynghylch cynaliadwyedd gwasanaeth oncoleg diogel ac o ansawdd uchel a ddarperir ar y safle. Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn nodi;

Mae Canolfan Ganser Felindre yn wahanol iawn i Mount Vernon o ran heriau yn ymwneud â daearyddiaeth, poblogaeth a'r gweithlu, yn ogystal â threfniadau gweithio ar y cyd.

Nid yw Felindre wedi wynebu'r un heriau yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, a'r effaith ganlyniadol ar hyfforddiant. Mae ein rhwydwaith o wasanaethau gyda'r tri bwrdd iechyd yn ne-ddwyrain Cymru yn rhoi canolbwyt rhanbarthol cryf i ni ar gyfer ein gwasanaethau.

Rydym wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd o adroddiad Mount Vernon ynglŷn â rheoli cleifion sâl, ac rydym yn mireinio ein gwasanaeth presennol o ganlyniad

## Datblygiadau diweddar

Yn dilyn cael caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer canolfan ganser ar safle'r Northern Meadows, mae dau gais cynllunio pellach wedi'u cyflwyno i Gyngor Caerdydd i adolygu ffyrdd mynediad i'r Ganolfan Ganser Felindre newydd. Roedd archfarchnad Asda wedi codi pryderon ynghylch tagfeydd traffig ond ers hynny mae'r archfarchnad wedi gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth i ddatrys y materion hynny. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywed Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre y bydd y cais cynllunio i adolygu'r ffyrdd mynediad yn lleihau costau cyffredinol ac yn galluogi'r adeilad i agor ynghynt.

(Mae'r deisebydd yn cyfeirio at £30 miliwn 'a fyddai'n cael ei wario ar ddim ond ffyrdd er mwyn cael mynediad i'r tir y bwriedir i'r ganolfan newydd gael ei adeiladu arno'. Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn nodi bod y ffigur o £26.9 miliwn i adeiladu'r ffyrdd hyn yn cynnwys cost galluogi gwaith i ddigwydd ar y safle, nid dim ond ffyrdd).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

## **Cadeirydd Pwyllgor Deisebau'r Senedd 2 Medi 2020**

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Awst, yn gofyn am ymateb ffurfiol i'r ddeiseb a gyhoeddwyd ar wefan Deisebau'r Senedd ar 16 Gorffennaf o dan y pennawd "Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer Canolfan Ganser newydd arfaethedig Felindre".

Ers hynny, mae deiseb newydd sy'n cefnogi Canolfan Ganser newydd Felindre wedi'i chyhoeddi ar wefan y Senedd, gyda'r dyddiad cau o 24 Medi. Wrth i mi ysgrifennu, mae wedi denu dros 7000 o lofnodion. Buaswn yn ddiolchgar clywed eich barn yng hylch a ddylid ystyried y ddwy ddeiseb gyda'i gilydd, o ystyried eu bod yn mynd i'r afael â'r un pwnc, er o safbwytiau gwahanol.

Mae'r ohebiaeth hon yn cynnig ymateb i'r prif faterion a godwyd gan y ddeiseb. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth gefndirol am brosiect Canolfan Ganser Felindre newydd a allai fod o gymorth i'r pwyllgor.

### **Cefndir - chwarae ein rhan i drawsnewid gwasanaethau canser yn Ne-ddwyrain Cymru**

Mae mwy a mwy o bobl yn cael diagnosis o ganser. Nid yw'r system bresennol yn gweithio cystal ag y dylai – ac mae gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre rôl hollbwysig o ran gwella canlyniadau i gleifion canser yng Nghymru.

Nid oes gan Ganolfan Ganser Felindre, sydd bellach yn 60 oed, y cyfleusterau na'r lle sydd eu hangen arnom. Nid oes lle i ddatblygu yn y dyfodol. Nid ydym yn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i bob claf yn agos i'w cartref, lle bynnag maen nhw'n byw. Ac nid ydym yn atal digon o ganser yn y lle cyntaf.

Felly, ar draws y system, beth bynnag fo'n rolau a ble bynnag rydym wedi'n lleoli, mae sefydliadau'n dod at ei gilydd i wella gwasanaethau canser.

Ar ôl ymgysylltu'n sylweddol â chleifion, staff a'n partneriaid rhanbarthol yn GIG Cymru, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru raglen amlinellol strategol i sefydlu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

Gwella canlyniadau cleifion sydd wrth wraidd y rhaglen a'r hyn a wnawn. Dyma fan cychwyn ein model gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cancer heddiw a'r gwasanaethau rydym yn eu datblygu ar gyfer y dyfodol. Rydym eisiau i driniaethau cancer o ansawdd uchel fod ar gael i gleifion ar draws de-ddwyrain Cymru, ac i'r gofal a gynigir fod yn rhagorol.

Mae hynny'n golygu gweithio gyda'n partneriaid i edrych ar gyfleoedd i integreiddio gwasanaethau'n well. Rydym eisiau chwarae ein rhan i wella'r llwybr cancer cyfan i gleifion - o ymwybyddiaeth ac atal cancer i ddiagnosis a thriniaeth gynnar, ac rydym eisiau cefnogi pobl sy'n byw gydag effaith gofal lliniarol cancer a chynllunio gofal ymlaen llaw.

Rydym eisiau cydweithio â phartneriaid academaidd ar draws Cymru a thu hwnt hefyd, i sicrhau bod Cymru'n chwarae ei rhan mewn ymchwil, datblygu ac arloesi cancer sy'n enwog yn rhyngwladol. Mae Felindre eisoes yn chwarae rhan allweddol mewn ymchwil rhyngwladol, ond nid yw ein canolfan ganser 60 oed bresennol yn portreadu'r ddelwedd gywir i fodloni uchelgeisiau'r sefydliad nac yn wir, Cymru.

Rydym yn credu y bydd rôl arweiniol mewn ymchwil, datblygu ac arloesi yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddyfodol cynaliadwy i weithlu oncoleg Cymru ac felly, yn sicrhau datblygu gwasanaethau cancer sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gan weithio i'r egwyddorion hyn, mae'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser wedi cael y dasg o ddarparu pedwar newid allweddol i wasanaethau i gleifion cancer yn ne-ddwyrain Cymru:

- mwy o ofal, cymorth a thriniaeth yng nghartrefi pobl os ydynt yn dymuno
- nifer fach o leoliadau 'Felindre @' wedi'u cynllunio'n bwrpasol ar safleoedd Byrddau Iechyd, y cyfeirir atynt fel cyfleusterau allgymorth Felindre
- uned Lloeren Radiotherapi i'w lleoli yn Ysbyty Nevill Hall ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- canolfan ganser anlawfeddygol arbenigol newydd i gymryd lle Canolfan Ganser bresennol Felindre.

### Safle'r dolydd gogleddol

Dewiswyd y dolydd gogleddol am ei fod yn dir sy'n eiddo i'r GIG, lle mae'r egwyddor o ddatblygu eisoes wedi'i hen sefydlu a'i chymeradwyo. Rhoddodd Cyngor Caerdydd ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladu tai ar y safle yn 2001 ac yn 2018, rhoddodd ganiatâd cynllunio amlinellol hefyd ar gyfer canolfan ganser newydd.

Mae'r ffaith bod y safle yn agos at yr M4 a'r A470 yn golygu ei fod yn darparu mynediad haws i dri chwarter ein cleifion sy'n teithio atom o bob rhan o'r dedwyrain. Ni fydd yn rhaid iddyn nhw, fel llawer o'n staff, deithio i bentref yr Eglwys Newydd mwyach.

Mae'r safle yn darparu gofod o ansawdd hefyd, a'r rhagolygon yw y bydd hyn yn helpu ein cleifion a'u lles yn ystod cyfnod anodd a phryderus.

Dewiswyd y safle ar ôl adolygu opsiynau posibl eraill sydd ar gael yn ystâd ehangach y GIG.

Nodwyd safleoedd posibl gennym yn Llanfrechfa Grange, i'r gogledd o Gasnewydd, tir gyferbyn ag Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd, a thir sy'n ffinio ag Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Nid yw'r safleoedd hyn yn darparu'r hyn sydd ei angen arnom. Nid oedd safleoedd Casnewydd yn addas yn ddaearyddol, am ein bod yn darparu gwasanaethau canser i bobl sy'n byw mor bell i'r gorllewin â Phen-y-bont ar Ogwr, gyda llawer o'n cleifion yn byw yn ardaloedd Cwm Taf Morganwg a Chaerdydd. Roedd y safle ger Ysbyty Athrofaol Cymru yn rhy fach i'n hanghenion.

Yn groes i eiriad y ddeiseb, nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cynnig tir i ni yn y Mynydd Bychan i ddatblygu canolfan ganser newydd, ac nid oes unrhyw gynlluniau wedi'u cadarnhau ar gyfer "adeilad newydd" sy'n dechrau yn 2023. Nid yw'r safle ar gyfer Ysbyty Athrofaol newydd i Gymru wedi'i gytuno eto. Deallaf fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar ddechrau'r

gwaith o greu cais busnes rhaglen ac fel rhan o'r broses honno byddant yn cynnal arfaniad o opsiynau ar gyfer safle. Nid yw hynny wedi'i wneud eto a bydd yn cymryd peth amser i'w gwblhau.

Fe wnaethom adolygu'r posibilrwydd hefyd, o adeiladu ar Ysbyty presennol yr Eglwys Newydd, ond roedd y safle honno yn rhy fach i adeiladu'r ganolfan ganser yn unol â'r safonau gofynnol. Mae'r adeilad wedi'i restru hefyd, sy'n ei gwneud yn anodd ailddatblygu arno fel canolfan ganser fodern.

Mae gan dir i'r de-orllewin o Ysbyty'r Eglwys Newydd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer ysbyty, ond mae'n rhy fach.

Yn dilyn ein caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu canolfan ganser ar safle'r dolydd gogleddol, cyflwynwyd dau gais cynllunio pellach i Gyngor Caerdydd ar 9 Mehefin 2020, i adolygu ffyrdd mynediad i Ganolfan Ganser newydd Felindre, a fydd yn lleihau'r costau cyffredinol ac yn cyflwyno'r dyddiad agor.

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at gost o £26.9 miliwn i ddarparu'r ffyrdd hyn. Mae'r disgrifiad hwn yn anghywir. Mae'r ffigurau'n cwmpasu cost ein holl waith galluogi ar gyfer y safle, nid ffyrdd yn unig. Mae gwaith galluogi yn cynnwys tasgau fel cloddio, lefelu, arolygon safleoedd, draenio a chysylltiad cyfleustodau, yn ogystal â ffyrdd a phontydd ar gyfer gwell mynediad, lledu'r slipffordd yn uniongyrchol oddi ar gylchfan Coryton, a gwneud gwelliannau pellach i helpu i leddfu llif traffig yn yr ardal.

Mae'r ddeiseb hefyd yn cyfeirio at safle'r dolydd gogleddol fel tir dan glo. Mae hyn yn anghywir hefyd. Mae'r safle ar gael o'r de, drwy safle Ysbyty'r Eglwys Newydd. Defnyddiwyd y tir yn flaenorol fel rhan o safle'r ysbyty. Mae'r caniatâd cynllunio uchod ar gyfer adeiladu tai ar y dolydd gogleddol, yn cynnig ffordd fynediad drwy safle Ysbyty'r Eglwys Newydd.

## Datblygu modelau clinigol

Datblygwyd y model clinigol sy'n sail i'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser mewn partneriaeth â'n cydweithwyr rhanbarthol, ein staff, rhanddeiliaid a chleifion.

Cynhaliwyd cam cyntaf yr ymgysylltu rhwng mis Ebrill a mis Awst 2015, ac roedd yn cynnwys lleisiau dros 400 o gyfranogwyr. Cafodd y digwyddiadau ymgysylltu hyn eu cefnogi gan fewnbwn gan dri grŵp cenedlaethol – Cyfarwyddwyr Cynllunio, Cyfarwyddwyr Nrysio a Chyfarwyddwyr Meddygol GIG Cymru yn y drefn honno. Yn ystod y digwyddiadau hyn, gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr roi adborth o ran sut y gellid gwella gwasanaethau, a nodi pa elfennau o'r model gwasanaeth presennol yr oeddent yn teimlo y dylem eu cadw.

Daeth nifer o ganfyddiadau a themâu allweddol i'r amlwg o'r digwyddiadau ymgysylltu cychwynnol hyn, ac fe'u defnyddiwyd i lywio'r broses o ddatblygu model gofal manwl ar gyfer gwasanaethau clinigol. Yn hanfodol i ddatblygu'r model gwasanaeth oedd sefydlu set glir o egwyddorion clinigol a oedd yn cynnwys (i) cynnig gofal cancer anlawfeddygol o ansawdd uchel i boblogaeth de-ddwyrain Cymru (ii) gwella canlyniadau cleifion (iii) lleihau'r anghydraddoldebau yn y canlyniadau hynny ar draws y rhanbarth, a (iv) darparu gofal yn nes adref.

Datblygwyd y model gwasanaethau clinigol ymhellach drwy gyfarfodydd mewnol helaeth, digwyddiadau ymgysylltu â chyfranogiad cleifion a'r cyhoedd, a chyfres o weithdai gydag arweinwyr cancer byrddau iechyd a grwpiau rhanddeiliaid ehangach (prifysgolion, diwydiant, y trydydd sector ac ati) Roedd hyn yn cynnwys 49 o weithdai yn ystod 2016 – 2017. Drwy'r digwyddiadau hyn, roeddem yn gallu datblygu a gwella'r model gwasanaeth a ddisgrifiwyd yn y Rhaglen Amlinellol Strategol ymhellach, a chafodd hyn ei gyflwyno yng Nghais Busnes y Rhaglen.

Roedd llais y claf yn amlwg yn y broses hon. Dywedodd cleifion wrthym eu bod eisiau cael gwasanaethau mor agos i'w cartrefi â phosibl, ond nad oedd ots ganddynt deithio am wasanaethau arbenigol. Dywedodd cleifion hefyd, eu bod eisiau cael yr un profiad a safon o ofal lle bynnag y darperir y gwasanaeth, eu bod nhw eisiau gallu dod o hyd iddo a pharcio'n hawdd, a chael mynediad i fannau i fyfyrion dawel.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori Clinigol gennym hefyd a oedd ag uwch gynrychiolaeth clinigol ofyrddau iechyd a Rhwydwaith Canser Cymru. Cylch gwaith y grŵp hwn

oedd sicrhau bod y model yn glinigol gadarn a rhoi cyngor a her amlddisgyblaethol a sefydliadol i'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r model gwasanaethau clinigol yn cefnogi'r model gofal canser rhanbarthol ar gyfer De Ddwyrain Cymru h.y. rhwydwaith o wasanaethau canser.

Amlinellwyd hynny yn y Cais Busnes Amlinellol ar gyfer canolfan ganser newydd a gymerawdwywyd gan bob bwrdd iechyd (BILI Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, BILI Prifysgol Aneurin Bevan, BILI Prifysgol Bae Abertawe a BILI Prifysgol Hywel Dda) a Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ym mis Ebrill 2018.

Rydym yn ceisio esblygu a mireinio ein model yn gyson, er mwyn sicrhau aliniad ar draws y rhanbarth, ac i geisio sicrhau ei fod yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel bob dydd.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud gwaith gyda'n cydweithwyr mewn byrddau iechyd i nodi gwelliannau y gallai fod angen i ni eu gwneud ar lefel gwasanaeth Canolfan Ganser Felindre leol ac ar lefel ranbarthol, systemig. Bydd hyn yn ystyried nifer o ffactorau allanol, gan gynnwys effaith a dysgu COVID-19, newidiadau mewn ymarfer clinigol yn y rhanbarth a'r sylfaen dystiolaeth ehangach, a meysydd i'w gwella posibl a godir gan strategaethau a chynlluniau canser staff a BILI/Rhwydwaith Canser Cymru.

Ar lefel Canolfan Ganser Felindre leol, ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar nifer fach o feysydd gan gynnwys ymchwil a datblygu, hyfforddiant ac addysg. Mae darn sylweddol o waith ar y gweill mewn partneriaeth â chydweithwyr o fyrrdau iechyd a'r Ymddiriedolaeth ar ofal heb ei drefnu a gwasanaethau oncoleg aciwt er mwyn darparu ymateb rhanbarthol cydgysylltiedig a phriodol. Bydd unrhyw welliannau a nodwyd gan bob ffrwd waith yn cael eu defnyddio i ategu a chryfhau'r model rhanbarthol rydym wedi cytuno arno gyda byrddau iechyd ac yn bwydo i mewn i'n cynlluniau presennol.

Ym mis Tachwedd 2019, sefydlwyd y Grŵp Arweinyddiaeth Canser Cydweithredol (CCLG) yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r grŵp hwn, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, wedi cyfarfod dwy waith ers hynny ac mae'n cynnwys aelodau o fyrrdau

iechyd eraill. Mae'n gyfrifol am arwain y dull rhanbarthol o gynllunio a darparu systemau a gefnogir gan Brif Grŵp Gweithredol GIG Cymru.

Bydd yr holl ddatblygiadau hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n addas i gleifion canser heddiw, ac yn datblygu gwasanaethau canser sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Casgliad

Mae datblygu Canolfan Ganser newydd Felindre wedi bod yn rhan o broses hir a chadarn, sy'n cynnwys cannoedd o gleifion, staff a phartneriaid mewn dwsinau a dwsinau o ddigwyddiadau dros flynyddoedd lawer. Mae'n un rhan o raglen i drawsnewid gwasanaethau canser a gwella canlyniadau canser ar draws de-ddwyrain Cymru.

Mae'r holl adolygiadau a'r ymgynghoriadau rydym wedi eu cynnal yn cadarnhau mai ein model clinigol yw'r un cywir ar gyfer anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu, ac mai lleoliad y Ganolfan Ganser Felindre newydd ar safle'r Dolydd Gogleddol ydy'r ffordd fwyaf effeithiol ac amserol o ddarparu'r model clinigol hwnnw.

Yn anad dim, rydym yn hyderus mai ein cynigion ni fydd yn gweithio orau i'n cleifion. Mae llais y claf wedi bod yn uchel ac yn glir yn y broses. Mae gan Felindre gofnod rhagorol o ran diogelwch cleifion a boddhad cleifion, ac mae cleifion eisiau i'r profiad hwn gael ei wella ymhellach mewn adeilad modern ar safle gwyrdd. Mae cleifion yn eu miloedd wedi mynegi eu cefnogaeth i'r ganolfan ganser newydd yn yr Eglwys Newydd.

Yn olaf, hoffwn egluro bod y ddeiseb yn cyfeirio at ein sefydliad fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Felindre. Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ydym ni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfarwyddo strategaeth a pherfformiad ein dwy brif Is-adran, Canolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru, ac yn cynnal Technoleg Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwlasanaethau GIG Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Cyflawnir ein gwasanaethau gwaed a thrawsblannu ledled Cymru a chomisiynir ein gwasanaethau canser gan ein partneriaid, Byrddau Iechyd Lleol de-ddwyrain Cymru.



Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre  
Velindre University  
NHS Trust



Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre  
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood  
Heol Billingsley  
Parc Nantgarw  
Caerdydd/Cardiff  
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161  
[www.velindre-tr.wales.nhs.uk](http://www.velindre-tr.wales.nhs.uk)

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried y ddeiseb. Byddwn yn falch o roi unrhyw wybodaeth bellach ichi os ydych ei hangen, neu os bernir ei bod yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**Yr Athro Donna Mead OBE**  
**Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

**Paper to Senedd in support of the petition “Hold an independent inquiry into the choice of site for the proposed new Velindre Cancer Centre”**

Velindre's NHS workers provide outstanding care, compassion and treatment. Accordingly, Save The Northern Meadows (STNM) stands with all who feel hugely grateful for Velindre. STNM's posters declare **YES to Velindre**, before saying **NO to Meadow Destruction**. YES for the highest and the best, a top quality cancer care service in South-East Wales. STNM stands fully behind patient wellbeing, the safest medicine possible, respect for all NHS key workers and the integrity of medicine itself. The campaign's special role is to fly the flag for a corresponding and supportive health asset – green spaces that are a community's lungs and beating heart, an indispensable constituent of a community's health and wellbeing <https://savethenorthernmeadows.wales/campaign-overview/>

### **The Case for a Review**

The petitioner's request for an independent review is to ensure that all in South East Wales benefit from the best treatment model, service provision and maximum use of resources over the next 60 years. Velindre's Professor Tom Crosby has said on air, “It's taken us ten years to get here.” Precisely, and it's taken over three years from the announcement of a New Velindre to where we are now: no building designs or architect, no agreed access, no construction contracts, no work begun. Welsh Government investment in an urgent cancer provision is fully warranted but with such little progress, and on the rim of rapid, huge post-Covid 19 expenditure, the time is ripe for an independent review.

To consider a review which may result in a changed approach is not unreasonable. On the contrary it is wise and decisive. The current proposals for access do not even have WG funding approved – in response to an [FOI request August 2020 ATISN 14204](#), WG advised: “*The Outline Business Case for the enabling [works]... is presently being reviewed by Welsh Government officials...no decision has been taken in respect of funding for the site access works.*” Actual build costs for it are shown as “awaiting competitive dialogue.”

The costs of the enabling works alone are so prohibitive that developers would not take on the project, as it doesn't promise sufficient profit unless “shovel ready”. Only then, with access done, can the MIM's proposal for financing focus “on the Velindre Cancer Centre facility.” ([WG FOI request August 2020 ref ATISN 14204](#)). However, if nVCC were located on a general hospital site, most of the claimed access £26.9m will disappear. No excavation, drainage, connection of utilities and most notably access roads and bridges (cited as costs in nVCC's letter to Petition chair). On final costs some professionals have quoted a real total of £500m. An enquiry could bring clarity to the present situation.

So even nVCC can't know the precise costs of the access works and therefore are not positioned to question our petition's figures. Equally, it's hardly fair for nVCC to query a petitioner's use of the term 'roads' instead of 'access route' as in their planning application (20/01110/MJR). The issues are frankly far more serious than that.

As for the petition supporting the new VCC, it doesn't oppose STNM's at all, but supposes its success more than we dare. It merely requests 'Support [New VCC] in any future inquiry.' However, our role in this paper is not to evaluate a petition requesting Welsh Government to show partiality during an *independent* inquiry such as ours. That is for the committee. We're concerned about issues much more serious than how two petitions relate. In the next session our clinical advisers have helped us make this clear.

### **Clinical Issues**

It's not disputed that we need a new Velindre Cancer Centre. It should offer world class, safe, sustainable services. In our region, many live in some of the most deprived areas in Europe, with poor outcomes on most health measures, including for cancer. They deserve better, they deserve

nothing but the best. We know that this can be delivered. The need for an independent clinical inquiry is therefore implicit in the petition.

### **Concerns over the Velindre care model**

There are today grave concerns over the safety and sustainability of a stand-alone cancer centre. VCC has been such for the 60 years since it was built. This means that unlike many other cancer centres of similar scope, scale and reputation it doesn't offer care for tumours of the blood, children or adolescents, cancer surgery, acute medicine (e.g. dialysis, cardiology), interventional radiology (e.g. drains, stents), endoscopy or intensive care facilities. Stand-alone centres elsewhere have encountered safety problems and been forced into reconfigurations as a result. The rebuild offers the opportunity to proactively 'future-proof' the cancer service offered to the people of SE Wales.

### **Safety for the patient**

There have been many developments in cancer care since the start of the Transforming Cancer Services (TCS) programme, and even in the three years since planning permission was granted for the new centre. Effectiveness has increased, but so has treatment toxicity. Cancer centres built in the 21st Century (such as Leeds, and Liverpool's Clatterbridge) provide integrated cancer care on acute hospital sites so patients requiring urgent surgical or medical intervention, or urgent critical care with ventilatory support, can be treated immediately rather than transferred in an ambulance to another hospital. Time is crucial in an emergency.

External reviews of other UK centres, carried out in response to safety concerns, have concluded that the safest care is provided when on the same site as a large acute hospital with a full range of medical and surgical specialities. Between May and July 2019, a Strategic Review of the Mount Vernon Cancer Centre was carried out, regarding future provision of services for a population of 2 million people.

<https://www.england.nhs.uk/east-of-england/wp-content/uploads/sites/47/2019/08/Independent-Clinical-Panel-Report.pdf>

The reviewers noted

- the increased intensity and toxicity of modern-day treatments, and the increasing age and co-morbidity of patients
- the need for comprehensive support services, including ITU, meant that some services, should relocate to a hospital with comprehensive acute services and oncology expertise on site.

In another example, staff at the Beatson Cancer Centre in Scotland alerted the General Medical Council to safety concerns when their acute services were withdrawn to a more distant hospital, leaving the Beatson as a stand-alone centre. Healthcare Improvement Scotland recommended that co-location of non-surgical oncology services with acute services, including critical care, medical and surgical specialities, should be pursued at the earliest opportunity.

[http://www.healthcareimprovementscotland.org/our\\_work/governance\\_and\\_assurance/programme\\_resources/beatson\\_enquiry\\_visit.aspx](http://www.healthcareimprovementscotland.org/our_work/governance_and_assurance/programme_resources/beatson_enquiry_visit.aspx)

[https://www.nhsggc.org.uk/media/256389/item-9-paper-no-19\\_47-moving-forward-together-update.pdf](https://www.nhsggc.org.uk/media/256389/item-9-paper-no-19_47-moving-forward-together-update.pdf)

Neither VCC nor the proposed new VCC has facilities to deal with acutely unwell patients, who are transferred to acute hospitals, usually UHW. Such transfers are said by the Trust to be required around 30 times a year, with ambulance transfer taking 'minutes'. Staff at Velindre and UHW believe that urgent transfer is much more common than this, and takes much longer to arrange and carry out. We are awaiting responses to Freedom of Information requests lodged simultaneously with Velindre NHS Trust and the Welsh Ambulance Service Trust on 24/08/2020, to determine:

- the number of 999 calls made to request urgent assistance,
- whether there were any deaths at scene prior to transfer,
- how many patients at the less acute end of the spectrum required non-emergency ambulance transfer to other hospitals for treatment or intervention not available at the Velindre site.

The Trust point to the Emergency Medical Retrieval and Transfer Service as a safeguard, although this helicopter service is based 51 miles away, and overnight it is actually a single car covering the whole of Wales. The service can't guarantee their availability to attend and treat at scene, yet the Trust suggest that this is an acceptable safety arrangement.

## **Sustainability**

Velindre cancer centre is held in high esteem in Wales. The new centre must be able to offer all modern therapies for this to remain the case. Velindre can currently recruit high quality staff and trainees. This may change in the future with the proposed clinical model. The Mount Vernon review commented specifically on the detrimental impact of transferring acutely unwell patients on staff skills, recruitment and retention (p9).

It has already been decided that CART therapy (a type of immunotherapy) can't be safely provided at Velindre. Instead it will be delivered from UHW. The inability of a new standalone cancer hospital to deliver CART will severely diminish the ability of Cardiff to attract Oncology trainees and Consultants, to the detriment of clinical cancer services in SE Wales.

The Trust states that research is a key driver for excellence, and clinicians agree. Many of the UK's best cancer researchers and facilities, including in Cardiff, are on acute hospital sites. Many clinical trials demand immediate access to critical care facilities, meaning these 'early stage' trials can't be conducted on a stand-alone site. Indeed, the current proposal acknowledges this, meaning that this work will need to be conducted away from the nVCC if it is built on a remote site. Again, this can be expected to make Velindre a less attractive place for exceptional staff to build their careers than the integrated centres elsewhere in the UK with whom they will be competing at recruitment.

## **Lack of clinical support for model**

This model lacks clinical support from within Velindre and the wider SE Wales cancer workforce.

- 19 August 2020: a letter calling for an independent clinical review of the model was sent to Minister for Health and Social Services, the Director General of NHS Wales and the Chief Medical Officer for Wales, signed by 57 senior clinicians with a high proportion of cancer care in their work from all three SE Wales Health Boards
- 2 September 2020: a letter calling for independent clinical review of the model was sent to the CEO of the Trust by 34 Consultants and senior nurses at Velindre.
- 2nd September 2020: a letter from Trainees also called for an independent clinical review

## **Velindre response to feedback and challenge**

Velindre's response to the petition describes the process of 'engagement' they have undertaken in determining that a stand-alone model is the preferred option. However, throughout the process Velindre has been resistant to challenge.

- the Trust has frequently publicly responded to calls for an independent clinical review of the model by stating that such a review been carried out in 2017 by Dr Jane Barrett, (without sharing the review's findings, conclusions or recommendations). In response to a personal approach, Dr Barrett has confirmed that in fact her review concerned the siting of a satellite radiotherapy centre, rather than a review of the model for the cancer centre itself.
- the internal letter from staff was only achieved after BMA intervention led to assurances that there would be no repercussions to staff who signed (Velindre is effectively a monopoly employer of oncologists and specialist cancer nurses in SE Wales).
- staff have been criticised in correspondence for approaching their elected representatives (Julie Morgan AM/ Anna McMorris MP) to discuss their concerns.
- individuals (not Trust employees) approaching the Trust for information about their claims that the model has been subject to independent clinical review were criticised for posting on related topics on social media without first clearing it with the Trust.

## **Conclusion**

We do need a new Cancer Centre, but not at the expense of patient safety. Cancer Care has advanced significantly since the concept and approval of the nVCC back in 2017, with more toxic treatments and a greater reliance on integrated care. Welsh Government's own Plan for Health and

Social Care 2019-20 ‘A Healthier Wales’ reminds us of the core value of NHS Wales - putting quality and safety above all else.

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/a-healthier-wales-action-plan.pdf>

An independent external review will ensure we are doing the right thing in Wales - or potentially face the same situation that is awaiting resolution at the Beatson. This would be extremely costly to rectify at a later date and would put cancer patients in Wales at a disadvantage for years to come.

Our STNM environment advisers also want a review of VCC’s site to highlight the defining crisis of our time, namely climate change.

## The Relationship of Environment to Health

The Northern Meadows are not just some local beauty spot. Today, we know green spaces such as these help to address the challenge of climate change. Since planning approval was obtained for nVCC (2017/18), the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths, published a *Climate Change Adaption Plan for Wales, Prosperity for All: A Climate Conscious Wales* in 2019. The author highlighted pivotal actions needed now, such as growing more woodlands, creating more open spaces, improving air quality, reducing erosion, protecting soil and supporting our existing ecosystems.

[https://drive.google.com/file/d/1vZ6zqedT3faA8hv\\_tedx7-yE5FG4K6YY/view](https://drive.google.com/file/d/1vZ6zqedT3faA8hv_tedx7-yE5FG4K6YY/view)

<https://www.walesonline.co.uk/news/health/air-pollution-wales-traffic-asthma-17626718>

This call aimed at nothing less than people’s wellbeing. The nVCC’s plans for the Northern Meadows, however, will destabilise a precious health asset. Habitat destruction like this violates Welsh Government Policy. Building on a space like Northern Meadows aggravates the adverse health impacts of heat exposure and raises the risk of illness, morbidity and mortality. A greater exposure to green spaces improves mental health and wellbeing while reducing stress, anxiety, depression and boosting immune systems. It also combats loneliness, while encouraging physical activity and so creating a community and social cohesion. Green spaces also reduce the risk of chronic diseases such as asthma. In addition, they’re associated with a healthier weight and therefore combat obesity-related health issues which include cancer itself. Green spaces enhance the quality of life for both children and adults, reducing hyperactivity rates and inattention, improving the working memory and motor skills to enable better behavioural outcomes. A site like the Northern Meadows is particularly beneficial to the likes of Ty Coryton and Coryton Primary School

<https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0143622818312384?via%3Dihub>

The meadows also protect from flooding <https://gov.wales/prosperity-all-climate-conscious-wales> and provide public paths. In February 2020, the Glamorganshire Canal and The Feeder caused several houses to flood. Building on the meadows and draining the excess water into The Feeder would surely increase the risk of flooding again.

Over 5000 wildlife records exist for the meadows and the many specialised habitats. This highly developed mosaic sustains the diversity of wildlife in the surrounding Forest Farm nature reserve, a wildlife integral to our healthy food systems (e.g. the role that pollinators play). The natural habitat is critical to community health and wellbeing – physical or mental. The meadows provide just such space for the 500 residents of the Hollybush estate the majority of whom live in flats with no other access to open space. They and others deserve a review of seemingly reckless plans that cut right across the Healthier Wales vision. When the diggers have finished, the so-called ‘mitigations’ are no more than sticking plasters over a decapitation. We should be increasing green spaces not reducing them.

To destroy this space when other options exist is a wilful act against public health and only an independent review of the choice of site for nVCC can give Northern Meadows the attention they warrant. For an NHS Wales Trust to countenance this act certainly merits a proper debate and an independent inquiry into whether nVCC’s project really is sound and fit for purpose.

# Eitem 6.6

P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Natasha Hamilton-Ash, ar ôl casglu cyfanswm o 11,392 lofnodion.

## Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Bydd y cynllun presennol yn gwneud yn siŵr bod Canolfan Ganser Felindre yn parhau i ddarparu gwasanaethau canser arbenigol mewn lleoliad sy'n fwy hygrych i gleifion, gyda gwell mynediad o Gyffordd 32 yr M4. Caiff ei dderbyn yn gyffredinol bod ysbytai mewn lleoliad naturiol yn cynorthwyo adferiad cleifion ac yn gostwng lefelau straen teuluoedd a staff mewn ysbytai.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Nid oes digon o le i barcio yn y lleoliad presennol ac yn aml bydd oedi cyn cael mynediad, gan achosi straen a phryder ychwanegol i gleifion. Nid oes gan Ganolfan Ganser Felindre – sy'n 60 mlwydd oed – yr adnoddau na'r lle i fodloni'r her hon ar gyfer y dyfodol.

Rydym ni eisiau lle sy'n plethu gofal meddygol â byd natur.

Yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf, bu cryn ddatblygiad ym maes effaith dyluniad pensaerniol ar Iwyddiant amgylcheddau gofal iechyd. Un enghraift yw 'pensaerniæth sy'n iachau'. Bathwyd y term 'pensaerniæth sy'n iacháu' gyntaf yn ystod y 1980au. Mae'n ddisgyblaeth benodol o'r 'amgylchedd iacháu', sy'n ymchwilio i ddylanwad yr amgylchedd ar broses iacháu ac adfer cleifion. Yn ôl ymchwil, gallai cleifion adael yr ysbyty'n gynt, ac efallai y byddai angen llai o gyffuriau i ladd poen arnyn nhw, petaen nhw

mewn ystafelloedd gyda golygfa o barc â choed. Dangosodd astudiaethau diweddarach fod ffactorau o'r fath yn bwysig nid yn unig ar gyfer llesiant cleifion a thrigolion, ond ar gyfer gweithwyr hefyd.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

**P-05-1018 Support for the current proposed plans to build a new Velindre Cancer Centre, Cardiff, in any future inquiry, Correspondence – Petitioner to Committee, 05.09.20**

**Comments regarding the Petition: Support for the current proposed plans to build a New Velindre Cancer Centre, Cardiff, in any future enquiry.**

I would like to comment that a supporter Facebook group in favour of the New VCC build in Whitchurch was set up less than two weeks ago and has had over 16600 supporters coming forward in this short time to voice their agreement in favour of this new build Cancer Centre in Whitchurch . This group is growing each day.

Whitchurch is Velindre's Home and has been for the past 63 years. The site proposed belongs to CAVHB and is not a public amenity.

The petition calling for the government to support the current proposed plans has gathered 10000 signatures to date in just a few days. It is worth noting that this petition was unable to run for the full 30 days but could only run for approximately ten days.

Nevertheless, in this short time there are almost treble the number of signatures compared to that from the campaigner's petition calling for an independent review which ran for at least thirty days ended up with far less signatures.

I think that speaks volumes in terms of support for the new VCC in Whitchurch. We all wish for the new VCC build in Whitchurch to progress quickly with no delay.

The Campaigners are calling for an independent inquiry into the choice of site for the proposed new VCC. If this petition is upheld this could delay the build. We Know there is now an urgency for the new build as the existing footprint is too small for the number of patients requiring services. (Information obtained from the Mick Button Video produced by VCC) We also know that the access to the cancer centre does cause traffic disruption for Whitchurch and causes anxiety and stress for patients attending the cancer centre. ( Feedback from our Facebook Group ) The new VCC, which is a welsh government commitment, in Whitchurch developed on the new site would increase the footprint and significantly enhance the access for patients and staff and additionally improve the traffic for Whitchurch.

One of the major benefits of the new development would be to achieve an environment of embracing health and nature.

I would also like to point out that the Petition by the campaigners calling to Hold an independent inquiry into the choice of site states:

“£30M would be spent on roads alone to access the land”

This is not true. People have signed a petition containing false information.

The figure is 26.9M and covers the cost of improving the access with two bridges, highways, bringing utilities to the site and site preparation. This information has been given out via social media and in answers to questions by VCC.

The campaigners are also calling for the model to be scrutinised claiming that a standalone cancer centre is outdated. This information has been put into the public domain by a handful of clinicians. These clinicians are speaking in opposition to their own LHBs who agree with the new VCC plan.

They refer to a report from NHS England relating to the Mount Vernon Cancer Centre that highlights specific actions and recommendations regarding failings. That certain elements of that report have been cherry picked and are being used to challenge not only the new VCC build but also the existing services provided by the cancer centre. It is extremely worrying that some of these claims are being made on the VCC Facebook group, which would cause anxiety to current patients. I have noticed nurses commenting for people to be kind.

Having read the Mount Vernon report it was identified that the problems arose from staffing issues which in turn affected training and education, which in turn affected the quality of care which was highlighted in the inspection report where improvements were required.

In respect of the VCC inspection report by Health Inspectorate Wales last year the services provided safe and effective care.

The report found no issues with staffing levels and education and training at VCC.

In addition, they refer to the Beatson Cancer Centre and a report from 2015 which highlighted concerns regarding patient's safety. This hospital is on an acute site and issues occurred regarding the management of acutely unwell patients. Again, this is not aligned to VCC.

Both the Mount Vernon report and the Beatson report indicate management failings and are not about a standalone cancer centre. Again, their petition should not be upheld calling for an independent review of VCC. Velindre Cancer Centre has never had any such problems in the last 60 Years.

The Campaigners previous suggestions of building on a brownfield site or on Whitchurch hospital also contradicts their latest objection that the hospital model type is wrong and should be questioned as that also would have been a stand-alone centre should it have been built on one of these previous suggestions. However, all the suggestions point to the same thing – that the land should not be built on in the opinion of the campaigners.

Our petition calls on the government to support and back VCC plans and to swiftly assist them to build this much needed New Cancer Centre as soon as possible on the CAVHB land in Whitchurch.

Please take the time to look on our Supporters of the New Velindre Cancer Centre in Whitchurch Facebook group and you will see that the patients and their families all hold VCC and its incredibly special staff in the highest regard. The experience of VCC whether a happy or sad outcome all praise VCC. The personal touch that is described would not be found in a larger hospital. Another theme I have noted is that the patients and their families have a sense of " we are all in this together" whilst fighting this awful disease when entering Velindre. This would not be found in a larger hospital as suggested UHW which has deemed unfit for purpose in 2019.

Healing Architecture which has been thoroughly researched has found that there are significant health benefits to patients in terms of recovery times when in surroundings with trees etc. This environment would not only benefit the patients but their families as well. To take a breath and to take in the outdoor surroundings of a beautiful garden or the wind blowing through the trees I believe would make such a difference at such moments when the effects of the treatment and the psychological impact becomes challenging.

Such an environment would also be a benefit to staff who may need to take a moment with such an emotional job.

It would also allow members of the public including the campaigners to enjoy 60 % of this area in addition with the benefit of well-maintained surroundings at one with Nature.

The patients, some of the most vulnerable in some South East Wales are unable to choose their surroundings for Chemo or Radiotherapy so this would benefit them so much. Whereas non patients can choose one of the many areas available locally such as the Glamorganshire canal, Taff trail to name but a few to walk on to help with their emotional wellbeing or they even have the choice to drive somewhere else. Patients do not.

As there will be 60 % of the meadow remaining, we will all be able to co-exist whilst providing a Cancer Centre of Excellence - with the aim to be the greenest hospital in Britain.

Please consider and uphold our petition for the Majority of South East Wales.  
1 in 3 of us will get cancer in our lifetime. Please assist VCC to move swiftly with their plans and help save multiple lives.

## Eitem 6.7

P-05-1002 Dylid rhoi seibiant treth stamp o ran pob tŷ sy'n cael ei brynu yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Paul Southard, ar ôl casglu cyfanswm o 53 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae'n annheg nad yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel gweddill y Deyrnas Unedig o ran y seibiant treth stamp a gyhoeddwyd gan y Canghellor ar 8 Gorffennaf. Ar hyn o bryd mae'r seibiant yn gymwys i brynwyr am y tro cyntaf neu i bobl sy'n symud i fyny'r ysgol eiddo yn unig yng Nghymru. Byddai o fwy o fudd i'r economi pe bai'r seibiant hwn yn gymwys i landlordiaid posibl, neu i deuluoedd sy'n awyddus i brynu cartref gwyliau, neu achosion eraill. Yn Lloegr gellir gwneud arbediad o £15,000 ond yng Nghymru yr arbediad mwyaf y gellir ei wneud yw £2,450. Pam ydyn ni yn gymydog tlawd bob amser!!!

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gwyr
- Gorllewin De Cymru

# Dylid rhoi seibiant treth stamp o ran pob tŷ sy'n cael ei brynu yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13472-1

**Rhif y ddeiseb:** P-05-1002

**Teitl y ddeiseb:** Dylid rhoi seibiant treth stamp o ran pob tŷ sy'n cael ei brynu yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'n annheg nad yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel gweddill y Deyrnas Unedig o ran y seibiant treth stamp a gyhoeddwyd gan y Canghellor ar 8 Gorffennaf. Ar hyn o bryd mae'r seibiant yn gymwys i brynwyr am y tro cyntaf neu i bobl sy'n symud i fyny'r ysgol eiddo yn unig yng Nghymru.

Byddai o fwy o fudd i'r economi pe bai'r seibiant hwn yn gymwys i landlordiaid posibl, neu i deuluoedd sy'n awyddus i brynu cartref gwyliau, neu achosion eraill. Yn Lloegr gellir gwneud arbediad o £15,000 ond yng Nghymru yr arbediad mwyaf y gellir ei wneud yw £2,450. Pam ydyn ni yn gymydog tlawd bob amser!!!



## 1. Cefndir

Ym mis Ebrill 2018, cafodd Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) ei datganoli i Gymru. Disodlwyd Treth Dir y Dreth Stamp â'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) gan Lywodraeth Cymru a hi sy'n gyfrifol am unrhyw newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.

Mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys ar gyfer prynu eiddo yng Nghymru ac mae'n cynnwys cyfraddau a bandiau treth gwahanol i Dreth Dir y Dreth Stamp a delir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfraddau a bandiau ei Threth Trafodiadau Tir ar gyfer 2020-21 yn ei chyllideb ddiweddaraf. Ym mis Chwefror 2020, cyn COVID, rhagwelwyd y byddai elfen breswyl y Dreth Trafodiadau Tir yn codi £179 miliwn yn 2020-21. Roedd y gyllideb yn nodi'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer prynu eiddo preswyl fel y dangosir isod.

**Tabl 1. Cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir preswyl ar gyfer 2020-21**

Trothwy	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 - £180,000	0 y cant
£180,001 - £250,000	3.5 y cant
£250,001 - £400,000	5 y cant
£400,001 - £750,000	7.5 y cant
£750,001 - £1.5m	10 y cant
Dros £1.5m	12 y cant

### Newidiadau i Dreth Dir y Dreth Stamp y DU

Ar 8 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Rishi Sunak, Canhellor y DU yn ei Ddatganiad Haf y byddai trafodion eiddo preswyl hyd at £500,000 yn cael eu heithrio o Dreth Dir y Dreth Stamp y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon tan 31 Mawrth 2021. Cyn hyn, roedd yr eithriad hwn yn berthnasol i drafodiadau eiddo hyd at £125,000 yn unig a byddai'n arbed cymaint â £15,000 i brynwyr pe baent yn prynu eiddo am £500,000 neu fwy.

Mae landlordiaid a phrynwyr ail gartref **hefyd yn gymwys** i gael y toriad treth ond bydd yn rhaid iddynt dalu'r 3 y cant ychwanegol o'r dreth stamp a godwyd arnynt o dan y rheolau blaenorol.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru, **fod Llywodraeth Cymru** yn codi trothwy eithrio'r Dreth Trafodiadau Tir o £180,000 i £250,000 ar gyfer trafodion eiddo preswyl yng Nghymru tan 31 Mawrth 2021.

Mae'r tabl yn dangos y cyfraddau treth dros dro newydd o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 2. Newidiadau i gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir preswyl ar gyfer 2020-21**

Trothwy	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 - £250,000	0 y cant
£250,001 - £400,000	5 y cant
£40,001 - £750,000	7.5 y cant
£750,001 - £1.5m	10 y cant
Dros £1.5m	12 y cant

**Dyweddodd y Gweinidog** y bydd y newid "yn dod i rym ar 27 Gorffennaf i gyd-fynd ag ailagor y farchnad dai yng Nghymru yn llawn".

Mae'r rhagolygon tymor canolig ar gyfer y farchnad dai yn ansicr iawn, o ran prisiau tai ac o ran nifer y gwerthiannau. Bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad yr economi ehangach, a fydd yn ei dro yn cael ei bennu gan beth sy'n digwydd o ran y pandemig a'r cyfyngiadau ar weithgarwch.

Cyn y cyhoeddiad am y newid i gyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir, roedd prisiau tai wedi dechrau gostwng ac roedd disgwyl iddynt ostwng ymhellach. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad yn y Dreth Trafodiadau Tir yn arbed £2,450 i berson sy'n prynu tŷ sy'n werth £250,000, a fydd yn gwrthbwyspo cwymp posibl mewn prisiau ac yn cynyddu'r galw.

**Dyweddodd y Gweinidog** y bydd "y trothwy newydd yn golygu na thelir unrhyw dreth ar oddeutu 80 y cant o drafodion yng Nghymru lle mae'r prif gyfraddau preswyl yn gymwys".

### Prynu ar gyfradd uwch

Yn wahanol i **Dreth Dir y Dreth Stamp**, ni fydd y newid i drothwy eithrio'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru yn gymwys i brynu eiddo ychwanegol, fel prynu i osod neu brynu ail gartrefi, ac mae'r trafodiadau hynny'n gorfod talu **treth ychwanegol, sef 3 y cant** ar ben y gyfradd bresennol ar gyfer eu gwerth a ddangosir yn Nhabl 1.

Fe wnaeth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, **nodi** y bydd y newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir yn helpu pobl sydd eisiau prynu eu cartref cyntaf neu'r rhai sy'n ceisio dringo'r ysgol eiddo. Felly bydd yn cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i'r rhai y gallai'r heriau economaidd sy'n deillio o'r pandemig effeithio arnynt.

Hefyd **dywedodd** y Gweinidog:

Drwy bennu'r cyfraddau hyn ar gyfer Cymru, rwyf hefyd yn gallu cadarnhau y bydd £30m ar gael i gefnogi'r gwaith o adeiladu cartrefi cymdeithasol newydd, a thrwy hynny greu swyddi y mae gwir angen amdanynt.

### Senarios treth

Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi **ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir** sy'n nodi'r dreth sy'n ddyledus yn ôl band treth preswyl ar drafodion prydlesi preswyl a phrynu eiddo. Drwy gymryd dwy ran o dair o gyfanswm treth 2019-20 sy'n ddyledus ar brynu eiddo preswyl dros £180,000, ac eithrio'r pryniannau sy'n cael eu codi ar y gyfradd uwch, **rydym wedi amcangyfrif bod y dreth sy'n ymwneud â'r band rhwng £180,000 a £250,000 dros 8 mis yn debygol o fod oddeutu £20 miliwn**. Gwnaed y cyfrifiad syml hwn gan fod yr amrywiad treth dros dro ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2021 yn rhychwantu wyth mis.

Mae'r tabl yn dangos dadansoddiad sensitifrydd sy'n rhoi rhai ystodau ar gyfer y golled bosibl o ran refeniw y Dreth Trafodiadau Tir sy'n deillio o'r amrywiad dros dro i'r prif gyfraddau treth ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl. Mae'r tabl yn rhagweld y golled o ran refeniw yn seiliedig ar ddata Treth Trafodiadau Tir 2019-20 a

hefyd yn cyfrif am amrywiad o ran trafodiadau eiddo preswyl o  
ganlyniad i'r newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir.

**Tabl 3. Senarios o ran colledion refeniw y Dreth Trafodiadau Tir  
ar gyfer prif bryniannau preswyl**

Canran y newid mewn trafodiadau eiddo preswyl â gwerth dros £180,000	-10 y cant	0 y cant	10 y cant	20 y cant
Cyfanswm y golled treth (£m)	18.5	20.5	22.6	24.6

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil gan ddefnyddio data  
Awdurdod Cyllid Cymru

Fel y dangosir yn y tabl uchod, er bod y rhagolygon yn ansicr, gan  
ganiatáu ar gyfer rhychwant mewn trafodiadau eiddo o'r gwerth hwn  
rhwng -10 y cant a +20 y cant, gallai swm yr incwm a ildiwyd gan y  
newid hwn i gyfraddau treth fod rywle rhwng £18 miliwn a £25  
miliwn.

Mae tabl 4 yn cynnwys refeniw treth a gollir pe bai'r cynnydd yn  
nhrothwy eithrio'r dreth yn gymwys i brif bryniannau eiddo preswyl  
a phryniannau cyfradd uwch ar gyfer eiddo fel ail gartrefi. Fel y  
gwelir, **gallai Llywodraeth Cymru fynd i golled ychwanegol o £6  
miliwn i £8 miliwn o ran refeniw y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer  
pryniannau cyfradd uwch yn seiliedig ar ddata o'r llynedd.** Gallai  
gostyngiad o 10 y cant mewn trafodiadau eiddo arwain at golled  
gyffredinol o oddeutu £24 miliwn, a gallai cynnydd o 20 y cant  
arwain at golled o oddeutu £32 miliwn.

**Tabl 4. Senarios o ran colledion refeniw y Dreth Trafodiadau Tir  
ar gyfer prif bryniannau preswyl a phryniannau cyfradd uwch**

Canran y newid mewn trafodiadau eiddo preswyl â gwerth dros £180,000	-10 cant	0 cant	10 cant	20 cant
Cyfanswm y golled treth (£m)	24.3	27	29.7	32.4

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil gan ddefnyddio data Awdurdod Cyllid Cymru

Nid yw'r tablau hyn yn cyfrif am y posibilrwydd o naill ai llai o alw oherwydd y pandemig a dirwasgiad neu'r posibilrwydd o unrhyw gynnydd oherwydd galw cudd neu drafodiadau oedd wedi'u gohorio yn cael eu cwblhau.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Er mwyn newid cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir, cafodd Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 eu gwneud gan Lywodraeth Cymru ar 22 Gorffennaf 2020 a'u gosod gerbron y Senedd ar 24 Gorffennaf 2020.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau drwy weithdrefn gadarnhaol o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Ar 22 Gorffennaf 2020, fe wnaeth Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ysgrifennu at Lywydd y Senedd yn nodi'r newidiadau i drothwy y Dreth Trafodiadau Tir a'i bwriad i gynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau ar 29 Medi 2020.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref RE/00608/20

Janet Finch-Saunders MS  
Member of the Senedd  
Senedd Cymru  
Cardiff  
CF99 1SN  
Janet.FinchSaunders@assembly.wales

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

11 August 2020

Dear Janet.

Thank you for your letter about the petition relating to the land transaction tax (LTT).

The petition suggests that the temporary changes to LTT in Wales should match the changes to Stamp Duty Land Tax in England, and specifically that we should match the reduction for second home and buy-to-let purchases.

The property market in Wales is different from that in England, with the average house price in Wales (£162,000) lower than the English average price (£248,000). Before any tax changes were made in July, the LTT starting threshold of £180,000 meant that Wales was the only country in the UK with a starting threshold for paying tax that was higher than the average house price. It also meant that around 60% of homebuyers liable to the main rates of LTT paid no tax on their purchase.

Since 27 July, the LTT residential threshold has been temporarily increased to £250,000. This will increase the number of homebuyers who pay no tax to around 80%. This temporary change to LTT applies only to the purchases of main residences until 31 March 2021.

Careful consideration was given to the timing and scope of these changes. The temporary threshold adjustment is intended to encourage transactions in the housing market this year by homebuyers. The temporary tax reduction does not apply to transactions that are subject to the LTT residential property higher rates. The decision was to target the tax savings to those buying their main residence, and not those investing in buy-to-let, second or holiday homes in Wales.

The devolution of this and other taxes, has allowed the Welsh Government greater flexibility to introduce tax policies which are more reflective of the social and economic conditions of Wales. By taking a more targeted and measured approach in Wales with the changes to LTT, the Welsh Government is also able to allocate £30 million to the Social Housing Programme. This will provide support to a range of activities that will boost construction

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

within the social housing sector, which will in turn help to provide homes to people who are some of the most in need in our society.

I understand the frustration of those who will not benefit from the tax reduction in Wales. I also understand those who believe there may be economic benefit from not charging tax on other residential property purchases. The SDLT reductions will have greatest impact where prices are highest, such as in London and the south east of England. If a similarly high threshold was to be applied with LTT, then this would provide a sizeable reduction or remove from tax some of the most expensive home purchases in Wales. This reduction of tax would then be at the expense of being able to fund other measures, such as the boost to social housing funding.

Instead, the Welsh Government's approach removes tax for around 80% of homebuyers in Wales, and a reduction for the remaining 20% easing some of the costs of buying a home whilst also providing a direct stimulus to the Welsh economy from increasing the provision of much needed social housing.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans".

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

**P-05-1002 Apply stamp duty holiday to all house purchases in Wales,  
Correspondence – Petitioner to Committee , 08.09.20**

Thank you for the reply.

I still don't agree and feel that a boost to the economy would be to get the housing market moving

## Eitem 6.8

P-05-1003 Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cian Ciaran, ar ôl casglu cyfanswm o 10,689 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sy'n llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn perthynas ac ansicrwydd, a sicrhau bod Asesiad llawn o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal cyn bod modd gwaredu unrhyw waddod pellach o orsaf pŵer niwclear Hinkley Point yn Cardiff Grounds.

Peidiwch â gadael i Lywodraeth Cymru dorri ei chyfraith ei hun!

### Gwybodaeth Ychwanegol

Rhaid i'r asesiad o'r effaith amgylcheddol ddarparu

Data sylfaenol manwl am ymddygiad a thynged deunydd sy'n cael ei waredu yn Cardiff Grounds;

Dadansoddiad radiolegol llawn, gan gynnwys allyrru gronynnau alffa;

Asesiad manwl a chyfoes o effeithiau radiolegol posibl ar boblogaeth de Cymru;

Rheoli llygryddon niwclear ar y tir yn hytrach na'u gwasgaru ar y môr;

Parchu cytundebau ynghylch gwaredu morol;

Gwarchod Afon Hafren.

Rydym hefyd yn galw ar y Senedd nad oes buddiannau niwclear yn dylanwadu ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

# Gwaredu gwaddod Hinkley ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Medi 2020  
Petitions Committee | 15 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13473

Rhif y Ddeiseb: P-05-1003

**Teitl y ddeiseb:** Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru.

## Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sy'n llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn perthynas ac ansicrwydd, a sicrhau bod Asesiad llawn o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal cyn bod modd gwaredu unrhyw waddod pellach o orsaf pŵer niwclear Hinkley Point yn Cardiff Grounds.

Peidiwch â gadael i Lywodraeth Cymru dorri ei chyfraith ei hun!

## 1. Cefndir

Mae EDF Energy yn bwriadu cyflwyno cais am drwydded forol newydd i'w alluogi



waredu gwaddod morol sydd wedi'i garthu o Fôr Hafren i mewn i safle gwaredu dynodedig sefydledig (Cardiff Grounds) oddi ar arfordir Caerdydd, De Cymru. Ffynhonnell y gwaddod morol yw blaendraeth Gwlad yr Haf yn Lloegr, rhan o safle adeiladu gorsaf bŵer Hinkley Point C.

Cyn hyn, bu EDF yn carthu a chael gwared ar waddod yn 2018 ac erbyn hyn, mae'n cynllunio gwaith pellach ar y safle yn gynnar yn 2021 er mwyn carthu a chael gwared ar  $600,000\text{m}^3$  arall. Cyn y gall EDF gael gwared ar y gwaddod yn Cardiff Grounds, bydd angen cynllun samplu gwaddod a thrwydded forol wedi'i chymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Nturiol Cymru ac EDF wedi cychwyn ar drafodaethau cyn cyflwyno cais, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi cyngor cyn cyflwyno cais i EDF.

## 1.1. Samplu gwaddod

Bydd yn ofynnol i EDF gynnal asesiad cemegol a radiolegol o'r gwaddod yn y lleoliadau carthu, i ddarganfod a yw'n addas i'w waredu yn y môr.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedyn yn penderfynu a yw nifer, lleoliad a dyfnder y samplau a gymerir, yr hyn sy'n cael ei fesur a sut y bydd EDF yn profi'r gwaddod, yn cydymffurfio â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol o dan Confensiwn OSPAR a gweithdrefn a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol.

## 1.2. Trwyddedau morol

Bydd angen tair trwydded forol benodol ar EDF at ddibenion gweithgareddau yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

Mae angen dwy drwydded gan y Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr. Yn gyntaf, er mwyn casglu samplau ar y safleoedd carthu yn Hinkley Point C. Bydd y samplau gwaddod hyn wedyn yn cael eu profi'n annibynnol am ddeunydd cemegol a radiolegol gan Ganolfan Gwyddor yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu. Mae'r ail drwydded forol ar gyfer cynnal y broses o garthu'r gwaddod, os bernir ei fod yn ddiogel i'w waredu yn y môr yn dilyn profion.

At hynny, mae angen i EDF gael trwydded forol oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru i waredu'r gwaddod yn nyfroedd Cymru. Bydd y cais yn cynnwys canlyniadau'r profion gwaddod.

## 1.3. Amserlen

Mae gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi amserlen y broses o wneud cais:

- Mehefin 2020 - Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu ei gyngor i EDF ynghylch cynnwys y cynllun a chydymffurfiaeth â chanllawiau rhyngwladol;
- Awst 2020 - disgwyl cyflwyno cynllun samplo terfynol ar gyfer ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Awst / Medi 2020 - EDF yn cyflwyno cais am farn sgrinio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr angen am AEA i gefnogi cais am drwydded forol yn y dyfodol ar gyfer gwaredu gwaddod morol yn Cardiff Grounds;
- 2020 - cyflwyno cais EDF am drwydded forol ar gyfer gwaredu â'r gwaddod yn Cardiff Grounds;
- 2020 - ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y cais am drwydded forol; a
- Gaeaf 2020/21 - dyddiad posibl ar gyfer y penderfyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y cais am drwydded forol.

## 1.4. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl cael cais gan EDF i ystyried a fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Gelwir hyn yn Gais am Farn Sgrinio. Ar ôl ei gael, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n asesu cais EDF yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, o ran a yw'r prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyhoeddi'r cais gan EDF a'i benderfyniad (y Farn Sgrinio) ar ei gofrestr gyhoeddus. Bydd y cam hwn yn llywio cais am drwydded forol EDF.

Gwybodaeth bellach yn egluro bod y broses sgrinio ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ôl gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

Rydym am dawelu meddyliau pobl bod pob cais am drwyddedau morol, boed AEA ai peidio, yn cael ei asesu'n drwyndl i ddiogelu pobl a'r amgylchedd, ac i osgoi ymyrryd â defnyddiau cyfreithlon eraill o'r môr yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).

## 1.5. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Roedd y camau blaenorol a gymerwyd i waredu geaddod yn ddadleuol. O ran y cynigion newydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n dweud:

Rydym yn deall yr achosodd y gwaith gwaredu blaenorol yn 2018 grym bryder i'r cyhoedd ac rydym am hysbysu, cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl wrth inni asesu a ellir cynnal y gwaith gwaredu. Rydym hefyd yn deall bod EDF yn bwriadu ymgymryd â'i gyfathrebu ac ymgysylltu ei hun.

Dechreuon ni'r ymgysylltu ag ymgynghoriad chwe wythnos (5 Chwefror 2020 - 18 Mawrth 2020) i ddarparu cyfle i bobl wneud sylwadau ar gynllun samplu arfaethedig EDF.

Fel y nodwyd yn yr amserlen uchod, disgwyli'r ymgynghoriad pellach ar y cais am drwydded forol ei hun yn ddiweddarach eleni.

## 1.6. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n gwneud hynny yng nghyd-destun 'ansicrwydd'. Nid yw Deddf yr Amgylchedd yn cyfeirio'n benodol at Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'r cyfeiriad at ansicrwydd yn y Ddeddf yn ymwneud â Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol.

Caiff adnoddau naturiol eu rhestru yn y Ddeddf fel a ganlyn:

- (a) anifeiliaid, planhigion ac organeddau eraill;
- (b) yr aer, dŵr a phridd;
- (c) mwynau;
- (ch) nodweddion a phrosesau daearegol;
- (d) nodweddion ffisiograffigol;

(dd) nodweddion a phrosesau hinsoddol.

Caiff Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol ei ddiffinio yn y Ddeddf fel a ganlyn:

(a) defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan yn is-adran (2), (b) cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan hwnnw, ac (c) peidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawni'r amcan hwnnw.

At hynny, mae'r Ddeddf yn amlinellu egwyddorion ar gyfer Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys 'ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu dystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch'.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Deisebau mewn ymateb i'r ddeiseb ar 10 Awst 2020. Mae'r llythyr yn nodi fel a ganlyn:

Mae Tîm Trwyddedu Morol (MLT) Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu ac yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau morol, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn sefydlu y broses gyfreithiol y mae'n rhaid ei dilyn gan unrhyw berson sy'n dymuno gwneud cais am drwydded forol, a'r materion y mae'n rhaid i'r MLT eu hystyried wrth asesu unrhyw gais, cyn penderfynu, gan gynnwys yr angen i ddiogelu'r amgylchedd morol a iechyd dynol.

Mae'r broses drwyddedu morol yn un o'r prif ddulliau o sicrhau bod dyfroedd Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Caiff y broses ei harwain gan dystiolaeth, ac yn ôl ei natur mae'n cefnogi'n llawn ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, gan ddiogelu ecosystemau morol a sicrhau nad yw gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael effaith sylweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau a ddiogelir. [...]

I gefnogi'r broses trwyddedu morol ceir cyfres o ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r amgylchedd morol, y mae'n rhaid i'r MLT gydymffurfio â hi hefyd [...] mae hyn yn cynnwys yr angen i ystyried a oes angen Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) i gefnogi cais am drwydded forol.

Mae'r gofyniad am EIA wedi'i amlinellu mewn deddfwriaeth drwy'r Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (fel y'i diwygiwyd. [...] Mae, felly, yn fater rheoleiddiol i'r MLT, mewn ymgynghoriad â'i arbenigwyr mewnol ac allanol, gan ystyried gofynion cyfreithiol y Rheoliadau EIA, i benderfynu a yw gwaredu gwaddod wedi'i garthu yn y môr yn golygu bod angen EIA.

Aiff y Gweinidog ymlaen i ddweud, pe bai'r Tîm Trwyddedu Morol yn penderfynu bod angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig, bydd yr Tîm Trwyddedu Morol yn cynghori EDF Energy ar gwmpas yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion fel y'u nodir yn y Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Nododd hefyd:

... mae'n bwysig nodi nad yw peidio â chynnal EIA yn golygu na fydd asesiad llawn a thrylwyr yn cael ei gynnal drwy wneud cais. Hoffem roi sicrwydd ichi, os oes angen EIA neu beidio, mae gweithdrefnau cadarn mewn llaw i sicrhau fod pob gwaddod sy'n cael ei waredu yn y môr o dan delerau'r drwydded forol yn cael ei asesu'n llawn i sicrhau na fydd yn achosi unrhyw niwed i'r amgylchedd neu iechyd dynol.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn 2017 a 2018 rhoddodd y Pwyllgor Deisebau ystyriaeth fanwl i ddeiseb yn ymwneud â cham cyntaf gwaredu gwaddod o safle Hinkley. Cyhoeddodd y Pwyllgor drosolwg o'i ystyriaeth a chrynodeb o'r dystiolaeth ym mis Mai 2018. Cafodd yr adroddiad ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mai 2018.

Bu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn ystyried y mater hefyd. Gofynnodd y Pwyllgor i Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i gynnal o ran y drwydded forol hon ac os nad oedd, pam felly. Roedd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi na ofynnwyd am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o'r gweithgarwch penodol hwn, er y cynhaliwyd asesiad o'r fath wrth ddatblygu Hinkley Point C at ei gilydd, yn gyffredinol. Eglurodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y penderfyniad wedi'i wneud gan Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru, a oedd yn gyfrifol am weinyddu'r system drwyddedu morol ar yr adeg y daeth y ceisiadau i law:

"Significant progress had been made on both applications when they were transferred to NRW on vesting day (1 April 2013), when NRW was

delegated the Welsh Marine Licencing function on behalf of Welsh Ministers

We understand that the Welsh Government, as appropriate authority, took the decision that it was not necessary to determine this application under the Environmental Impact Assessment process. We therefore, in good faith, continued the determination of the marine licence application on that basis. When NRW issued the marine licence in July 2014 we were satisfied that a robust process had been followed to ensure that the licence fulfilled its requirements of preventing pollution of the environment, harm to human health or impact to legitimate users of the sea."

Ar 4 Mawrth 2020, cafodd y mater ei drafod yn y Cyfarfod Llawn mewn cwestiynau llafar i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Ar 10 Hydref 2018 bu'r Senedd yn trafod Cynnig Heb Ddyddiad Trafod ar waredu deunyddiau a garthwyd o Fôr Hafren.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Neil McEvoy AS ar 3 Hydref 2018, nododd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, y broses ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol:

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i amlinellu proses yr asesiad o'r effaith amgylcheddol unwaith eto. Pwynt allweddol i'w nodi yw nad yw diffyg asesiad o'r effaith amgylcheddol yn golygu na wnaed asesiad amgylcheddol llawn a thrylwyr. Cynhaliwyd asesiad radiolegol, fe'i cefnogwyd gan arbenigwyr, yn ogystal â'r asesiadau amgylcheddol ac iechyd dynol ehangach sydd eu hangen ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch trwydded forol. Cynhaliwyd asesiad radiolegol, fe'i cefnogwyd gan arbenigwyr, yn ogystal â'r asesiadau amgylcheddol ac iechyd dynol ehangach sydd eu hangen ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch trwydded forol.

Y gwahaniaeth rhwng prosiectau gydag asesiad o'r effaith amgylcheddol a phrosiectau heb asesiad o'r effaith amgylcheddol yw'r cyfnod o amser ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd: 28 diwrnod heb asesiad o'r effaith amgylcheddol, ac mae'n cynyddu i 42 diwrnod ar gyfer ceisiadau gydag asesiadau o'r effaith amgylcheddol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

Anfonwyd drwy e-bost

3 Awst 2020

Ein cyf: SN/ME/CX20-153/5075-030820

Eich cyf:

Plas yr Afon  
Parc Busnes Llaneirwg  
Ffordd Fortran  
Llaneirwg  
Caerdydd  
CF3 0EY

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ynghylch Deiseb 'P-05-1003: Demand an EIA now on the dumping of radioactively contaminated mud in Welsh waters'. Trosglwyddwyd hwn i mi gan Claire Pillman er mwyn i mi eich ateb.

Wrth weinyddu a phenderfynu ar geisiadau am drwyddedau morol ar ran Gweinidogion Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cynnal asesiadau trylwyr ar bob cais yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a, phan fo'n briodol, Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Alltraeth 2017. Felly, mae'n bwysig cydnabod bod ceisiadau nad oes angen AEA arnynt yn dal yn destun gwaith asesu cadarn yn seiliiedig ar dystiolaeth a chyngor arbenigol, sy'n galluogi ystyriaeth lawn o'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd morol, defnyddwyr moroedd eraill ac iechyd pobl.

Gyda golwg ar y ddeiseb; nid yw CNC wedi derbyn cais am drwydded forol gan EDF Energy eto, ynghylch gwaredu deunydd wedi'i garthu o Fôr Hafren i safle gwaredu sefydledig, dynodedig (Cardiff Grounds) oddi ar arfordir Caerdydd, De Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym ar ddeall y bydd EDF Energy yn gofyn am Farn Sgrinio AEA gennym yn fuan (noder nad cais yw hwn). Fodd bynnag, yr ymgeisydd sy'n dewis yr amserlen ar gyfer gofyn am hyn. Ar ôl derbyn cais EDF am Farn Gwmpasu, byddwn yn ei asesu'n unol â Rheoliadau Gwaith Morol (AEA) 2017 ac yn ystyried a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar y gweithgarwch gwaredu. Unwaith y byddwn wedi darparu Barn Sgrinio i EDF Energy, byddwn yn cyhoeddi cais yr ymgeisydd a'n penderfyniad (y Farn Sgrinio) ar ein cofrestr gyhoeddus. Bydd hyn yn llywio cais EDF Energy am drwydded forol, yr ydym yn rhagweld y byddwn yn ei dderbyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

O ran y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y deisebydd ynglŷn â'r hyn y dylai AEA ei ystyried, fel y nodwyd uchod, wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu ar ran Gweinidogion Cymru, bydd CNC yn ystyried gofynion Rheoliadau Gwaith Morol (AEA) 2017. Byddem yn cynnig y sylwadau canlynol mewn perthynas ag elfennau o'r ddeiseb:

- "*Detailed baseline data on the behaviour and fate of material dumped at Cardiff Grounds*:

Mae hyn y tu hwnt i gwmpas Rheoliadau Gwaith Morol (AEA) 2017 a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae Cardiff Grounds yn safle gwaredu cynaliadwy sydd wedi bod yn gweithredu ers y 1980au. Mae yna dair trwydded forol sydd ar hyn o bryd yn galluogi gwaredu deunydd wedi'i garthu ar y safle o borthladdoedd/harbwrws De Cymru i gynnal llwybrau mordwyo diogel ac mae hyn yn

digwydd yn rheolaidd. Mae ein safbwyt yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol sydd ar gael i ni, sy'n cynnwys ffurflenni gwaredu rheolaidd a ddarperir gan ddeiliaid trwyddedau, ac adroddiad ymchwil a gynhyrchwyd gan Cefas ar gyfer Llywodraeth Cymru o'r enw "Welsh Disposal Site Review C6268U" (Mawrth 2020). Mae hwn yn datgan bod deunydd a waredir ar y safle yn wasgarog o ran ei natur gan fod Aber Afon Hafren, yn naturiol, yn ddynamig iawn.

- "*Full radiological analysis including detection of alpha-emitting particles*":

Ar 10 Mehefin 2020, darparodd CNC [gyngor cyn ymgeisio](#) i EDF Energy ar ei gynllun samplu arfaethedig. Roedd ein cyngor yn cynnwys 17 o argymhellion a fydd yn sicrhau bod y cynllun samplu yn esbonio sut y bydd gofynion y canllawiau a'r gweithdrefnau samplu sydd wedi'u cytuno'n rhyngwladol yn cael eu cyflawni. Bydd angen i EDF Energy roi sylw i'r holl argymhellion cyn cyflwyno ei gynllun samplu terfynol i Cyfoeth Naturiol Cymru i ni ei gymeradwyo. Rydym ni ar ddeall y bydd hwn yn cael ei gyflwyno i ni ym mis Awst 2020.

- "*A detailed and up-to-date assessment of potential radiological impacts on the population of south Wales*":

Fel y nodwyd yn ein cyngor cyn ymgeisio, mae hyn y tu hwnt i gylch gwaith CNC a'r tu hwnt i gwmpas Rheoliadau Gwaith Morol (AEA) 2017 a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Bydd ein proses benderfynu yn sicrhau ein bod yn rhoi trwyddedau ar gyfer deunydd sy'n ddiogel i'w waredu yn unig, a hynny yn dilyn asesiad trylwyr o'r dystiolaeth sy'n ategu'r cais.

- "*Containing nuclear pollutants on land rather than dispersing them at Sea*":

Fel y nodir uchod, bydd ein proses benderfynu yn sicrhau ein bod yn rhoi trwyddedau ar gyfer deunydd sy'n ddiogel i'w waredu yn unig, a hynny yn dilyn asesiad trylwyr o'r dystiolaeth sy'n ategu'r cais.

- "*Respecting international agreements on marine dumping*":

Mae'r gwaith o drwyddedu gweithrediadau gwaredu yn nyfroedd Cymru yn cael ei wneud yn unol â'r canllawiau a'r safonau mewnol derbyniedig, gan gynnwys Confensiwn OSPAR a'r Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol (IAEA). Mae canllawiau OSPAR ar reoli deunydd wedi'i garthu yn y môr yn ymdrin â nodweddion ffisegol, cemegol a biolegol gwaddod. Ar gyfer asesiadau radiolegol, mae hyn yn dilyn gweithdrefnau a ddatblygwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â Chonfensiwn Llundain yn 2003, 2004, 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein dogfen cyngor cyn ymgeisio:

<https://publicregister.naturalresources.wales/Search/Download?RecordId=32304>

- "*Protecting the Severn Estuary*":

Mae CNC yn cydymffurfio â chyfraith ddomestig a rhyngwladol wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu. Mae pob cais am drwydded forol yn cael ei phenderfynu yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a, phan fo'n briodol, Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Alltraeth 2017.


Bydd ein proses benderfynu yn sicrhau ein bod yn rhoi trwyddedau ar gyfer deunydd sy'n ddiogel i'w waredu yn unig, a hynny yn dilyn asesiad trylwyr o'r dystiolaeth sy'n ategu'r cais. Byddai cais am drwydded forol o fewn Aber Afon Hafren hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad

Rheoliadau Cynefinoedd mewn perthynas â Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren (Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar ei nodweddion.

Rydym yn hapus i gysylltu â'r Pwyllgor Deisebau wrth i'r mater hwn ddatblygu. Rydym hefyd yn cynnal datganiad sefyllfa o'r wybodaeth ddiweddaraf drwy'r dudalen we benodol ganlynol:

<https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/statements/marine-licence-to-dispose-dredged-material-off-the-coast-of-south-wales/?lang=cy>

Yn gywir,



**MICHAEL EVANS**  
**Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru**

Ffôn/Tel [REDACTED]

Ebost/Email [REDACTED]

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg  
Correspondence welcomed in Welsh and English

<https://cyfoethnaturiolcymru.sharepoint.com/teams/manbus/ManagingRegionsAndGroups/ops-scmt/Correspondence LTD/AM's & MP's/2020/5075 Janet Finch-Saunders MS - Dumping of radioactively contaminated mud in Welsh waters .doc>

**Cyfoeth Naturiol Cymru**  
Plas-yr-Afon, Parc Busnes Llaneirwg, Llaneirwg, Caerdydd,  
CF3 0EY

**Natural Resources Wales**  
Rivers House, St Mellons Business Park, St Mellons, Cardiff,  
CF3 0EY



Eich cyf/Your ref P-05-1003  
Ein cyf/Our ref LG/01902/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

10 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf, ynghylch datblygiad Hinkley Point C a deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynnu Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd.

Mae Tîm Trwyddedu Morol (MLT) Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu ac yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau morol, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn sefydlu y broses gyfreithiol y mae'n rhaid ei dilyn gan unrhyw berson sy'n dymuno gwneud cais am drwydded forol, a'r materion y mae'n rhaid i'r MLT eu hystyried wrth asesu unrhyw gais, cyn penderfynu, gan gynnwys yr angen i ddiogelu'r amgylchedd morol a iechyd dynol.

Mae'r broses drwyddedu morol yn un o'r prif ddulliau o sicrhau bod dyfroedd Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Caiff y broses ei harwain gan dystiolaeth, ac yn ôl ei natur mae'n cefnogi'n llawn ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, gan ddiogelu ecosystemau morol a sicrhau nad yw gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael effaith sylweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau a ddiogelir. Caiff trwydded forol i gael gwared ar waddod yn y môr ond ei chymeradwyo pan ddaw yr MLT i'r casgliad bod y dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais yn dangos bod y gwaddod yn ddiogel ac yn addas i'w waredu yn y môr.

I gefnogi'r broses trwyddedu morol ceir cyfres o ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r amgylchedd morol, y mae'n rhaid i'r MLT gydymffurfio â hi hefyd cyn penderfynu ar gais, ac mae hyn yn cynnwys yr angen i ystyried a oes angen Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) i gefnogi cais am drwydded forol.

Mae'r gofyniad am EIA wedi'i amlinellu mewn deddfwriaeth drwy'r Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (fel y'i diwygiwyd) (Rheoliadau EIA). Caiff CNC ei ddiffinio fel yr Awdurdod Priodol a'r Rheoleiddiwr o dan y rheoliadau hyn. Mae, felly, yn fater rheoleiddiol i'r MLT, mewn ymgynghoriad â'i arbenigwyr mewnol ac allanol, gan ystyried gofynion cyfreithiol y Rheoliadau EIA, i benderfynu a yw gwaredu gwaddod wedi'i garthu yn y môr yn golygu bod angen EIA.

Mae'r Rheoliadau EIA wedi'u llunio er mwyn rheoli digwyddiadau o bwys yn yr amgylchedd. Nid yw pob prosiect yn galw am EIA. Mae Atodlen A1 y Rheoliadau EIA yn rhestru'r prosiectau hynny y mae'n rhaid cael EIA ar eu cyfer, ac mae Atodlen A2 yn rhestru'r prosiectau hynny y gall yr MLT eu penderfynu fesul achos, fel yr Awdurdod Priodol. Wedi ymgynghori gyda'i arbenigwyr, pe byddai'r MLT yn penderfynu bod angen EIA ar gyfer y gweithgarwch arfaethedig, byddai yr MLT yn rhoi cyngor i ynni EDF ar gwmpas yr EIA, sy'n gorfol cydymffurfio gyda'r gofynion sydd wedi'u hamlinellu yn y Rheoliadau EIA.

Ar ben yr uchod, mae'n bwysig nodi nad yw peidio â chynnal EIA yn golygu na fydd asesiad llawn a thrylwyr yn cael ei gynnal drwy wneud cais. Hoffem roi sicrwydd ichi, os oes angen EIA neu beidio, mae gweithdrefnau cadarn mewn llaw i sicrhau fod pob gwaddod sy'n cael ei waredu yn y môr o dan delerau'r drwydded forol yn cael ei asesu'n llawn i sicrhau na fydd yn achosi unrhyw niwed i'r amgylchedd neu iechyd dynol.

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio DNS arfaethedig a derbynol wedi'i chynnwys ar y wefan ganlynol: <https://dns.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/>. Os oes gan y deisebydd ddiddordeb mewn ceisiad penodol, mae'r wefan yn cynnwys cyfarwyddiadau sy'n caniatáu i unigolion dderbyn diweddariadau e-bost am y cais, gan gynnwys pan fydd cais yn cael ei gyflwyno, ei dderbyn a phan fydd yr ymgynghoriad yn cychwyn, er mwyn galluogi cyfranogiad yn ystod y cam priodol.

Yr eiddoch yn gywir,



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

**P-05-984 Provide key-worker childcare equivalent to what was available prior to the Covid-19 pandemic, Correspondence – Petitioner to Committee, 07.09.20**

Dear Committee,

Thank you for providing me with this information and the correspondence from the Minister to the Committee.

I am pleased to hear that the timescales for consultations can be extended at the DNS application stage. Given the potential impact that such large scale developments could have on communities (in this case a large scale commercial incinerator), I should be grateful if I could be provided with the criteria for what would allow such an extension to be granted? I realise that every case may be different, but the concern my residents have about not being able to fully engage in a remote consultation for such a highly technical and emotive potential development, is significant.

I really appreciate the Committee's further consideration of this matter.

Kind regards,

Amanda

## P-05-985 Darparu gofal plant i weithiwr allweddol sy'n cyfateb i'r hyn a oedd ar gael cyn pandemig Covid-19

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Adam Calcutt, ar ôl casglu cyfanswm o 719 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, wedi cyhoeddi y bwriedir ailagor ysgolion ar 29 Mehefin. O ddydd Llun 22 Mehefin, bydd oriau agor ysgolion hyb sy'n darparu gofal plant i blant gweithwyr allweddol yn cael eu lleihau, mewn rhai ardaloedd, o 0800 – 1800 i 0830 – 1600. Bydd hyn yn cosbi gweithwyr allweddol nad ydynt yn gallu cael mynediad at y lefelau o ofal plant a oedd ar gael cyn pandemig Covid-19; ni fydd gweithwyr allweddol yn gallu cyflawni eu horiau gwaith arferol gan arwain at effaith niweidiol ar wasanaethau hanfodol.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Ar ôl darparu gwasanaeth gofal i blant gweithwyr allweddol rhwng 8.00 a 18.00, mae methiant Senedd Cymru i ddarparu trefniadau pellach ar gyfer gofal plant o fewn yr oriau hyn, neu o leiaf cyfwerth â'r oriau o ofal a ddarparwyd mewn ysgolion unigol yn union cyn argyfwng Covid-19, yn cosbi gweithwyr allweddol sy'n gweithio'n galed. Heb ymdrech, ymroddiad ac aberth aruthrol y gweithwyr allweddol hyn i gynnal gwasanaethau hanfodol drwy'r pandemig byddai'r effeithiau ar y cyhoedd yn gyffredinol a chenedl falch Cymru wedi arwain at fwy fyth o farwolaethau, caledi arswydus ac amddifadedd o'r fath a fyddai wedi ac a allai achosi goblygiadau difrifol o hyd i'n cenedlaethau i ddod. Dylai mynediad at y lefel o ofal plant a oedd ar gael o'r blaen, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol ar lefel y gost a dalwyd gan rieni cyn Covid-19, fod yn gynnig sylfaenol.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru



Eich cyf/Your ref Petition P-05-985  
Ein cyf/Our ref KW/04439/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

13 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Awst ynghylch deiseb P-05-985-darparu gofal plant allweddol sy'n cyfateb i'r hyn a oedd ar gael cyn pandemig Covid-19. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i rannu mwy o wybodaeth â'r Pwyllgor Deisebau ar y mater hwn.

Wrth ystyried y ddeiseb, a'r ohebiaeth gan y deisebydd, ynglŷn â'r ddarpariaeth haf sydd ar gael i blant gweithwyr allweddol a'r profiad personol a gawsant yn ystod y pandemig, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor Deisebau fy mod wedi cael fy arwain gan y [cyngor a'r argymhellion gwyddonol a thechnegol diweddaraf](#) gan y Gell Cyngor Technegol i Lywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig.

Yn fy rôl fel y Gweinidog dros Addysg, pan benderfynais rhoi cyfle i ddysgwyr 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf' yn ystod pedair wythnos olaf tymor yr haf, cafodd hyn ei wneud mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol ac undebau'r athrawon. Ein cynnig oedd i athrawon weithio un wythnos ychwanegol, sef y bedwaredd wythnos ym mis Gorffennaf, a chael yr wythnos honno yn ôl fel wythnos ychwanegol yn yr hanner tymor ym mis Hydref. Dyna oedd ein dewis cenedlaethol, ar sail y dystiolaeth iechyd a gwyddonol orau a oedd ar gael i ni ar y pryd. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod mai'r awdurdodau lleol yw'r cyflogwr a nhw sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch ddyddiadau tymhorau, gan ddeall eu hamgylchiadau a'u materion lleol. Lle'r oedd awdurdodau lleol yn gallu agor ysgolion am y bedwaredd wythnos, fe wnaethant hynny. Ond os nad oeddent yn gallu, yr awdurdod lleol, fel y cyflogwr, wnaeth y penderfyniad hwnnw.

Gwn fod yr awdurdodau lleol wedi ymgynghori â'u penaethiaid, eu staff â'u rhieni.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 240

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Darpariaeth gofal plant ar gyfer gwyliau'r haf a gweithwyr allweddol

Y cyngor gwyddonol diweddaraf yw bod y risg i blant o fod yn ddifrifol wael o ganlyniad i COVID-19 yn isel iawn. Mae Cell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cyngor gwyddonol a thechnegol i'r Llywodraeth yn ystod argyfyngau, wedi adolygu'r dystiolaeth gyfredol sy'n awgrymu bod y feirws yn fwy ysgafn ymysg plant nag oedolion pan fyddant yn cael eu heintio. Yn gyffredinol, mae plant yn dangos symptomau ysgafn neu'n asymptomatig. Ychydig iawn sy'n datblygu symptomau difrifol neu lefel o'r clefyd sy'n peryglu bywyd.

Yn ogystal, mae'r Gell Cyngor Technegol yn adrodd ei bod yn ymddangos bod y gallu i drosglwyddo'r haint ymysg plant dan 12 oed yn arbennig o isel, gyda'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos lefelau cyfyngedig o ran plant yn trosglwyddo'r feirws i'w gilydd. Dyna pam y mae'r Gell Cyngor Technegol wedi dod i'r casgliad y gall plant fod yn 'ddiogel o ran Covid' gan ddefnyddio ystod eang o fesurau. Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi'r bwriad i ysgolion ddychwelyd yn llawn o fis Medi ymlaen, Mae hefyd yn asesu'r dystiolaeth ynghylch plant yn gyffredinol, ac felly mae hefyd yn berthnasol i'r sector gofal plant.

Ynghyd â'r dystiolaeth ddiweddaraf, mae ein system Profi, Olrhain, Diogelu yn weithredol ac rydym yn glir ynghylch y mesurau y mae angen eu rhoi ar waith i greu amgylcheddau mwy diogel o fewn lleoliadau a darpariaeth. Fodd bynnag, ni ellir cael un dull sy'n addas i bawb. Rydym yn cydnabod y bydd gan bob darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored heriau unigol i fynd i'r afael â nhw.

Ers 22 Mehefin, mae lleoliadau gofal plant yng Nghymru wedi gallu ymestyn eu gweithrediadau, gan ddarparu gofal i bob plentyn ac nid dim ond plant gweithwyr allweddol neu blant sy'n agored i niwed. Mewn nifer o achosion mae hyn wedi digwydd ar raddfa lai, gan ystyried y mesurau diogelu a roddwyd ar waith i helpu i leihau cyfradd trosglwyddo COVID-19.

Yn y cyfnod ers hynny, mae dros 900 o lleoliadau a oedd wedi cau yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig wedi ailagor. Mae dros ddwy ran o dair o lleoliadau gofal plant ledled Cymru bellach ar agor ac mae nifer ohonynt yn cynnig darpariaeth dros wyliau'r haf. Ers 5 Awst, mae'r lleoliadau wedi gallu ehangu eu gweithrediadau ymhellach, gan gynyddu maint y grwpiau cyswllt a gofalu am fwy o blant. Mae hyn yn unol â'r dystiolaeth wyddonol ar drosglwyddo mewn plant.

Rydym wedi diweddaru ein canllawiau ar y mesurau diogleu i'w cymryd mewn lleoliadau gofal plant. Mae'r canllawiau ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored yn seiliedig ar y canllawiau gofal plant gyda diwygiadau priodol i adlewyrchu'r gwahanol ddarpariaeth.

Er bod y term mynediad agored yn gymwys i ddarpariaeth gofrestredig i blant o dan 12 oed, mae darpariaeth o'r fath fel arfer yn darparu ar gyfer ystod oedran eang o blant, gan gynnwys plant dros 12 oed. Diben y ddarpariaeth yw rhoi cyfleoedd chwarae wedi'u staffio i blant yn absenoldeb eu rhieni. Mae gan blant y rhyddid i ddewis pa ystod o weithgareddau chwarae y maent yn dymuno ei ddilyn a chyda phwy y maent yn chwarae. Dylid ystyried y mesurau sydd wedi'u nodi yn y canllawiau hyn ar y cyd â'r gofynion yn y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir](#).

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at gyhoeddiad a wnaed gennyf ar y cyd â'r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gofal Cymdeithasol. Wrth i staff ysgol gymryd seibiant haeddiannol dros wyliau'r haf, cyhoeddwyd y byddai £1.6 miliwn ychwanegol ar gael drwy'r Gronfa Caledi Frys i Awdurdodau Lleol i alluogi awdurdodau lleol i ehangu eu cyfleoedd gofal plant a

chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc 5-16 oed a allai fod angen cymorth ychwanegol dros yr haf.

Yr awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddefnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt i helpu'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf yn eu hardal. Yn ogystal, cadarnhawyd hefyd y bydd Cynllun Cymorth Gofal Plant Coronafeirws yn parhau yn ystod cyfnod gwyliau'r haf hyd at ddiwedd mis Awst.

Bydd plant gweithwyr critigol a phlant sy'n agored i niwed dan bump oed yn cael gofal wedi'i ariannu mewn lleoliadau gofal plant tan ddiwedd cyfnod yr haf. Rwyf hefyd wedi ymrwymo i ariannu prydau ysgol am ddim i blant cymwys dros wyliau'r haf. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud yr ymrwymiad hwn.

Mewn datblygiadau diweddar iawn, rwy'n falch o gadarnhau bod Cynnig Gofal Plant Cymru wedi ailagor i geisiadau ym mis Awst a mis Medi. Mae'r Cynnig Gofal Plant yng Nghymru yn ymrwymiad i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, i rieni sy'n gweithio a sydd â phlant tair a phedair oed. Mae wedi bod ar gael ledled Cymru ers mis Ebrill y llynedd ac roedd tua 14,600 o blant yn manteisio ar y Cynnig ym mis Ionawr 2020.

Bu'n rhaid i ni gymryd y cam digynsail o oedi'r Cynnig Gofal Plant i newydd-ddyfodiaid ar 1 Ebrill oherwydd pandemig y coronafeirws gan ein bod angen canolbwytio adnoddau ar gefnogi anghenion gofal plant gweithwyr critigol a phlant agored i niwed drwy Gynllun Cymorth Gofal Plant Coronafeirws (C-Cas).

Rwyf am ddiolch i'n hawdurdodau lleol am y modd y maent wedi rhedeg C-CAS ac wedi cefnogi teuluoedd sydd ag anghenion amrywiol sy'n aml yn gymhleth. Mae darparwyr gofal plant wedi bod yn wych; arhosodd llawer ar agor pan oedd y feirws ar ei anterth i sicrhau bod gweithwyr critigol yn gallu cyfrannu'n effeithiol at yr ymdrech genedlaethol yn erbyn y pandemig.

Ar yr un pryd, rydym wedi galluogi darparwyr gofal plant i gynyddu eu gweithrediadau i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio wrth i fwy o weithleoedd agor, a rhoi mesurau ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo coronafeirws cymaint ag sy'n bosibl. Wrth i wasanaethau gofal plant barhau i gynyddu eu gweithrediadau, credwn y bydd darpariaeth ddigonol ar gyfer y rheini sydd ei hangen.

Dyrannwyd £1 miliwn arall o'r gyllideb addysg i ariannu cymorth i blant a phobl ifanc dros wyliau haf yr ysgol er mwyn eu helpu i ailgysylltu ag addysg, gan roi'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau y gallent fod wedi'u colli yn yr ysgol, gan gynnwys cymdeithasu â'u cyfoedion a gweithgarwch corfforol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i benderfynu sut y caiff yr arian hwn ei ddyrannu. Hoffem ei weld yn cael ei dargedu tuag at y plant hynny sydd wedi colli allan fwyaf o beidio â gallu mynchu'r ysgol ac yn enwedig tuag at anghenion plant sy'n agored i niwed mewn cymunedau difreintiedig. At ei gilydd, bydd £2.6 miliwn arall yn cael ei fuddsoddi i helpu awdurdodau lleol i ddarparu cymorth gofal plant a darpariaeth chwarae i blant yn ystod gwyliau haf yr ysgol eleni.

Rwyf wedi nodi'n glir y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion, drwy gydweithio'n agos ag iechyd cyhoeddus Cymru, fod yn barod i weithredu mesurau cyfyngu priodol os bydd y feirws yn llaedaenu'n lleol. Mae hyn yn cydnabod yn gryf, er bod presenoldeb Covid-19 yn lleihau yn ein cymunedau, nad yw wedi diflannu a rhaid i ni barhau i fod yn ymwybodol o fygythiad y feirws a chymryd camau diogelu i leihau risg ar bob cyfle.

Rwy'n deall bod y misoedd diwethaf hyn wedi bod yn her i bob un o honom. Mae llawer o deuluoedd wedi ei chael hi'n anodd addysgu yn y cartref, gweithio a delio â blaenoriaethau a chyfrifoldebau eraill. Rydym yn deall heriau a manteision dysgu cyfunol. Ar 9 Gorffennaf, cyhoeddais £29 miliwn ychwanegol ar gyfer ysgolion i hybu cefnogaeth i ddysgwyr sy'n dechrau ar gyfnodau hanfodol yn eu haddysg o fis Medi ymlaen; ac i reciwtio, adfer a chodi safonau a lleihau effaith amser i ffwrdd o'r ysgol cyn belled ag y bo'n bosibl.

Bydd y pecyn cymorth hwn yn golygu y gellir reciwtio 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwywyr addysgu drwy gydol y flwyddyn ysgol nesaf a thargedu cymorth ar gyfer blynnyddoedd 11, 12, 13 yn ogystal â dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed o bob oed. Yr wyf wedi bod yn glir na ddylem byth ostwng ein disgwyliadau ar gyfer unrhyw un o'n plant a'n pobl ifanc, ni waeth beth yw eu cefndir.

Cydnabyddaf yn llawn yr amgylchiadau hynod o anodd ac ansicr y mae staff ysgol, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi bod yn eu profi a gwyddom y bydd effaith y coronafeirws yn parhau i gael ei deimlo am beth amser. Rwy'n teimlo bod y penderfyniad ar gyfer mis Medi yn ddatblygiad cadarnhaol yn unol â'r canllawiau gwydonol a thechnegol diweddaraf ac rwy'n falch iawn o'r ffordd y mae pobl yng Nghymru wedi ymateb ac o'r cadernid sy'n parhau i gael ei ddangos yn ystod y cyfnod hwn.


### **Darpariaeth oriau estynedig ar gael i weithwyr allweddol yn yr Hydref pan fydd ysgolion yn ailagor yn llawn**

Yn ystod y pandemig, mae ein hysgolion wedi darparu gofal plant a chymorth hanfodol i alluogi gweithwyr allweddol eraill, gan gydnabod yn gadarn fod athrawon yn cael eu dynodi'n weithwyr critigol, i barhau â'u rolau gan wybod bod eu plant yn ddiogel. Cymeraf yn gammoliaeth i'w clod fod rhai gweithwyr hanfodol yn galw am i'r trefniadau hyn barhau. Rwy'n falch o'r ffordd y mae ein hysgolion wedi ymateb. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod athrawon yn cael eu hystyried yn weithwyr allweddol ar gyfer eu rôl addysgol, a dyma'r rôl yr wyf yn canolbwytio fwyaf arni wrth i ni gymryd cyfleoedd yn ddiogel i gynyddu'r niferoedd mewn ysgolion, i ddal i fyny, ac i ddychwelyd i'r ysgol yn llawn ym mis Medi. Rhaid i'n hathrawon allu cyfeirio eu hamser a'u hymdreichion at eu rolau addysgu craidd.

Mae hyn wrth gwrs yn llawer anos wrth lacio'r cyfyngiadau'n raddol na chychwyn y mesurau cloi'n fwy sydyn. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn glir nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddarparu gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer y rheini sydd wedi'u nodi fel gweithwyr critigol y tu hwnt i ddiwedd mis Awst. Bydd y trefniadau gofal plant ar gyfer yr haf, gan gynnwys cymorth gan deuluoedd estynedig, yn helpu llawer o rieni a gwarcheidwaid. Yn ogystal, rydym yn gweld mwy a mwy o ddarparwyr gofal plant yn agor ac rydym yn gweithio i sicrhau bod y clybiau brecwast ac ar ôl ysgol yn gallu ailagor. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth mewn ysgolion a darpariaeth a weithredir ar draws y sector gofal plant ehangach.

Credaf fod y pandemig wedi tynnu sylw clir at faint o ddibyniaeth gymdeithasol sydd ar ein hysgolion y tu hwnt i'r rôl addysgol, a rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth iddynt. Rwyf felly'n cydymdeimlo'n fawr â theuluoedd sy'n ceisio ymdopi â'u bywydau, gofal plant, amser gweithio a gwyliau blynnyddol dros gyfnod yr haf. Dyna pam rwy'n teimlo bod y penderfyniad ar gyfer mis Medi yn ddatblygiad cadarnhaol yn unol â'r canllawiau gwydonol a thechnegol diweddaraf ac rwy'n awyddus i weld ein hysgolion yn gallu dychwelyd i'r arfer cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny. Rwy'n falch iawn o'r ffordd y mae pobl yng Nghymru wedi ymateb ac o'r cadernid, sy'n parhau i gael ei ddangos. Rwyf wedi fy nghalonogi gan hyn. Mae'n glod i ni yng Nghymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Kirsty Williams".

**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg

Minister for Education

**P-05-985 Provide key-worker childcare equivalent to what was available prior to the Covid-19 pandemic, Correspondence – Petitioner to Minister for Education, 06.09.20**

Kirsty Williams AS/MS  
Y Gweinidog Addysg/Minister for Education

Adam Calcutt  
6<sup>th</sup> September 2020

Dear Ms Williams,

Thank you for your response to my petition: P-05-985 to provide childcare equivalent to what was available prior to the Covid-19 pandemic. I am very grateful to the Petitions Committee for taking this matter forward.

Along with, I am sure, the vast majority of parents in Wales, I am very pleased that our children are finally heading back to school to access the education and social interactions they so desperately need.

I would like to take this opportunity, however, to comment on some of the assertions you make in your letter.

I initiated the petition in response to a decision made by Monmouthshire County Council to drastically reduce the operating hours of the school hubs provided for childcare purposes for the children of essential workers at the height of the Covid-19 pandemic with very limited notice. This change made it impossible for many key workers to fulfil their contracted hours of work. I also raised concerns about summer holiday childcare provision and the exclusion of key worker children from the “Check in, Catch up, Prepare” school sessions provided at the end of the summer term.

Unfortunately, by the time my petition reached its hearing at the Petitions Committee session on 17<sup>th</sup> July 2020, it was too late to influence local authorities to reinstate childcare provision that would cover a full working day. However, I believe this is an issue that is worth taking forward in the unfortunate event that an increase in coronavirus cases should lead to further local or national lockdowns. If schools should be required to close again in the future, key worker childcare provision must be maintained in order to allow essential roles to continue to be performed. This provision needs to cover core working hours. There must be an undertaking by the Welsh Government to insist that local authorities plan ahead for this “worst-case scenario” and ensure plans are put in place ahead of issues arising.

You state that you “believe the pandemic has brought into sharp focus how much social reliance there is on schools beyond the educational role”. Indeed, it must be understood that in this era needs are very different to how they may have been in the past. The vast majority of modern families work; they have to in order to make ends meet. Women are no longer stay-at-home housewives but have careers, aspirations and independence and contribute fully to wider society. The traditional school day and academic year format are no longer fit for purpose and the current situation could be used to make positive changes to bring the school system into the 21<sup>st</sup> century. Wrap-around care is essential to enable parents to work and families struggle to find childcare for the 13 weeks of school holidays a year (with additional teacher training days) when annual leave allowances come nowhere near meeting this.

Parents base their choices on what kind of family to have and how to manage their families on the availability of childcare. For example, before choosing a primary school for our children we researched the possible local options, deciding on a school that offered both breakfast club and after school club provision. No-one could have foreseen the disruption that would be caused by coronavirus; it is unprecedented for schools to shut in the way that they have over the past few months. It must be accepted, though, that parents cannot work without childcare in place and this has been of particular importance for families where parents are key workers who have been required to continue working while many others have been furloughed or able to work from home. As key workers we have continued to provide essential services, without which the health, safety and well-being of us all would be at risk. We are not asking for anything over-and-above what is usually available – just that in the event of any further school closures there is childcare provision for key workers covering the period of 8.00am–5.00pm, thus enabling us to continue our essential roles. Additionally, this provision needs to continue throughout any school holidays. We have based decisions about our families and work lives on the basis of available childcare facilities; without these in place we simply cannot fulfil our roles, to the detriment of the whole of the population of Wales.

I am disappointed to note that the approach taken to summer holiday childcare provision by various local authorities has been patchy, to say the least. Yet another example of a “postcode lottery” leading to variable services where there has been no coherent nationwide leadership. Looking ahead, should a situation arise in future where key workers require childcare provision over school holiday periods, a comprehensive national solution should be in place.

It would be very interesting to see how, exactly, the £2.6million funding you say was provided by Welsh Government was spent by the various local authorities. Considering just the area covered by the Aneurin Bevan University Health Board (my own employer), two areas provided no childcare whatsoever for key worker families: Blaenau Gwent and Powys. I have no idea how parents in these areas were supposed to manage childcare over such an extended period. Monmouthshire (our local authority) provided five weeks of childcare available to all with no key worker priority booking available. Places were only confirmed a few days before the end of term, making booking leave and planning cover at work incredibly difficult. Parents had to pay £20 per day per child and find alternative provision for the final two or three weeks of the holidays, with the scheme ceasing on 21<sup>st</sup> August but most schools not returning fully until well into September. Torfaen provided 130 free places per day for key worker children over a five-week period, with families only being able to attend for three weeks during this time – leaving four weeks of no childcare. Caerphilly made even less provision available for key worker families, offering just two weeks of childcare. Newport alone have made a stand, acknowledging the importance of childcare in enabling key workers to continue to provide essential services, and thanking them for doing so during such a difficult period. They provided four weeks of free childcare. The Newport City Council website states:

Councillor Jane Mudd, Leader of Newport City Council, said: “We know how important our childcare provision in schools and Flying Start hubs has been for some parents during the pandemic but that was finishing at the end of term.

“We decided that we would step in and provide childcare during the school holidays even though there was no requirement for us to do so.

“We owe a great debt of gratitude to our key workers and they are still vital as we cautiously move through the recovery period. I am glad that we are able to continue to provide this childcare.”

It is a shame that other local authorities felt unable to emulate this.

You suggest in your response to the Petitions Committee that alternative childcare became available when term finished on 17<sup>th</sup> July 2020. This may be true in some areas, but certainly not all, with many holiday clubs and other schemes remaining closed or limiting access to protect “bubbles” of children already in place. I would also ask how key workers, while continuing to work, were supposed to research, visit and vet these providers whom they have not previously

accessed? I, for one, would not be happy to leave my young children in circumstances I had not been able to fully check out. You also cite assistance from extended families to help with childcare issues, but fail to acknowledge that not every family has this luxury and also that many grandparents would have fitted into the vulnerable category and so were required to continue shielding until 16<sup>th</sup> August – a full month after the end of the school term – and so could not help out until after this time.

You mention a “support package” to assist “disadvantaged and vulnerable” learners. Please would you confirm that key worker children could now fit into the category of “disadvantaged” as they have not been able to access home learning in the way that other children have as their parents have been required to work and also because they were denied access, through no choice of their families, to the sessions at the end of term? Our children will have fallen behind educationally as a result of our commitment to our work roles; they will need help to regain lost ground and should not be excluded from this because they would not traditionally be thought of as a vulnerable or disadvantaged group.

I very much hope that the return to school goes without any hitches and that in Wales we manage to continue to keep the pandemic successfully under control. However, we must acknowledge that circumstances may change and local or national lockdowns or other control measures may need to be reimposed. It is clear, from what we have seen in other countries and, indeed, other parts of the United Kingdom, that the pandemic has not gone away. A “second spike” during the autumn and winter months is a very real possibility and must be planned for. Key workers will need to continue their essential roles throughout any such periods, just as they did at the height of the crisis earlier in the year, but must receive support in order to do so. Our children need to receive safe and stimulating care while we are unable to stay at home with them. This care must cover the hours of a full working day to enable us to fulfil our necessary roles. The care must continue over periods of school holidays and our children cannot continue to be educationally disadvantaged as we are not in a position to undertake comprehensive home schooling.

I hope you will consider these points and take them forward to ensure key workers across Wales are able to continue to provide essential services should there, unfortunately, be any further disruption to public life as a result of this unprecedented pandemic.

Yours sincerely,

Adam Calcutt

# Eitem 7.10

P-05-988 Rhowch fynediad cyfartal at eu hysgolion a'u hathrawon i blant gweithwyr allweddol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Catherine Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 508 lofnodion.

## Geiriad y ddeiseb:

Mae plant gweithwyr allweddol mewn rhai rhannau o Gymru wedi'u heithrio o'r sesiynau 'Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi' yn eu hysgolion. Nid ydynt yn cael dim cyswllt wyneb yn wyneb â'u hathrawon na'u cyfeillion os oes hefyd angen i'w rhieni drefnu gofal plant ar eu cyfer er mwyn i'r rhieni hynny wneud gwaith hanfodol. Byddant yn cael gofal mewn canolfannau hamdden sydd heb ddigon o wybodaeth am ddarpariaeth o ran eu hiechyd, eu llesiant emosiynol a'u haddysg.

Dylai ysgolion gynllunio i gynnwys pob dysgwr y tymor hwn ac ym mis Medi.

## Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch ailagor ysgolion yn datgan 'y bydd yr holl ddysgwyr sy'n gallu gwneud hynny yn cael cyfle i fynd i'w hysgol neu eu lleoliad ar gyfer amser wyneb yn wyneb dros weddill tymor yr haf'.

<https://llyw.cymru/diolgeu-addysg-canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-covid-19>

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Ein cyf/Our ref KW/04442/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

13 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Awst ynghylch deiseb P-05-988-rhoi mynediad cyfartal i ysgolion ac athrawon i blant gweithwyr allweddol. Rwy'n ddiolchgar am y cyfre i rannu mwy o wybodaeth â'r Pwyllgor Deisebau ar y mater hwn.

Wrth ystyried y ddeiseb, a'r ohebiaeth gan y deisebydd, ynglŷn â'r profiad personol a gafodd yn ystod y pandemig, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor Deisebau fy mod wedi cael fy arwain gan y [cyngor a'r argymhellion gwyddonol a thechnegol diweddaraf](#) gan y Gell Cyngor Technegol i Lywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig.

**Ystyried gwahaniaethau lleol neu ranbarthol yn y ddarpariaeth addysg ar gyfer plant gweithwyr allweddol ac a ellid eu hosgoi pe bai darpariaeth ysgolion yn cael ei lleihau yn y dyfodol**

Yn fy rôl fel Gweinidog dros Addysg, pan benderfynais roi cyfle i ddysgwyr 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf ' yn ystod pedair wythnos olaf tymor yr haf, cafodd hyn ei wneud mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol ac undebau'r athrawon. Ein cynnig oedd i athrawon weithio un wythnos ychwanegol, sef y bedwaredd wythnos ym mis Gorffennaf a chael yr wythnos honno yn ôl fel wythnos ychwanegol yn ystod yr hanner tymor ym mis Hydref. Rwy'n gwybod bod awdurdodau lleol gwahanol yn wynebu nifer o gyd-destunau gwahanol a lle'r oedd awdurdodau lleol wedi gallu agor ysgolion am y bedwaredd wythnos, fe wnaethant hynny. Ond os nad oeddent wedi gallu gwneud hynny, yr awdurdod lleol, fel y cyflogwr, wnaeth y penderfyniad hwnnw.

Yr oedd fy nghynnig y dylai ysgolion agor am wythnos ychwanegol ym mis Gorffennaf gydag wythnos ychwanegol yn ystod hanner tymor yr Hydref wedi'i ystyried yn drylwyr ac yn seiliedig ar y cyngor lechyd a gwyddonol gorau a oedd ar gael i ni bryd hynny. Roeddwn o'r farn y byddai'r wythnos ychwanegol yn eithriadol o bwysig o ran helpu ysgolion i fynd ati'n raddol i gefnogi plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod mai'r awdurdodau lleol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y neocwm 249

sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch ddyddiadau tymhorau a chyrff llywodraethu gan eu bod mewn sefyllfa well i ddeall eu hamgylchiadau lleol.

Rwy'n deall bod yr awdurdodau lleol wedi ymgynghori â'u penaethiaid, staff a rhieni yn eu cymunedau ysgol wrth wneud y penderfyniadau hyn.

Y cyngor gwyddonol diweddaraf yw bod y risg i blant o fod yn ddifrifol wael o ganlyniad i COVID-19 yn isel iawn. Mae Cell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cyngor gwyddonol a thechnegol i'r Llywodraeth yn ystod argyfyngau, wedi adolygu'r dystiolaeth gyfredol sy'n awgrymu bod y feirws yn fwy ysgafn ymysg plant nag oedolion pan fyddant yn cael eu heintio. Yn gyffredinol, mae plant yn dangos symptomau ysgafn neu'n asymptomatig. Ychydig iawn sy'n datblygu symptomau difrifol neu lefel o'r clefyd sy'n peryglu bywyd.

Yn ogystal, mae'r Gell Cyngor Technegol yn adrodd ei bod yn ymddangos bod y gallu i drosglwyddo'r haint ymysg plant dan 12 oed yn arbennig o isel, gyda'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos lefelau cyfyngedig o ran plant yn trosglwyddo'r feirws i'w gilydd. Dyna pam y mae'r Gell Cyngor Technegol wedi dod i'r casgliad y gall plant fod yn 'ddiogel o ran Covid' gan ddefnyddio ystod eang o fesurau. Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi'r bwriad i ysgolion ddychwelyd yn llawn o fis Medi ymlaen, Mae hefyd yn asesu'r dystiolaeth ynghylch plant yn gyffredinol, ac felly mae hefyd yn berthnasol i'r sector gofal plant.

Ynghyd â'r dystiolaeth ddiweddaraf, mae ein system Profi, Olrhain, Diogelu yn weithredol ac rydym yn glir ynghylch y mesurau y mae angen eu rhoi ar waith i greu amgylcheddau mwy diogel o fewn lleoliadau a darpariaeth. Fodd bynnag, ni ellir cael un dull sy'n addas i bawb. Rydym yn cydnabod y bydd gan bob darpariaeth heriau unigol i fynd i'r afael â nhw.

Mae'r sefyllfa o ran y firws a'n dealltwriaeth o dueddiad plant i gael y clefyd, a'u rôl o ran trosglwyddo, bellach wedi datblygu. Erbyn hyn mae rhagor o wybodaeth ar gael i lywio ein penderfyniadau ynghylch y mesurau i'w cymryd mewn lleoliadau addysg.

Roedd natur eithriadol y pandemig, a sut gwnaeth y sefyllfa ddatblygu dros amser, yn golygu bod amrywiaeth ledled Cymru yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl i ysgolion gael eu haddasu at ddibenion gwahanol. Roedd hynny'n ddealladwy ac, i raddau, i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, cymerwyd camau i sicrhau mwy o gysondeb drwy gyngor a chyfarwyddyd, er enghraifft drwy ein cynlluniau Parhad Dysgu.

Rwyf wedi ymrwymo i barhau i weithio'n agos â phawb sy'n ymwneud â'r system ysgolion yng Nghymru ac rwyf wedi defnyddio dulliau ymgysylltu amrywiol i wrando a gwell ein cynlluniau drwy gydol y sefyllfa sy'n datblygu. Er enghraifft, roedd ein canllawiau dysgu a gweithredol ar gyfer ysgolion i gefnogi'r broses ailagor a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi yn seiliedig ar drafodaethau gyda chyflogwyr, ymarferwyr, gweithwyr, undebau, rhieni a dysgwyr. Mae gan randdeiliaid safbwytiau gwahanol ac maent wedi helpu i lunio'r camau yr ydym wedi'u cymryd a'r canllawiau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud mewn mannau eraill yn y DU, gan ei bod yn amlwg yn ystod y pandemig hwn bod y dulliau gweithredu wedi amrywio er bod yr heriau wedi bod yn debyg.

Addasodd y system addysg yng Nghymru yn gyflym ac yn effeithiol i'r heriau yr oedd yn eu hwynebu, ac rydym i gyd wedi dysgu gwersi pwysig am y cymorth y gallwn ei roi ar waith a'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn amgylchiadau penodol. Ni ellir cael un dull ar gyfer pawb wrth i ni wynebu ansicrwydd parhaus y feirws hwn a rhaid i ni barhau i ddeall yr hyn sydd ei angen, a bod yn barod i addasu i amgylchiadau sy'n newid. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd barhau i ymdrechu i sicrhau'r gorau ar gyfer ein dysgwyr. Bydd hyn yn ganolog i'r hyn a wnawn, ac mae cysondeb yn hynny o beth yn allweddol bwysig.

Mae llawer o ansicrwydd yn wynebu'r system addysg wrth i ni baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'r hawl i addysg yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gymwys yn ddieithriad, ni waeth beth fo'r sefyllfa nac unrhyw rwystrau i ddysgu a wynebir gan unigolion. Nid yw cyfnod arall o gyfyngiadau symud neu gyfnod o ddysgu cyfunol yn rhyddhau awdurdodau lleol o'u dyletswydd i ddarparu addysg addas. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen rhoi'r ddyletswydd honno ar waith yn wahanol i rai dysgwyr am gyfnodau.

Os bydd cyfnod arall o gyfyngiadau symud yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, neu os bydd angen rhyw fath o ddull dysgu cyfunol, bydd y disgwyliadau canlynol yn berthnasol o ran cyswllt a hyd y dysgu. Dylid cysylltu â phob dysgwr yn rheolaidd i 'wirio' – bydd hyn yn rhoi cyfle i wirio diogelwch a lles y dysgwr a thrafod eu profiad dysgu gan ystyried cymorth ychwanegol posibl. At hynny, dylai pob dysgwr gael yr un faint o amser dysgu y byddai wedi'i dderbyn petai yn yr ysgol neu leoliad, waeth a yw eu dysgu'n digwydd gartref neu yn rhywle arall. Bydd eithriadau i'r disgwyliad hwn. Fodd bynnag, dylai fod yn fan cychwyn i bob dysgwr.

Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref yn nodi y bydd angen i ysgolion a lleoliadau, ar unrhyw lefel o weithredu, ystyried yn ofalus sut y dylid defnyddio'r amser yn yr ysgol neu'r lleoliad. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd amser cyswllt yn werthfawr. Dylai ymarferwyr feddwl am y cydbwysedd a'r berthynas rhwng amser dysgu yn yr ysgol a dysgu mewn man arall, gan ddefnyddio amser cyswllt yn ofalus ac yn effeithiol a nodi sut all amser gartref neu rywle arall, os oes angen, helpu i wneud cysylltiadau a chyfnerthu dysgu.

Dylent ystyried ystod eang o ddulliau addysgeg sy'n defnyddio dysgu yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol yn effeithiol i rymuso dysgwyr. Gall amser dysgu yn y cartref gynnwys ymarfer sgiliau a dyfnhau gwybodaeth a gyflwynwyd yn ystod amser cyswllt ond gallai hefyd gynnwys caffael gwybodaeth a dealltwriaeth newydd. Gall amser yn y cartref hefyd alluogi dysgwyr hŷn i wneud ymchwil, paratoi a meddwl cyn archwilio ac atgyfnerthu cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau yn ystod amser cyswllt. Dylent geisio cefnogi'r sgiliau hyn yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Dylai ymarferwyr bob amser geisio datblygu sgiliau digidol yng nghydestun dysgu ehangach yn hytrach na cheisio eu haddysgu ar eu pennau eu hunain. Wrth ddatblygu eu hagwedd at brofiadau dysgu, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried canllawiau ar ddysgu cyfunol.

### **A fydd grwpiau cyswllt neu 'swigod' o fis Medi ymlaen ar gael yn llawn i blant gweithwyr allweddol, neu i unrhyw rieni y mae angen iddynt gael gofal plant cofleidiol?**

Rydym wedi penderfynu newid y mesurau mewn perthynas â phlant dan 11 oed fel rhan o'r adolygiad ffurfiol o'r angen am y cyfyngiadau symud. Mae'r gyfraith yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion adolygu cyfyngiadau symud a'u cymesuredd bob 21 diwrnod. Y cyngor o hyd yw mai isel yw'r risg i blant dan 11 oed ac wrthynt. Fodd bynnag, maent yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau eraill a rhaid iddynt ddal i lynu wrth y cyfyngiadau hyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfyngiadau cymdeithasol ar gwrdd â grwpiau teuluol eraill neu gynnulliadau ehangach.

Gwyddom fod lleihau cyswllt a chymysgu rhwng pobl yn lleihau trosglwyddiad COVID-19. Rhaid i ysgolion ystyried sut orau i weithredu hyn a gwneud popeth posibl o fewn eu cyd-destun eu hunain i leihau cysylltiadau a chymysgu, wrth ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys. Cydnabyddir, fodd bynnag, y bydd gan ysgolion gyfyngiadau mewn perthynas ag adeiladau ac adnoddau staffio ac y gall fod angen elfen o hyblygrwydd er mwyn i blant allu dychwelyd i'r ysgol.

Yr egwyddor gyffredinol i'w defnyddio yw lleihau nifer y cysylltiadau rhwng dysgwyr a staff. Gellir cyflawni hyn drwy gadw grwpiau ar wahân a thrwy gynnal y pellter rhwng unigolion. Bydd y ddau fesur yn helpu, ond bydd y cydbwysedd rhyngddynt yn newid yn dibynnu ar y canlynol:

- gallu dysgwyr i ymbellhau;
- cynllun yr ysgol; ac
- dichonoldeb cadw grwpiau gwahanol ar wahân wrth gynnig cwricwlwm eang.

Mae'n debygol y bydd y pwyslais ar gyfer dysgwyr iau ar wahanu grwpiau, ac ar gyfer dysgwyr hŷn bydd y pwyslais ar gadw pellter cymdeithasol. I ddysgwyr sy'n ddigon hen, dylid eu cefnogi i gadw pellter a pheidio â chyffwrdd staff lle bo modd.

Mae cadw pellter rhwng pobl tra eu bod y tu fewn, a lleihau'r amser y maent yn ei dreulio wyneb yn wyneb, yn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws. Ceir cyngor iechyd cyhoeddus cryf bod staff mewn ysgolion uwchradd yn cadw pellter oddi wrth eu dysgwyr, gan aros ym mlaen y dosbarth ac i ffwrdd oddi wrth eu cydweithwyr lle bo hynny'n bosibl.

Yn ddelfrydol, dylai oedolion gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth y dysgwyr. Rwy'n sylweddoli nad yw hyn bob amser yn bosibl, yn enwedig wrth weithio gyda dysgwyr iau, ond os gall oedolion wneud hyn pan fydd amgylchiadau'n caniatâu, bydd hynny'n help. Yn benodol, dylent osgoi cysylltiad agos wyneb yn wyneb a lleihau'r amser a dreulir o fewn 1 metr i unrhyw un. Yn yr un modd, ni fydd hyn yn bosibl wrth weithio gyda llawer o ddysgwyr sydd ag anghenion cymhleth neu y mae angen gofal cyswllt agos arnynt. Dylid darparu cymorth addysgol a gofal y dysgwyr hyn yn yr un ffordd ag arfer.


Gall trefniadau gofal plant ar gyfer yr haf bellach gynnwys defnyddio cefnogaeth teulu estynedig a bydd hyn yn helpu llawer o deuluoedd, yn ogystal â gweld mwy a mwy o ddarparwyr gofal plant yn agor. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau y gall clybiau brecwast ac ar ôl ysgol ailagor, a fydd yn bryder allweddol i lawer. Disgwyliaf i ysgolion ac awdurdodau lleol gyfathrebu'r trefniadau lleol yn unol â hynny.

Rwy'n deall sut mae teuluoedd yn ceisio cydbwyso eu hamser gwaith a'u gwyliau blynnyddol ar gyfer gwyliau ysgol fel arfer. I lawer, mae'r clwb brecwast neu'r clwb ar ôl ysgol yn hanfodol i'r plant sy'n mynchyu ac i'r rhieni allu cyflawni eu gwaith neu ymrwymiadau eraill.

Deallaf fod darpariaeth ran-amser mewn ysgolion heb ddarpariaeth cofleidiol a gofal plant yn gallu golygu y gallai rhieni ddefnyddio'u gwyliau blynnyddol/hyblyg i gyd yn gyflym a bod yn rhaid i ni yn y Llywodraeth barhau i annog cyflogwyr i gefnogi trefniadau gweithio hyblyg lle bynnag y gallant ar yr adeg hon, gan gynnwys gweithio o gartref lle bo'n bosibl i'r rheini sydd ag ymrwymiadau gofalu.

Rwyf yn cydnabod yn llawn yr amgylchiadau hynod o anodd ac ansicr y mae staff ysgol, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi bod yn eu hwynebu. Rwy'n teimlo bod y penderfyniad ar gyfer mis Medi yn ddatblygiad cadarnhaol yn unol â'r canllawiau gwyddonol a thechnegol diweddaraf ac rwy'n falch iawn o'r ffordd y mae pobl yng Nghymru wedi ymateb. Byddwn wrth gwrs yn parhau i adolygu ein polisiau wrth i'r dystiolaeth esblygu ac wrth i ni ddysgu mwy am drosglwyddiad COVID 19.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Kirsty Williams".

**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg

Minister for Education

**P-05-988 Give key worker children equal access to their schools and teachers,  
Correspondence – Petitioner to Committee, 29.08.20**

Thanks you for forwarding the Minister's response. Unfortunately it doesn't address my concerns at all.

Going back to the situation in June, I was told, three working days before school reopening, that as I needed to use key worker childcare to do my own work as a teacher, my children could not have contact with their class teachers or their friends. It later transpired that children in this situation would be sent to the local leisure centre, which wouldn't be staffed by teachers. Later still, I learned that the children of school staff only (which didn't make epidemiological sense) could attend school to do their online learning supervised by a TA, but still without access to their teacher or opportunities to mix with friends.

Kirsty Williams has not addressed any of this in her letter, which seems to be a convoluted overview of the guidance to schools. She makes no reference at all to the exclusion of key worker children from their classroom settings.

I teach in England and will remove my children from their school if this happens again, in the event of reopening after local or regional lockdown. I was able to teach key worker children alongside their classmates during the phased return so I would seek for my children to be afforded the same over the border.

Please consider asking the Minister to be more specific about whether or not headteachers will be allowed to exclude the children of key workers who need to use childcare, in the event of phased reopening after future lockdown.

With thanks

Catherine